# Uchelgeisiau i'r dyfodol

## Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk









# Uchelgeisiau i'r dyfodol

## Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru

**Cynulleidfa**
Llywodraeth Cynulliad Cymru, pob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir yng Nghymru, awdurdodau lleol, Cyngor Ariannu Addysg Uwch Cymru, Gwasanaeth Cynghori Gyrfaoedd Addysg Uwch Cymru, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, cwmnïau a chynghorwyr gyrfaoedd Gyrfa Cymru, Canolfannau Byd Gwaith, Arolygwyr ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru – Estyn, cyflogwyr, Cyngor Undebau Llafur Cymru a rhanddeiliaid eraill sy'n ymdrin â darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau am faterion sy'n ymwneud â gyrfaoedd.

**Trosolwg**
Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn archwilio'r perthnasau rhwng yr ystod eang o ddarparwyr gwasanaeth sy'n gweithio i ddarparu addysg gyrfaoedd, gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chanllawiau gyrfaoedd a hefyd cysylltiadau addysg-busnes a gwasanaethau lleoli ac i ddynodi sut gellir gwella'r perthnasau hyn.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Cangen Polisi Gyrfaoedd
Is-Adran Polisi Addysg Bellach ac Addysg Uwch
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Tŷ'r Afon
Bedwas Road
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT

Ffôn: 01443 663716
Ffacs: 01443 663762
e-bost: DCELLS-CareersPolicyBranch@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**
Ar gael drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig**
*Careers Wales: A Review in an International Perspective*, Professor A G Watts (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009)

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

75% wedi'i ailgylchu recycled

Cyf: CAD/GM/0130
ISBN: 978 0 7504 5711 8
WAG10-11097
© Hawlfraint y Goron Medi 2010

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **3** |
| **Y cyd-destun** | **5** |
| **Ein dull** | **8** |
| **Y cwmpas a'r egwyddorion sylfaenol** | **11** |
| **Meysydd ar gyfer gwella** | **17** |
| **Thema 1: Gwasanaethau gyrfaoedd ar gyfer pobl ifanc** | **18** |
| Gofynion sylfaenol | 18 |
| *Fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith* | 19 |
| Partneriaethau Addysg-Busnes | 25 |
| Adeiladu gallu mewn gwasanaethau gyrfaoedd ar gyfer pobl ifanc | 32 |
| Rhwydweithiau Llwybrau Dysgu 14–19 a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc | 35 |
| **Thema 2: Datblygu model darparu gwasanaeth gyrfaoedd gwahaniaethol** | **36** |
| Gwasanaethau wyneb yn wyneb | 36 |
| Adnoddau ar-lein a thros y ffôn | 38 |
| **Thema 3: Grwpiau blaenoriaeth** | **42** |
| Grŵp *NEET* | 42 |
| Pobl ifanc ag anghenion addysgol ychwanegol | 44 |
| Troseddwyr ifanc | 45 |
| **Thema 4: Gwasanaethau gyrfaoedd ar gyfer oedolion** | **48** |
| Dysgu seiliedig ar waith ac addysg bellach | 48 |
| Y rhyngwyneb rhwng Gyrfa Cymru a Gwasanaethau Cynghori ynghylch Gyrfaoedd mewn Addysg Uwch (GCGAU) | 50 |
| Yr hawl lleiaf a grwpiau blaenoriaeth o fewn GCGAU | 53 |
| Rheoli ansawdd ac arolygu GCGAU | 54 |
| Deialog gyrfaoedd yn y gweithle a lleoliadau dysgu cymunedol | 55 |
| **Thema 5: Agenda Diwygio Lles** | **57** |
| Gwiriadau iechyd sgiliau | 57 |
| Datblygu'r cysyniad o 'Grisiau Gyrfaoedd' | 58 |
| **Thema 6: Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol** | **61** |
| Cymwysterau ar gyfer ymarferwyr gwasanaethau gyrfaoedd | 61 |
| Datblygu canolfan rhagoriaeth | 62 |
| Cadarnhau safonau proffesiynol | 62 |
| Sefydlu strategaeth datblygu gweithlu gwasanaethau gyrfaoedd | 63 |

**Thema 7: Gwybodaeth a Dealltwriaeth o’r Farchnad Lafur** 64

**Thema 8: Fforwm Strategol Gwasanaethau Gyrfaoedd** 68

**Thema 9: Strwythur a brand sefydliadol Gyrfa Cymru** 70

Ailstrwythuro Gyrfa Cymru 70
Brand Gyrfa Cymru 71
Adfywio brand y Partneriaethau Addysg-Busnes 72

**Thema 10: Y rhyngwyneb gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru** 73

Y Gangen Polisi Gyrfaoedd 73
Cynyddu cysylltiad gyda darparwyr gwasanaeth 74
Cefnogi Fforwm Strategol y Gwasanaethau Gyrfaoedd 75
Rôl amlycach yn rhyngwladol 76

**Argymhellion** 77

**Crynodeb gweithredol a sylwadau i gloi** 86

**Atodiadau**

**Atodiad 1: Papur cefndir ar y meysydd i gael eu cynnwys yn ystod ail gam yr adolygiad o wasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru** 90

**Atodiad 2: Aelodaeth y Grŵp Cyfeirio Allanol** 118

**Atodiad 3: Rhaglen Cyfarfodydd y Grŵp Craidd gyda Phartneriaid Allweddol, Rhanddeiliaid a’r Grŵp Cyfeirio Allanol** 119

**Atodiad 4: Papurau a ystyriwyd gan yr Adolygiad** 121

**Atodiad 5: Cyfansoddiad ‘teulu’ y gwasanaethau gyrfaoedd** 126

**Atodiad 6: Gyrfa Cymru – Gweithgareddau Addysg-Busnes** 128

**Atodiad 7: Rhestr termau** 131

**Atodiad 8: Bywgraffiadau byr o aelodau’r tîm Adolygu** 135

**Cydnabyddiaethau** 136

# Rhagair

Mae pwnc yr Adolygiad hwn – gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru – yn faes eang, yn cwmpasu addysg gyrfaoedd, gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd, cysylltiadau addysg-busnes, a gwasanaethau lleoli. Darperir y gwasanaethau hyn gan amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaeth sy'n gweithio gyda'i gilydd drwy bartneriaethau ffurfiol neu drefniadau anffurfiol – mewn amrywiaeth o leoliadau. Maen nhw'n torri ar draws cyfrifoldebau amrywiol rannau o Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn cyffwrdd â rhai elfennau o'r gwasanaethau a ddarperir gan Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU a'i hasiantaeth lleoli swyddi, Jobcentre Plus. Eu nod gyffredin yw cynorthwyo unigolion ar adegau gwahanol ar hyd eu bywydau i wneud dewisiadau o ran addysg, hyfforddiant a galwedigaeth a rheoli eu gyrfaoedd o fewn systemau addysg a marchnadoedd llafur sy'n newid yn gyflym. Gyda'i gilydd, Maen nhw'n cynrychioli system gyfansawdd sydd wedi esblygu o wreiddiau amrywiol, yn hytrach nag un a sefydlwyd o fwriad. Mae'n system sydd â swyddogaeth hanfodol i'w chyflawni oherwydd ei bod yn dwyn ynghyd ofynion cyflogadwyedd a sgiliau ochr 'galw' yr **economi** gyda dyheadau dysgu a gwaith **unigolion**, sef ochr y 'cyflenwi'.

Yn ganolog i'r system ceir chwe chwmni Gyrfa Cymru, pob un yn gwasanaethu rhan wahanol o Gymru, a'u cyd-isgwmni, Cymdeithas Gyrfa Cymru. Mae'r rhain yn darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ar sail pob oed a phob gallu mewn ysgolion, colegau, cymunedau lleol, swyddfeydd ar y stryd fawr ac yn y gweithle. Maen nhw hefyd yn hyrwyddo darparu profiadau sy'n canolbwyntio ar waith drwy gefnogi Partneriaethau Addysg-Busnes ac yn chwarae rhan flaenllaw wrth gefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, y rheiny sydd mewn perygl o golli diddordeb a throseddwyr ifanc. Yng Ngham 1 yr Adolygiad, cafodd cwmnïau Gyrfa Cymru eu meincnodi gan yr Athro Tony Watts yn erbyn darparwyr gwasanaeth cyfatebol mewn rhannau eraill o'r DU ac mewn gwledydd eraill. Nododd yr asesiad eu bod yn gyrff cryf a thra phroffesiynol oedd yn darparu gwasanaethau ymatebol o ansawdd da ac yn meddu ar y potensial i ddatblygu model o ddarparu gwasanaeth y gallai gwledydd eraill anelu ato. Fodd bynnag, nodwyd y gellid ond gyrraedd y potensial hwn ond wrth wella'r rhyngweithio rhyngddyn nhw a'i gilydd, gyda darparwyr gwasanaeth eraill cysylltiedig â gyrfaoedd (megis ysgolion, colegau, y sector gwirfoddol, prifysgolion, ac asiantaethau lleoli swyddi) a chyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ein pwrpas ni felly, yng Ngham 2 yr adolygiad, fu archwilio'r cysylltiadau hyn er mwyn awgrymu sut y gellid eu gwella ymhellach. Rydym wedi ceisio nodi strategaethau a allai gyfrannu at gyfeiriad y llwybr y dylid dilyn i sicrhau gweledigaeth gyffredin o system well. Fe'm cynorthwywyd gan benderfyniad y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i ad-drefnu cwmnïau Gyrfa Cymru yn un corff gan mai dyma un o'r prif egwyddorion newid y byddem wedi eu hargymell. Mae'r penderfyniad hwn wedi dileu'r ansicrwydd ynglŷn â'r cysylltiadau yn y dyfodol ac mae wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar y modd y gallai un corff Gyrfa Cymru ryngweithio mewn ffordd fwy integredig gyda chwaraewyr eraill o fewn y system ehangach.

Wrth wneud hyn, yr ydym, dros y pedwar mis diwethaf, wedi casglu tystiolaeth gan amrediad eang o gynrychiolwyr rhanddeiliaid ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol. Ystyriwyd tystiolaeth empirig lle'r oedd ar gael yn rhwydd. Ein cyfweliadau gyda phersonél arbenigol oedd prif sail ein penderfyniadau ynglŷn â ble oedd angen gwella. Mae ein dadansoddiad yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd ac ar farn onest pobl sy'n gwybod am y gwasanaethau hyn ac yn eu deall yn dda. Yn yr adroddiad credwn ein bod wedi cronni consensws y newidiadau strategol sydd angen digwydd dros y 3–5 mlynedd nesaf er mwyn symud yr holl system at un a gydnabyddir gan lawer fel model ardderchog, hynny yw, un sy'n darparu ystod gyflenwol, gyson a chydlynol o wasanaethau ar gyfer unigolion ledled Cymru.

Mae sail gadarn i'r trefniadau sydd mewn lle ar hyn o bryd ac mae llawer ohono'n gweithredu'n rhagorol; ond nid ydyn nhw'n gweithio gystal ag y gallan nhw. Y nod gyffredinol yw eu trawsnewid yn strwythur o systemau mwy cydlynol, effeithlon ac effeithiol – ac un sy'n fwy galluog i ymateb i ofynion newidiol yr unfed ganrif ar hugain.

Cawsom ein calonogi gan y sylwadau cadarnhaol a dderbynion ni gan y rhai yr ydym wedi eu cyfarfod. Credwn fod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu consensws y farn ar y modd y gall gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru ddod yn fwy integredig. Rydym felly'n cyflwyno gweledigaeth ac yn gobeithio y caiff ein hawgrymiadau eu trawsnewid o eiriau i weithredoedd gan holl aelodau'r 'teulu' o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd, yn cydweithio i gyflawni'r uchelgeisiau ymarferol hyn ar gyfer y dyfodol.

**Dr. Haydn E. Edwards (Cadeirydd)**
**Yr Athro Danny Saunders OBE**
**Dr. Deirdre Hughes**

# Y cyd-destun

**1.** Comisiynwyd yr Adolygiad fel rhan o strategaeth a chynllun gweithredu *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ei ddiben oedd penderfynu:

- pa mor dda yw sefyllfa'r ddarpariaeth gyrfaoedd yng Nghymru ar gyfer ymateb i ffactorau dynamig sy'n codi o alw'r cwsmeriaid, newidiadau demograffig, amodau economaidd a datblygiadau polisi
- a yw'r trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaeth yn effeithlon, yn effeithiol ac yn addas i'r diben o ran ateb anghenion unigolion, darparwyr addysg, cyflogwyr, rhieni, a rhanddeiliaid eraill
- oes yna le i wella.

**2.** Mae cwmpas yr Adolygiad wedi cynnwys yr amrediad presennol o wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd pob oed a ddarperir gan gwmnïau Gyrfa Cymru a'u perthynas gyda darpariaeth gwasanaeth gysylltiedig mewn addysg, y sector gwirfoddol, busnes, a'r system fudd-daliadau. Roedd Cam 1 yn archwilio perfformiad cwmnïau Gyrfa Cymru yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd yn cymharu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd y cwmnïau gyrfaoedd gyda'r rheiny mewn gwledydd eraill (drwy gyfeirio at feini prawf arfer da a sefydlwyd yn rhyngwladol). Mae'r papur cefndir yn Atodiad 1 yn egluro cyd-destun ehangach yr Adolygiad yn nhermau amrediad presennol y ddarpariaeth gwasanaeth yng Nghymru a'r prif yrwyr polisi sy'n effeithio ar wasanaethau.

**3.** Yn dilyn cam cyntaf yr Adolygiad cynhyrchwyd dau adroddiad – y naill gan Estyn a'r llall gan yr Athro Tony Watts – ym mis Mai 2009, ynghyd â'r Cylch Gorchwyl arfaethedig mwy eang ar gyfer Cam 2.

- *Cyflwyniad Estyn i'r Adolygiad o'r Gwasanaethau Gyrfaoedd yng Nghymru: Dadansoddiad cymharol o berfformiad Gyrfa Cymru 2005–2008* (Chwefror 2009)

  www.estyn.gov.uk/inspection_reports/rep_careerswales.asp

- *Gyrfa Cymru: Adolygiad o Safbwynt Rhyngwladol*
  Yr Athro A G Watts (Mai 2009)

  www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau
  (gweler 'Ymchwil' o fewn yr adran 'Ymchwil a gwerthuso' ar y wefan)

- *Cynnydd ar yr Adolygiad o Gyrfa Cymru* – Datganiad Ysgrifenedig gan John Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (Hydref 2009)

  www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau (gweler 'Datganiadau'r Cabinet 2009' yn ardal 'Cabinet a Gweinidogion' yr adran 'Amdanom ni' o'r wefan)

**4.** Awgrymai'r adroddiadau hyn fod gan Gymru'r potensial ar gyfer darparu system gwasanaethau gyrfaoedd o safon fyd-eang, ond y byddai angen amrywiol ddatblygiadau pellach er mwyn i'r system fedru ymdopi â'r heriau niferus yr oedd yn eu hwynebu. Rhoddir crynodeb o'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion oedd yn codi o'r adroddiadau hyn yn Atodiad 1. Cafodd y potensial hwn ei atgyfnerthu ymhellach gan adroddiad arolygiad diweddarach Estyn ar gwmni Gyrfa Cymru oedd yn gwasanaethu Canol Morgannwg a Phowys, a gofnododd set gyflawn, na welwyd cyn hyn, o raddau un (da gyda rhai nodweddion rhagorol) mewn ymateb i bob un o'r saith prif faes asesu.

**5.** Wedyn cafodd y Maes Gorchwyl ar gyfer Cam 2 yr Adolygiad ei newid gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 28 Ionawr 2010 i adlewyrchu ei benderfyniad i ad-drefnu Gyrfa Cymru ar sail tystiolaeth adroddiadau allanol olynol ac er mwyn rhoi mwy o eglurder, cysondeb a sicrwydd, i ad-drefnu Gyrfa Cymru yn un corff sengl. Gweler datganiad ysgrifenedig y Gweinidog yn cyhoeddi'r newid hwn yn:

- *Adolygiad o Wasanaethau Gyrfaoedd yng Nghymru* – Datganiad Ysgrifenedig gan Leighton Andrews AC, Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Ionawr 2010)

  www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau (gweler 'Datganiadau'r Cabinet 2009' yn ardal 'Cabinet a Gweinidogion' yr adran 'Amdanom ni' o'r wefan)

**6.** Felly mae ein Cylch Gorchwyl diwygiedig wedi ein gorfodi i gymryd yn ganiataol y byddai cwmnïau Gyrfa Cymru yn cael eu corffori yn gorff unigol cyn gynted ag y byddai modd. Gofynnwyd i ni wneud y canlynol:

- cwmpasu ystod eang y gwasanaethau addysg a gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd, a ddarperir gan gwmnïau Gyrfa Cymru a darpariaeth gwasanaethau gyfagos, berthnasol arall mewn addysg, yn y sector gwirfoddol, busnes a'r system fudd-daliadau

- ystyried asesiad yr Athro Watts o sut mae darpariaeth gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru'n cymharu gyda'r hyn a geir mewn rhannau eraill o'r DU a gwledydd blaenllaw eraill; a sut gellid datblygu'r trefniadau presennol yng Nghymru yn system o safon fyd-eang
- edrych ar ofynion neilltuol grwpiau gwahanol o gleientiaid ac eiddo'r cyflogwyr wrth gynorthwyo unigolion i ddatblygu eu dyheadau o ran gyrfa, llwybrau dysgu a hunan-reoli gyrfa a sgiliau
- ystyried pa mor gydlynol a chost-effeithiol cyflwynir y gwasanaethau presennol sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd a pha mor dda mae cwmnïau Gyrfa Cymru, darparwyr addysg, cynghorwyr gwaith a darparwyr gwasanaeth cyfagos eraill yn gallu gweithio mewn partneriaeth; dylai hyn fod ar sail y rhagdybiaeth caiff cwmnïau Gyrfa Cymru eu dwyn ynghyd i mewn i un corff cyn gynted â phosibl
- datblygu'r weledigaeth o system addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd sy'n integredig, dan arweiniad proffesiynol ac o safon fyd-eang ar gyfer pob oed a phob gallu
- cynnig strategaeth ar gyfer gwireddu'r weledigaeth hon.

**7.** Oherwydd hynny mae ail gam yr Adolygiad wedi ystyried y canlynol:

- y cysylltiadau sy'n bodoli rhwng darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth ar draws gwahanol feysydd darparu gwasanaeth a nodir yn y papur briffio cefndir yn Atodiad 1
- y ffordd y rheolir ac y cyd-drefnir y gwasanaethau a'r cysylltiadau hyn, y modd caiff ansawdd ei sicrhau, y ffordd cân nhw eu monitro, eu harolygu a'u gwerthuso
- y graddau mae gwasanaethau yn cael eu cynnal yn dda gan:
  - safonau proffesiynol
  - staff cymwysedig
  - adeiladu gallu
  - trefniadau meincnodi
  - rhannu gwybodaeth ac arfer gorau
  - ymchwil ac adolygiad cyfoedion
  - integreiddio casglu a dadansoddi data
  - y defnydd gorau o dechnoleg fel cyfrwng i ddarparu a gweinyddu gwasanaeth.

# Ein dull

**8.** Bu Gyrfa Cymru'n destun archwiliad eithaf helaeth gan adolygiadau amrywiol dros y pum mlynedd diwethaf. Rydym felly wedi ceisio osgoi dyblygu'r gwaith hwn drwy ei gymryd i ystyriaeth a chanolbwyntio ar feysydd nad edrychwyd arnyn nhw'n fanwl o'r blaen.

**9.** Dros gyfnod o bedwar mis, rydym wedi ymgymryd â chyfres ddwys o sesiynau casglu tystiolaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth perthnasol, darparwyr a chymdeithasau sy'n bartneriaid, cynrychiolwyr cyflogwyr ac undebau llafur, asiantaethau arolygu, cymdeithasau proffesiynol, swyddogion y llywodraeth a'r Athro Watts. Cawsom gymorth gan Grŵp Cyfeirio o gynrychiolwyr cyrff sy'n brif rhanddeiliaid. Roedden nhw'n gweithredu fel ffordd o gyfathrebu gyda chymunedau oedd yn rhanddeiliaid a hefyd fel 'seinfwrdd' ar gyfer y canfyddiadau oedd yn dod i'r amlwg. Mae cyfranogwyr y Grŵp Cyfeirio wedi eu rhestru yn Atodiad 2; a cheir rhestr lawn y 32 cyfarfod a gynhaliwyd yn Atodiad 3.

**10.** Y fethodoleg a ddefnyddiwyd oedd anfon y papur briffio cefndir (gweler Atodiad 1), a chwestiynau pwrpasol, at y rhai oedd i'w cyfweld cyn ein cyfarfodydd er mwyn eu galluogi nhw i holi a chasglu barn, lle bo'n briodol, o'u rhwydweithiau eu hunain. O ganlyniad roedd rhywfaint o'r rhai a holwyd wedi cynhyrchu papurau ysgrifenedig i ategu eu tystiolaeth ar lafar. Rydym hefyd wedi comisiynu amrywiol bapurau gan swyddogion y llywodraeth. Mae'r papurau a dderbynion ni wedi eu rhestru yn Atodiad 4 a gellir cael copïau drwy ofyn i Gangen Polisi Gyrfaoedd yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS). Rydym wedi ceisio sicrhau proses gytbwys o ymholi yn ystod ein trafodaethau; a gobeithiwn fod hyn hefyd yn amlwg yn ein hargymhellion.

**11.** Mae ein Cylch Gorchwyl yn mynnu ein bod yn ymgymryd â'r Adolygiad ar lefel strategol. Rydym wedi ystyried gweledigaeth yr Athro Watts o sut y byddai system o wasanaethau gyrfaoedd 'o safon fyd-eang' yn edrych drwy nodi nodweddion ac egwyddorion cynhenid. Rydym wedi asesu ei ragnodiadau ar gyfer newid drwy wrando ar farn amrywiaeth eang o randdeiliaid. Wedyn buon ni'n ceisio penderfynu pa elfennau o'r weledigaeth honno oedd yn hanfodol ac yr oedd yn bosib eu gwireddu, sef pa ddatblygiadau oedd yn allweddol ar gyfer gwneud cynnydd. Wrth wneud hynny, rydyn ni wedi ceisio nodi y:

- cryfderau presennol
- gwendidau a ddaeth i'r amlwg

- cyfleoedd i wella
- peryglon neu rwystrau a allai godi.

**12.** Roedden ni'n ymwybodol o natur newidiol agweddau ac ymddygiadau defnyddwyr, yn enwedig o ran defnyddio gwasanaethau wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar y we. Hefyd, mae amodau economaidd newydd a heriol yn tanlinellu'r angen i wneud y gorau o'r adnoddau posibl ac i ystyried dull cynyddrannol o ddylunio a datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru. Yn ein barn ni, mewn amgylchiadau o'r fath, mae llywio cyfeiriad teithio clir a mapio sut i gyrraedd y nod, yn hollbwysig, i osgoi colli momentwm.

**13.** Rydym yn gwerthfawrogi mai'r prif ganolbwynt i ddechrau o reidrwydd fydd ad-drefnu Gyrfa Cymru. Fodd bynnag, rydyn ni o'r farn ei bod yn hanfodol i swyddogaethau arfaethedig y corff sengl a'i gysylltiadau gyda darparwyr gwasanaeth cyfagos fod wedi eu pennu'n glir o'r cychwyn. Dylai hyn helpu i osod cyfeiriad a chynnal ei ddatblygiad fel corff. Ein gorchwyl ni fu ystyried y swyddogaethau a'r cysylltiadau hyn er mwyn penderfynu a oedd yna unrhyw faterion annelwig yn bodoli ar hyn o bryd ac a oedd modd eu dileu; ac a ellid integreiddio unrhyw wasanaethau'n well er budd defnyddwyr a darparwyr gwasanaeth.

**14.** Nodir y meysydd perthynas a archwiliwyd a'r materion penodol yr ydym wedi eu hystyried o fewn y meysydd hyn yn y papur cefndir (gweler Atodiad 1). Yn yr holl feysydd yma, mae'r galw am wasanaethau wedi bod ar gynnydd ac yn debygol o barhau i dyfu, oherwydd anghenion defnyddwyr a busnes. Ymddengys bellach fod y cyfyngiadau ar adnoddau a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf yn debygol dynhau ymhellach. Golyga hyn fod rhaid i adnoddau gael eu targedu a'u rhannu fwy, fel gall unigolion ledled Cymru gael mynediad at wasanaethau gyrfaoedd o safon uchel, fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr.

**15.** O gofio hyn, rydym wedi edrych i weld i ba raddau mae'n bosibl defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy sensitif i anghenion. Gwneir hynny drwy fodel gwasanaeth gwahaniaethol mwy amlwg, sy'n seiliedig ar hawl cyffredinol pob unigolyn yng Nghymru i gael mynediad at wasanaethau gyrfaoedd o ansawdd da. Edrychon ni hefyd ar faint o le sydd yna i integreiddio a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ymhellach er mwyn cyflwyno gwasanaethau rhyngweithiol i'r cleientiaid hynny sydd â mynediad at y gwasanaethau hynny ac sydd â'r sgiliau i'w defnyddio. Cawsom ein

hatgoffa'n gyson o'r niferoedd cynyddol o bobl ifanc ac oedolion ag anghenion amrywiol sy'n edrych am wasanaethau a/neu sydd angen cymorth ar lefel leol. O ganlyniad, rydym wedi edrych ar y posibiliadau ar gyfer adeiladu gallu o fewn ac ar draws ystod eang o wasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru.

**16.** Gyda'r nod o sicrhau integreiddiad mwy effeithlon ac effeithiol rhwng gwasanaethau, rydym wedi talu sylw penodol i'r posibilrwydd o wella'n ymarferol y ffordd y mae amrywiol ddarparwyr gwasanaeth, o fewn y system eang, yn cael eu trefnu ac yn rhyngweithio gyda'i gilydd. Ein nod fu cynhyrchu casgliad o argymhellion ar gyfer gwelliant sydd, gyda'i gilydd, yn cynrychioli strategaeth ar gyfer sicrhau system hyblyg a chadarn o wasanaethau gyrfaoedd, dan arweiniad proffesiynol. Bydd y system newydd o safon fyd-eang, yn medru ymdrin â galwadau cynyddol mewn ffordd resymol, ymatebol â'r cwsmer yn ganolbwynt iddi.

## Y cwmpas a'r egwyddorion sylfaenol

**17.** Mae asesiad yr Athro Watts o Gyrfa Cymru – drwy gyfeirio at feini prawf meincnodi'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a ddatblygwyd yn 2003–04 – wedi ei grynhoi ar dudalennau 99–101 Atodiad 1. Ystyriai ef fod gan Gyrfa Cymru gryfderau arbennig yn nhermau:

- cenhadaeth glir a chydlynol
- natur pob oed ei wasanaethau
- ei broffesiynoldeb ac ansawdd ei wasanaethau o ganlyniad
- graddau mae wedi magu gwreiddiau ym mholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mewn cymunedau lleol.

**18.** Barnwyd bod y corff yn cymharu'n ffafriol ar y cyfan â'r meini prawf hyn, gyda'r posibilrwydd o gyrraedd 'safon fyd-eang'. Er hyn, codwyd rhai amheuon ynghylch gallu Gyrfa Cymru i gyflawni ei botensial ac i ymdopi â'r pwysau presennol oherwydd diffyg arweiniad ar lefel genedlaethol, diffyg gallu strategol a phrinder cyllid.

**19.** Rhagwelai'r angen i ailfodelu gwasanaethau gyrfaoedd yn sylweddol o blaid darpariaeth ar gyfer oedolion. Yn ogystal â hyn dylid sefydlu gwasanaethau gwahanol ar gyfer pobl ifanc ac oedolion. Pwysleisiai Watts y dylid rhoi mwy o sylw i adeiladu gallu cyrff eraill i ddarparu rhai agweddau ar y gwasanaethau hyn. Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg arweinyddiaeth a chynllunio strategol, rhagwelai y byddai Gyrfa Cymru yn cael ei ad-drefnu. Awgrymai hefyd:

- ehangu brand Gyrfa Cymru i gynnwys darparwyr gwasanaeth gyrfaoedd eraill
- datblygu ymhellach wefan Gyrfa Cymru Ar-lein (GCA), sydd wedi ennill gwobrau, er mwyn iddi ddod yn offeryn unol, gweinyddol a gydol oes, ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd (GCCh)
- sefydlu Fforwm Cyfarwyddyd Gyrfaoedd Cymru i adolygu safonau, sicrhau ansawdd, goruchwylio integreiddiad y gwasanaethau a ddarperir, gweithredu fel eiriolwr i'r sector ac i'w gleientiaid, a datblygu cysylltiadau buddiol gyda'i gymheiriaid mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, rhannau eraill o Ewrop a gweddill y byd.

**20.** Roedd ein cyfweliadau ni gyda rhanddeiliaid yn cadarnhau asesiad yr Athro Watts yn llwyr, ac rydym yn cytuno'n llwyr â'i ddisgrifiad o gryfderau, gwendidau a phosibiliadau'r trefniadau presennol yng Nghymru. Gwelsom fod parch mawr tuag at Gyrfa Cymru ymhlith ei bartneriaid lleol a'i gwsmeriaid, ond bod llai o barch ymysg rhai o'r cymdeithasau sy'n gweithredu'n bennaf ar lefel strategol Cymru gyfan. Mae hyn yn adlewyrchu cryfder cymharol y cysylltiadau ar lefel leol a rhanbarthol, o fewn y system gyffredinol o wasanaethau gyrfaoedd, ac mae'n cyfeirio at feysydd arweinyddiaeth a phartneriaeth lle mae angen y gwelliannau mwyaf.

**21.** Ni ddylid cymysgu arweinyddiaeth gyda llywodraethu neu reoli, gan fod yr holl dystiolaeth yn awgrymu bod cwmnïau Gyrfa Cymru wedi cael eu llywodraethu'n dda gan eu Byrddau Cyfarwyddwyr (nad ydyn nhw'n derbyn tâl am eu gwasanaethau) ac yn cael eu rheoli'n dda gan eu timau tra phroffesiynol. Adlewyrchir hyn yn absenoldeb adroddiadau archwilio anffafriol, ennill graddau cyffredinol uchel mewn adroddiadau arolygon Estyn, a chymeradwyaeth gref mewn arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid annibynnol. Yn wir, mae proffesiynoldeb staff Gyrfa Cymru a'u hymatebolrwydd i anghenion lleol wedi cael eu pwysleisio'n gyson gan gyrff sy'n bartneriaid yn ystod ein holl sesiynau casglu tystiolaeth. Mae gallu'r corff i dorri tir newydd i'w weld yn glir a medrus yn ei wefan arloesol GCA[1] sydd wedi ennill gwobrwyon a'i wobr ansawdd ef ei hun i ysgolion a cholegau o ran addysg gyrfaoedd. Mae'r rhain i gyd yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer datblygiad pellach gwasanaethau gyrfaoedd effeithiol iawn o safon uchel ledled Cymru.

**22.** Cododd y feirniadaeth o arweinyddiaeth fewnol Gyrfa Cymru a'i allu strategol, i raddau helaeth ond nid yn gyfan gwbl, o'i strwythur tameidiog presennol. Mae'r gwendid hwn wedi llesteirio ei allu i wneud y canlynol:

- cynrychioli'r sector a'i grwpiau o gleientiaid
- dylanwadu ar Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r prif fudiadau eraill sy'n gweithredu ar draws Cymru gyfan
- cynnal ymchwil a chynllunio a rheoli newidiadau yn y gwasanaethau a ddarperir ar sail Cymru gyfan
- sicrhau cysondeb yn y gwasanaeth a gynigir ac a gaiff ei weithredu lle bo hynny i'w ddymuno.

---

[1] Ym mis Mawrth 2005, dim ond pedwar mis ar ôl ei lansio, enillodd Gyrfa Cymru Ar-lein Wobr glodfawr BAFTA am Arloesi Technegol a Chymdeithasol.

Dylid mynd i'r afael â'r pedwar ffactor allweddol yma fel prif ystyriaeth yn ystod y gwaith arfaethedig o ad-drefnu'r corff yn un strwythur.

**23.** Fodd bynnag, ni fydd yr ailstrwythuro hwn ar ei ben ei hun o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r diffyg arweinyddiaeth a chydlyniad cyffredinol ar draws cymuned ehangach y gwasanaethau gyrfaoedd a nodwyd gan yr Athro Watts ac sydd hefyd wedi bod yn amlwg yn ystod ein hadolygiad ni.

**24.** Mae'r sector yn syndod o eang gyda diddordebau mewn addysg gyrfaoedd a phrofiad sy'n canolbwyntio ar waith yn amrywio o'r ysgol gynradd i lefel ôl-radd, a chyda gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd, asesu sgiliau a lleoliadau gwaith yn cwmpasu'r ystod oedran o'r arddegau cynnar hyd ymddeoliad. Mae Lifelong Learning UK (2009)[2] yn nodi bod o leiaf dri chategori gwahanol o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd, sef y:

- cyrff hynny â'r prif nod o ddarparu cyfarwyddyd gyrfaoedd
- rhai mae darparu cyfarwyddyd gyrfaoedd yn rhan bwysig o'u gwasanaethau
- sefydliadau hynny sydd â diddordeb mewn darparu cyfarwyddyd gyrfaoedd.

**25.** Yn ystod y broses adolygu daeth yn amlwg fod llawer o sefydliadau gwahanol ledled Cymru yn cyfrannu at ddatblygu rheolaeth gyrfa a phrofiadau cyflogadwyedd unigolion. Gyda'i gilydd, y ffordd orau i ddisgrifio'r rhain yw'r 'teulu gyrfaoedd' gyda chysylltiadau wedi eu ffurfio fel rhan o waith Gyrfa Cymru, neu weithiau ar wahân iddo.

**26.** Rydym wedi dysgu fod yna, yn ychwanegol at y 2,000 neu fwy o staff penodol sy'n gweithio'n uniongyrchol yn darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd a gwasanaethau lleoliadau yng Nghymru[3], rai miloedd eraill o weithwyr (gweler Atodiad 5) yn darparu addysg gyrfaoedd, yn cyd-drefnu profiad gwaith ac yn hyfforddi dysgwyr mewn ysgolion a cholegau ac yn y system warchodol. Mae hyn hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr undebau llafur yn y gweithle, cynrychiolwyr dysgu cymunedol, staff llyfrgell a gweithwyr cymorth gwirfoddol mewn cymunedau lleol. Mae Ffigur 1 (gweler tudalen 14) yn darlunio'r amrediad o wahanol gyrff o fewn y teulu o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd.


---

2 *Career Guidance Specialist Employers in the Skills for Business Network* gan D Hughes, J Hutchinson a S Neary-Booth. (Canolfan Astudiaethau Cyfarwyddyd, Prifysgol Derby ar ran LLUK, 2007). Adroddiad heb ei gyhoeddi.

3 Am fanylion pellach gweler Atodiad 5 sy'n disgrifio cyfansoddiad 'teulu' y gwasanaethau gyrfaoedd ac yn amcangyfrif y niferoedd sy'n gweithio ynddyn nhw.

**27.** Wrth wneud yr asesiad hwn, gwelsom nad yw'r trefniadau presennol yn cyflawni eu potensial am nad ydyn nhw'n dwyn yr amrywiol ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd hyn at ei gilydd cyn agosed ag y gallen nhw ac y dylen nhw fod.

**Ffigur 1**




**Teulu o sefydliadau a rolau sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth gyrfaoedd a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru**

**28.** Rydym felly'n llwyr gefnogi gweledigaeth yr Athro Watts ar gyfer system o wasanaethau gyrfaoedd sy'n cydweithio'n fwy clos i ddarparu gwasanaethau addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd a lleoliadau o safon uchel i gleientiaid o bob oedran a phob gallu ar sail mynediad a darpariaeth gyffredinol â'r bwriad o ateb anghenion yr unigolyn. Yn wir, rydym yn cytuno bod y sylfeini ar gyfer system o'r fath yn gryf ac mai'r cyfyngiadau allweddol i wireddu'r weledigaeth hon – yn arbennig dan amgylchiadau o bwysau parhaus ar yr adnoddau sydd ar gael – fydd y graddau y gellir sicrhau darbodion maint, mwy o gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.

**29.** Gall ffurfio teulu mwy clos o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd fod o gymorth i nodi a dod i gytundeb ynglŷn â blaenoriaethau allweddol, gan gynnwys targedu gwasanaethau'n bwrpasol, lle bo'n briodol. Mae llawer o'r newid strategol sydd ei angen i wireddu'r weledigaeth yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, Gyrfa Cymru. Mae'n

cynnwys yr holl gyrff o fewn y system ehangach; ac mae'n ymwneud â'r ffordd mae'r cyrff hyn yn rhyngweithio â'i gilydd gan fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael.

**30.** Yn wir, mae'n anodd gweld sut gall systemau dysgu fel rhain weithredu'n llwyddiannus heb systemau integredig, datblygedig o addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd. Wrth siarad â llawer o ddarparwyr y gwasanaethau, cawsom ein calonogi gan y graddau y cytunwyd ar yr egwyddorion sylfaenol canlynol sy'n siapio isadeiledd newydd ar gyfer gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru. Daw'r egwyddorion o arfer gorau yng Nghymru a meincnodau rhyngwladol. Maen nhw'n gofyn i wasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru fod:

- yn gleient-ganolog gan roi sylw penodol i ddyletswyddau gofal a chyfrinachedd
- o fewn cyrraedd unigolion o bob oed a phob gallu
- yn gallu ymateb yn lleol, ond yn rhan o gydlyniant cenedlaethol
- yn gallu cynnig gwasanaethau cymorth trylwyr, gyda chymorth briff, hunangymorth, dwyieithog, o ansawdd da a rhai sy'n cyd-fynd ag anghenion grwpiau blaenoriaeth ac unigolion
- dan arweiniad proffesiynol ac yn ddiduedd bob amser
- yn ymrwymedig i wrthsefyll rhagfarn, stereoteipio, gwahaniaethu a rhwystrau eraill i lwyddiant personol unigolion
- yn canolbwyntio ar arfogi unigolion â sgiliau da o ran datblygu gyrfa a chyflogadwyedd gallan nhw eu defnyddio ar hyd eu hoes
- yn gallu hyrwyddo ac ysbrydoli unigolion i wneud defnydd da o'r gwasanaethau sydd ar gael ar y we, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb
- yn gallu cynnig gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl gywir a dealladwy o'r farchnad lafur sy'n cymryd anghenion cyflogwyr i ystyriaeth yn llawn yn ogystal â'r sgiliau bydd eu hangen yn y dyfodol
- yn ymroddedig i wella'n barhaus, rhannu arfer gorau ac adeiladu gallu ymhlith darparwyr yng Nghymru, er mwyn sefydlu enw da am ragoriaeth mewn gwasanaethau cryf eu heffaith a'u hansawdd.

**31.** Rydym wedi cynnal ein harchwiliad o'r materion, wedi ystyried y gwelliannau posibl ac wedi fframio'n hargymhellion ar gyfer newidiadau, gyda'r egwyddorion hyn mewn cof.

Ein **gweledigaeth** ni ar gyfer gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru:

> Creu gwasanaethau ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb hollol integredig â'r bwriad o sicrhau y gall pob unigolyn, waeth beth fo'i amgylchiadau, ddatblygu a chymhwyso sgiliau rheoli gyrfa a chyflogadwyedd fydd yn ei gynnal ar hyd ei oes.

**32.** Mae penderfyniadau ynghylch gyrfa ymhlith y rhai pwysicaf mae pobl yn eu gwneud yn eu hoes, gyda goblygiadau sylweddol o ran lles cymdeithasol ac economaidd. Yng ngoleuni hyn, y nod gyffredinol sy'n uno'r teulu o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd yng Nghymru yw cynorthwyo unigolion, o bob math o gefndir, i adeiladu eu hyder a'u gwytnwch a defnyddio'u doniau a'u sgiliau unigryw o fewn amgylcheddau dysgu a gweithio addas.

## Meysydd ar gyfer gwella

**33.** O ystyried y lefel uchel o gonsensws a geir bod angen gwella gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru ymhellach a datblygu ar arfer gorau, rydym wedi nodi deg maes thematig i'w datblygu.

1. Y rhyngwyneb rhwng addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i bobl ifanc mewn ysgolion, colegau a darpariaeth ddysgu arall.
2. Datblygu model darparu gwasanaethau gyrfaoedd gwahaniaethol.
3. Grwpiau blaenoriaeth.
4. Gwasanaethau gyrfaoedd i oedolion.
5. Yr Agenda Diwygio Lles.
6. Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol.
7. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r farchnad lafur.
8. Fforwm Strategol y Gwasanaethau Gyrfaoedd.
9. Strwythur a brand sefydliadol Gyrfa Cymru.
10. Rhyngwyneb gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**34.** I raddau helaeth, mae'r rhain yn adlewyrchu'r amrywiol ryngwynebau a nodwyd yn y papur cefndir (gweler Atodiad 1) a rhai agweddau ehangach ar ddarparu gwasanaeth sy'n drosolwg i'r system i gyd. Wrth wneud hyn, y brif nod yw sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion yn cael mynediad at addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd, modern, 'addas i'r diben' a pherthnasol ledled Cymru. Rydym wedi nodi amrywiadau sylweddol yng nghanfyddiadau unigolion o wasanaethau gyrfaoedd a'r rheiny sydd yn y sefyllfa orau i ymateb i anghenion rheoli gyrfa a chyflogadwyedd pobl ifanc ac oedolion. O gofio hyn, bwriad ein harsylwadau a'n hargymhellion felly, yw canfod, lle bo modd, pa asiantaethau ddylai gael y cyfrifoldeb am yrru amcanion polisi a/neu gynlluniau darparu yn eu blaen.

## Thema 1: Gwasanaeth gyrfaoedd ar gyfer pobl ifanc

### Gofynion sylfaenol

**35.** Cychwynnwn drwy archwilio dyletswyddau statudol a fframweithiau polisi ieuenctid cyfredol er mwyn asesu effaith gyffredinol y trefniadau presennol. Ystyriwn hefyd pa ofynion pellach dylid eu sefydlu er mwyn gwella'r trefniadau presennol yn sylweddol fel y gellir datblygu sgiliau rheoli gyrfa a chyflogadwyedd pobl ifanc yn llawnach. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad (gweler Thema 4) rydym yn trafod anghenion penodol oedolion yn fanylach o'u hystyried yng nghyd-destun gwasanaeth gyrfaoedd pob oed a phob gallu.

**36.** Mae dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod gwasanaethau addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd priodol ar gael i blant a phobl ifanc hyd at 19 oed. Mae pwerau caniatáu yn bodoli o ran darparu gwasanaethau gyrfaoedd a gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd cysylltiedig i oedolion, ond does dim dyletswydd statudol i wneud hynny. Hyn sy'n egluro pam mai gwasanaethau i gleientiaid dan 19 oed sy'n cyfrif am y rhan fwyaf (80 y cant) o ddarpariaeth Gyrfa Cymru. Felly, os bydd adnoddau yn cael eu symud i wasanaethau ar gyfer oedolion, bydd angen gwneud newidiadau sylweddol yn y gwasanaethau gyrfaoedd a ddarperir ar gyfer pobl ifanc ledled Cymru.

**37.** Yn wir, tynnodd ein tystiolaeth sylw at y ffaith fod angen mwy o eglurder o ran cyfraniadau, swyddogaethau a chyfrifoldebau ysgolion, colegau a Gyrfa Cymru. Ceir o leiaf dau ofyniad sylfaenol.

- Datblygu gwasanaethau personol i unigolion ag anghenion ac amgylchiadau gwahanol, wrth gynnal yr egwyddor o ddarparu mynediad cyffredinol at wasanaethau gyrfaoedd yn unol â dyletswyddau statudol a gofynion heb fod yn rhai statudol.
- Sicrhau bod ymyriadau gan gynghorwyr gyrfaoedd a chwaraewyr allweddol eraill yn y teulu gyrfaoedd yn amserol, yn berthnasol ac yn cael eu darparu i gael yr effaith gadarnhaol fwyaf, er mwyn gwneud y gorau posibl o ddoniau, dyheadau a chyfleoedd bywyd unigolion.

**38.** Dengys y dystiolaeth a dderbynion ni hefyd yr angen i gadw'r arferion gorau presennol ar lefel leol a rhanbarthol, wrth osod mwy o bwyslais ar ddarganfod ffyrdd newydd o adeiladu gallu i ddarparu

addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd o'r ansawdd gorau mewn ystod eang o sefydliadau a lleoliadau. Mae angen cynyddol i:

- sicrhau bod addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn berthnasol ac ystyrlon i unigolion, teuluoedd a chymunedau lleol
- darparu dealltwriaeth a gwybodaeth am y farchnad lafur o safon uchel ynglŷn â gwahanol lwybrau dysgu a gyrfa, gan gynnwys profiadau sy'n canolbwyntio ar waith
- darparu diagnosis cywir, asesiad ac ymyriadau gyrfaoedd amserol i bobl ifanc (ac oedolion) i'w galluogi i ddatblygu sgiliau rheoli gyrfa a chyflogadwyedd effeithiol
- ymestyn gweithgareddau gyrfaoedd tu hwnt i ymyriadau sengl yn y dosbarth a/neu gyfweliadau un i un, gan ddefnyddio technegau gwaith grŵp arloesol, gwasanaethau ar y we a llinell gymorth
- buddsoddi mewn arweinwyr gyrfaoedd sydd wedi eu hyfforddi'n dda ac yn meddu ar y cymwysterau addas mewn ysgolion a cholegau, cynghorwyr gyrfaoedd, mentoriaid ac anogwyr dysgu i godi cymhelliant ac i ysbrydoli pobl ifanc.

## Fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith

**39.** Mae gan ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant ddyletswydd statudol i ddarparu addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n canolbwyntio ar waith yn unol â fframwaith *Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith* (GBG)[4]. Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd y corff llunio rheoliadau cyntaf yn y DU i gyflwyno'r gofyniad i ysgolion a cholegau ddarparu rhaglenni addysg gyrfaoedd ar gyfer pob myfyriwr 16–19 oed – o dan Reoliadau Addysg (Estyniad Addysg Gyrfaoedd) (Cymru) 2001[5]. Mae'r fframwaith yn dwyn ynghyd fframweithiau oedd ar wahân cyn hynny ar gyfer addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â gwaith. Yn 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arweiniad statudol, oedd yn dod i rym yn y flwyddyn academaidd 2008–09, roedd hwn yn berthnasol i bob dysgwr 11–19 oed ym mhob amgylchedd dysgu.

---

4 *Gyrfaoedd a'r byd gwaith – fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau (gweler 'Gyrfaoedd a'r byd gwaith' yn ardal 'Y cwricwlwm ysgol yng Nghymru' yn adran 'Cwricwlwm ac asesu' y wefan)

5 Op.cit. (gweler troednodyn 4)

Mae fframwaith GBG yn datgan:

> Mae gyrfaoedd a'r byd gwaith (GBG) yn ymwneud â'r perthnasau rhwng pobl ifanc, eu dysgu a'r byd gwaith. Dylai helpu dysgwyr i:
>
> - archwilio'r agweddau a'r gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer cyflogadwyedd a dysgu gydol oes
> - cynllunio a rheoli eu llwybr trwy ystod o gyfleoedd ym myd dysgu a byd gwaith
> - gwneud dewisiadau gyrfa effeithiol
> - bod yn entrepreneuraidd
> - ffynnu mewn amrywiaeth o leoliadau gwaith
> - dangos cymhelliant, gosod nodau tymor hir a gorchfygu rhwystrau
> - gweld bod eu hastudiaethau yn berthnasol i'w bywyd a'u gwaith
> - datblygu Sgiliau Allweddol a sgiliau eraill y mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt
> - paratoi ar gyfer sialensiau, dewisiadau a chyfrifoldebau gwaith a bywyd fel oedolyn.

**40.** Nod y fframwaith yw galluogi pobl ifanc i ystyried realaeth a dyhead ynglŷn â'u bywyd gwaith yn y dyfodol. Dylai gysylltu'n agos gyda thema 'byd gwaith' Bagloriaeth Cymru a dylanwadu ar y ffordd y cyflwynir y thema honno ar y lefel sylfaenol, ganolradd ac uwch. Fodd bynnag, awgryma'n canfyddiadau ni mai effaith gyfyngedig a gafodd y fframwaith hyd yma. Mynegwyd amcan y polisi'n dda yn y canllawiau ysgrifenedig; ond ni allai'r rhai a roddodd dystiolaeth ar y pwnc hwn ddisgrifio ei werth ychwanegol na dangos ei effaith yn ymarferol. A ninnau'n gwybod bod y fframwaith wedi ei fwriadu i sicrhau bod pobl ifanc yn dod wyneb yn wyneb â'r profiadau paratoadol gorau un ar gyfer gyrfaoedd a'r byd gwaith, ystyriwn yr effaith wan hon yn destun pryder.

**41.** Ystyriwn ei bod yn hanfodol bod y cyfrifoldeb am gyflwyno fframwaith GBG yn angori'n gadarnach o fewn arferion pob ysgol a choleg. Mae'n rhaid i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau pobl ifanc mewn perthynas â rheoli gyrfa a'r byd gwaith ddod yn un

o amcanion pwysicaf pob sefydliad addysg. Cyhoeddodd Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau atodol[6] sy'n disgrifio'r ffyrdd y dylai ysgolion a cholegau gyflwyno'r fframwaith hwn o fewn y cwricwlwm. Mae hefyd yn egluro'r berthynas gyda phartneriaid a rhanddeiliaid sy'n angenrheidiol i sicrhau'r deilliannau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r dull cyflwyno y dylid ei ddewis wedi ei ragnodi; mewn gwirionedd mae'r canllawiau'n cydnabod o leiaf bum model cyflwyno posibl. Mae'r rhain yn cynnwys:

- elfen integredig ar draws ystod eang o feysydd pwnc y cwricwlwm
- rhan o raglen diwtorial
- rhan o addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)
- gwers neu fodiwl ar wahân a/neu
- digwyddiadau neu brosiectau sy'n digwydd unwaith yn unig.

**42.** Rhydd y dewis yma o drefniadau cyflwyno ddigon o hyblygrwydd i ysgolion a cholegau. Ymddengys bod gan gymysgedd o weithwyr proffesiynol a gweithwyr cysylltiedig ran mewn cyflwyno'r fframwaith. Mae'r rhain yn cynnwys athrawon, staff bugeiliol, gweinyddwyr, cynghorwyr gyrfaoedd, aelodau o'r tîm cynorthwyo ieuenctid a myfyrwyr ehangach megis anogwyr dysgu a mentoriaid, yn ogystal â chyflogwyr a darparwyr hyfforddiant. Derbynion ni adborth gan ysgolion, colegau, Gyrfa Cymru a Phartneriaethau 14–19, fod gan yr holl gyfranwyr amrywiol hyn fewnbwn o ryw fath i gyflwyno GBG. Ond mae'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad yn amrywio'n sylweddol, fel mae'r cyfrifoldebau dros roi arweiniad i drefnu'r fframwaith yn strategol ac yn ymarferol.

**43.** Mae'r canllaw atodol gan APADGOS (2008)[7] yn pwysleisio'r angen i staff lefel uwch fod â rhan mewn arwain, rheoli a chymryd meddiant o bolisi GBG a'r gwaith o'i gyflwyno mewn ysgolion a cholegau. Er ei fod hefyd yn darparu disgrifiad swydd enghreifftiol ar gyfer cyd-drefnydd GBG, nid yw'n datgan bod unrhyw gasgliad sgiliau, cymhwysedd na chymwysterau'n ofynnol i gyflawni'r swyddogaethau hyn o fewn sefydliadau; ac mae'n brin o gyfeiriad

---

[6] *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: Canllawiau atodol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) (gweler 'Gyrfaoedd a'r byd gwaith' yn ardal 'Y cwricwlwm ysgol yng Nghymru' yn adran 'Cwricwlwm ac asesu' y wefan).

[7] Op.cit. (gweler troednodyn 6)

o ran cyfrifoldebau am ddatblygiad proffesiynol y rhai sydd â rhan mewn cynllunio, dylunio a chyflwyno GBG. Ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, rydym yn cwestiynu a yw pawb sy'n cyflwyno GBG wedi ei baratoi'n addas o ran meddu ar yr wybodaeth a'r profiad diweddaraf o bolisi GBG ac ymarfer perthnasol.

**44.** Mae Gyrfa Cymru'n cynorthwyo datblygiadau addysg gyrfaoedd drwy ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth i athrawon a darlithwyr; a thrwy annog ysgolion a cholegau i sicrhau ansawdd gwaith gyrfaoedd drwy ddefnyddio ei wobr ansawdd bwysig. Maen nhw'n recriwtio, cofrestru a monitro (ar gyfer iechyd a diogelwch) cyflogwyr sy'n fodlon cynnig gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar waith i ysgolion a cholegau; ac maen nhw'n darparu cefnogaeth staffio i'r Partneriaethau Addysg-Busnes (PABau) yr ydym yn eu trafod yn ddiweddarach yn adrannau 'Partneriaethau Addysg-Busnes' ac 'Adfywio brand y Partneriaethau Addysg-Busnes'.

**45.** Mae cynghorwyr proffesiynol Gyrfa Cymru hefyd yn darparu sesiynau gwybodaeth gyrfaoedd mewn grwpiau i garfannau o bobl ifanc ar wahanol oedrannau a chyfnodau dilyniant; ac maen nhw'n ceisio rhoi un cyfweliad personol i roi cyngor neu gyfarwyddyd i bob myfyriwr cyn 16 oed. Y cyfweliadau personol un i un hyn – dros 222,000 yn 2008–09 – yw'r gweithgaredd mwyaf gweladwy a thrwm ar adnoddau mae Gyrfa Cymru'n ymgymryd ag ef. Mae tystiolaeth gref dros adolygu'r dull hwn. Rhaid cydbwyso maint enfawr cymorth dwys o'r fath i bobl ifanc yn erbyn eu hanghenion penodol nhw a'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg i gefnogi oedolion. Mae hyn yn galw am ddull o ddarparu gwasanaeth gwahaniaethol mwy strategol, er mwyn sicrhau cyflwyno'r lefel iawn o adnoddau, ar yr amser iawn ac yn y lle iawn i ateb anghenion unigolion. Nodwn mai dull cyfweld hollgynhwysol sy'n arferol ac nid yw hwn yn gynaliadwy a derbyn y galwadau cynyddol gan oedolion sy'n edrych am gymorth gwasanaethau gyrfaoedd.

**46.** Er bod protocolau ffurfiol ac anffurfiol yn bodoli ar gyfer cynllunio a chyflwyno fframwaith GBG rhwng Gyrfa Cymru, ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr, dengys y dystiolaeth a glywon ni fod y cyfrifoldebau am arwain a lefelau'r mewnbwn yn amrywio'n sylweddol o'r naill sefydliad i'r llall. Mae rhai ysgolion yn amlwg yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r fframwaith a'r gefnogaeth a ddarperir gan Gyrfa Cymru. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth gref y rhoddir llai o flaenoriaeth cyffredinol i'r fframwaith hwn nag i fframwaith ABCh mewn rhai ysgolion a cholegau. Er enghraifft, darlunnir hyn gan y ffaith fod swyddi cyd-drefnwyr gyrfaoedd wedi

eu dileu yn rhai ysgolion a bod gweinyddwyr ysgol wedi eu penodi i oruchwylio rhaglenni gyrfaoedd a phrofiad gwaith. Ni chyflwynwyd tystiolaeth fod sefydliadau'n symud y baich yn fwriadol i Gyrfa Cymru, gyda golwg ar ddarparu addysg gyrfaoedd a phrofiad sy'n canolbwyntio ar waith; ond mae gan sefydliadau ddisgresiwn sylweddol yn y ffordd y caiff fframwaith GBG ei gyflwyno.

**47.** Clywon ni dystiolaeth gan nifer o randdeiliaid am sefyllfaoedd lle nad yw disgyblion wedi eu paratoi'n ddigonol mewn addysg gyrfaoedd, ar gyfer eu cyfweliadau gyrfaoedd, gan arwain i staff Gyrfa Cymru gael eu tynnu i mewn i gyflwyno rhaglenni addysg gyrfaoedd yn rhannol. Am resymau amlwg nid yw hyn yn gynaliadwy nac yn ddymunol. Er yr adroddir am lefelau uchel o fodlonrwydd cleientiaid drwy arolygon pobl ifanc o ran y sesiynau un i un a'r sesiynau grŵp a gyflwynwyd gan gynghorwyr gyrfaoedd, mae'n amlwg bod gormod o straen ar Gyrfa Cymru o ganlyniad i fethiannau o'r fath mewn ysgolion.

**48.** Ni allwn ddarparu asesiad manylach o gyflwyniad ac effeithiolrwydd y fframwaith mewn ysgolion, gan yr ymddengys nad yw'n cael ei fonitro'n systematig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn, Gyrfa Cymru na'r sefydliadau addysg eu hunain. Er bod cynnwys y fframwaith yn ateb y dyheadau a amlinellwyd ym Mhenderfyniad Gweinidogion yr Undeb Ewropeaidd ar Gyfarwyddyd Gydol Oes (2008)[8] ac er bod arolygon Estyn ar ysgolion a cholegau weithiau'n gwneud sylwadau am gyflwyno GBG, nodwn y canlynol:

- nid yw'r deilliannau'n eglur ym 'mesurau lles' Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn sy'n ymwneud â meistroli sgiliau cyflogadwyedd neu ganfyddiadau pobl ifanc o'u gallu i reoli trawsnewidiadau yn y dyfodol
- nid yw'r un o ddatblygiadau diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru, wrth feincnodi perfformiad ysgolion a cholegau (Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Fframwaith Ansawdd ôl-16), yn cynnwys unrhyw ddull o fesur perfformiad o ran cyflwyno'r fframwaith.

---

8 *Penderfyniad y Cyngor ar integreiddio cyfarwyddyd dysgu gydol oes i mewn yn well i strategaethau dysgu gydol oes*. Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, Brwsel (21 Tachwedd 2008)

**49.** Mae angen mynd i'r afael â'r diffygion hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru (CCAC) ac Estyn i roi'r un statws ymarferol i fframweithiau GBG ac ABCh
- Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi mwy o eglurder drwy ganllawiau ynglŷn â swyddogaethau unigol a ffiniau gweithredu arweinwyr gyrfaoedd, athrawon a thiwtoriaid personol, cyd-drefnwyr gyrfaoedd a phrofiad gwaith, anogwyr dysgu a chynghorwyr gyrfaoedd o ran cyflwyno GBG
- nodi enghreifftiau o gydweithio a chyd-hyfforddi effeithiol sy'n dangos arfer da a diddorol, yn cynnwys ysgolion, colegau, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant, Gyrfa Cymru, Y Gwasanaeth Ieuenctid a gwasanaethau cymorth cysylltiedig eraill – dylid lledaenu'r rhain fel esiamplau y gellid eu mabwysiadu ar draws Cymru yn y pen draw
- cyflwyno fframwaith atebolrwydd mwy tryloyw ar gyfer cynllunio a chyflwyno GBG gan gynnwys sgiliau cyflogadwyedd a mentro
- Estyn i gynnal arolygon 'thematig' ar weithrediad y fframwaith, yn cwmpasu cyfraniadau'r holl gyrff sydd â rhan mewn cyflwyno GBG a'r rhyngweithio rhyngddyn nhw
- mwy o gydnabyddiaeth i gael ei roi (gan ysgolion a cholegau Cymru a chan Estyn) i 'Farc Gyrfa Cymru' fel meincnod rhagoriaeth Cymru gyfan mewn darparu addysg gyrfaoedd a phrofiad wedi ei ganolbwyntio ar waith, fel y daw ennill hwn yn uchelgais i'r holl sefydliadau.

**50.** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd asesu effeithlonrwydd y gost i ysgolion a cholegau o gyflwyno systemau adrodd mwy tryloyw am ddeilliannau cyflwyno GBG. Mae'r adroddiad, *Fair Access to the Professions* (2009)[9], yn tynnu sylw at y ffaith:

> . . . as demand for unskilled labour falls still more dramatically in the years to come, those without skills will be left stranded economically and divorced from the mainstream socially . . . The risk is that without appropriate action employment segregation will widen rather than narrow in the years to come.

**51.** Mae'r Grŵp Adolygu'n ymwybodol o'r baich sydd ar ysgolion a cholegau i gyhoeddi deilliannau eu gwaith; er hynny, rydym yn glir

---

[9] *Unleashing Aspiration: The Final Report of the Panel on Fair Access to the Professions* (Swyddfa'r Cabinet, 2009) www.cabinetoffice.gov.uk/media/227102/fair-access.pdf

fod angen gwneud rhagor i sicrhau mynediad gwell at ddarpariaeth GBG o safon uchel er mwyn mynd i'r afael â materion tegwch cymdeithasol a diffygion sgiliau yng Nghymru. Gallai dulliau o'r fath fod o gymorth hefyd i ddarparu tystiolaeth o ddeilliannau dysgu a chyflawniad mewn meysydd megis mynediad i bynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM), a ffactorau sy'n effeithio ar bobl ifanc nad sydd mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), symudoledd cymdeithasol a stereoteipio yn ôl rhyw neu gyfyngiadau lleol wrth ddewis gyrfa.

## Partneriaethau Addysg-Busnes

**52.** Mae Partneriaethau Addysg-Busnes (PABau) yn gwneud gwaith allweddol wrth gynorthwyo i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd o safon uchel. Maen nhw'n gweithredu fel catalydd i ddwyn ynghyd addysgwyr a chyflogwyr â'r nod cyffredin o wneud y gorau o ddoniau, gwybodaeth a sgiliau unigolion. Wrth ystyried hyn edrychon ni ar sut gellid cryfhau'r PABau ymhellach er mwyn i effaith eu gwaith ddod yn fwy amlwg ac i gydnabod eu llwyddiannau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r PABau yn hyrwyddo ac yn hwyluso gwell dealltwriaeth o fenter a'r byd gwaith – yn gyffredinol a hefyd o ran rhai sectorau gwaith penodol – ymhlith dysgwyr a'u hathrawon. Mae agenda presennol PAB yn un sy'n ehangu, yn enwedig mewn perthynas â darparu profiad sy'n canolbwyntio ar waith yng nghyd-destun Llwybrau Dysgu 14–19. Yn ychwanegol at yr agenda cyffredinol presennol sy'n canolbwyntio ar waith, mae pwyslais cynyddol i gyflogwyr ddarparu dysgu a gaiff ei achredu fel rhan o'r genhedlaeth newydd o gymwysterau galwedigaethol – yn enwedig yr elfen Prif Ddysgu ym Magloriaeth Cymru, Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid a mentrau'n ymwneud â hybu gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg.

**53.** Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Grŵp Adolygu'n nodi'n glir yr angen am gyfathrebu da a dealltwriaeth gyffredin o'r partneriaethau gwahanol. Mae'r cysylltiadau rhwng ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr yn gymhleth, o ystyried y cefndir hanesyddol a'r galwadau sy'n cystadlu am fynediad cynyddol at brofiadau sy'n canolbwyntio ar waith ar safleoedd cyflogwyr. Dengys y ffigurau diweddaraf fod y canlynol wedi digwydd yn ystod 2008–09:

- cymerodd dros 178,000 o fyfyrwyr rhan mewn gweithgareddau addysg-busnes a hwyluswyd gan Gyrfa Cymru

- treuliodd bron i 40,000 o fyfyrwyr o leiaf un wythnos ar leoliad profiad gwaith
- cynhaliodd Gyrfa Cymru asesiadau iechyd a diogelwch mewn dros 13,000 o leoliadau profiad gwaith
- cymerodd dros 112,000 o fyfyrwyr rhan mewn gweithgaredd cysylltiedig â'r cwricwlwm gyda chymorth cyflogwr
- gweithiodd dros 13,500 o fyfyrwyr gyda mentor gyflogwr i osod nodau unigol iddyn nhw eu hunain.

**54.** Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o anfodlonrwydd gan ysgolion na cholegau am rôl hwyluso Gyrfa Cymru o ran profiadau sy'n canolbwyntio ar waith drwy gyfrwng y PABau. Nodir ffigurau gweithgareddau addysg-busnes oedd yn cael eu cefnogi gan Gyrfa Cymru yn 2008–9 yn Atodiad 6. Er hynny, nid yw'n glir a oes gan gwmnïau Gyrfa Cymru swyddogaeth gydlynu gyffredinol neu beidio o ystyried ar y cysylltiadau addysg-busnes ar lefel ysgol/coleg. Adroddai'r Athro A G Watts:

> . . . mae rhai ysgolion, colegau a chonsortia 14–19 yn mynd yn uniongyrchol at gyflogwyr, a allai fod â'r broblem o gysoni'r galw gan wahanol ffynonellau o ganlyniad[10].

**55.** Gwelsom fod anghydraddoldeb a bylchau o ran y parch a roddir i'r llwybrau galwedigaethol ac academaidd gan bobl ifanc, rhieni, athrawon, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant[11]. Dengys canfyddiadau o'r OECD[12] ar draws y DU a thu hwnt:

> Academically trained teachers have often spent most of their lives in education. Their experience of the wider work environment can be limited and their formal or informal advice to students may be biased towards general education and university pathways. They may be reluctant to recommend vocational courses, particularly to bright students.

**56.** Roedd Adroddiad Comisiwn Sgiliau'r DU (2009)[13] hefyd yn tynnu sylw at y ffaith fod rhieni, pobl ifanc a chyflogwyr i gyd yn ystyried

---

10 *Gyrfa Cymru: Adolygiad o Safbwynt Rhyngwladol, Adroddiad gan A. G. Watts.* Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Caerdydd: Dogfen Ymchwil Rhif. 033/2009 (Mai 2009 para.4.11 www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau (gweler 'Ymchwil' yn adran 'Ymchwil a gwerthuso' y wefan)

11 *Cymru: Gwlad sy'n Gweithio: Adroddiad Blynyddol Cyntaf*, Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, Ebrill 2009. www.cymru.gov.uk/docs/dcells/publications/090429aWalesthatworksen.pdf

12 OECD (2010) *Challenges and Policy Options for More Effective Career Guidance* Paris: Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd EDU/EDPC(2010)13 290310

13 UKCES (2009) *Progression Through Apprenticeships*, Llundain: Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU (tud.19). www.actiononaccess.org/resources/files/resources__Apprenticeship_progression_report_09.

fod prentisiaeth yn ddewis dilys yn hytrach na safonau uwch addysg uwchradd academaidd ond mai ychydig o athrawon oedd yn rhannu'r farn hon.

**57.** Pwysleisiodd y cyflogwyr, yn arbennig, y dylanwad negyddol y gallai rhai ysgolion a theuluoedd gael ar ddyheadau gyrfa pobl ifanc yn y maes hwn. O ganlyniad, mae heriau sylweddol yn bodoli o ran y ffordd orau y gall cyflogwyr ac addysgwyr gyfleu tueddiadau a chyfleoedd y farchnad lafur sy'n gysylltiedig â'r llwybrau galwedigaethol ac academaidd.

**58.** Canfu'r Grŵp Adolygu fod colegau addysg bellach yn tueddu i wneud eu trefniadau eu hunain o ran myfyrwyr galwedigaethol a bod y cyfleoedd hyn yn aml yn arwain at leoliadau gwaith a chyflogaeth. Mae rhai cysylltiadau sefydledig rhwng cyflogwyr a cholegau wedi arwain at amrywiaeth o arferion newydd, er enghraifft, trosglwyddo adnoddau, trefniadau cytundeb, bwrsarïau, gwobrau a chyfleoedd prentisiaeth. Rydym yn bryderus nad yw myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau mwy academaidd yn cael mynediad at brofiadau gyrfaoedd gwerth chweil ac sy'n canolbwyntio ar waith (profiadau go iawn na thrwy amgylcheddau dysgu rhithwir ar-lein). Byddai o gymorth pe gellid sicrhau bod system fwy tryloyw o gael mynediad at yrfaoedd a chysylltiadau addysg-busnes ar gael i fyfyrwyr sydd ar gyrsiau analwedigaethol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y nifer cynyddol o fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl o addysg uwch[14].

**59.** Adroddai cyflogwyr fod yna rywfaint o anfodlonrwydd gyda'r 'beichiau biwrocrataidd' sy'n gysylltiedig â lleoliadau profiad gwaith. Er mai Gyrfa Cymru sy'n rheoli llawer o'r pwyslais ar iechyd a diogelwch ac amddiffyn, mae angen i Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn sensitif i allu cyflogwyr i ymateb i'r galwadau lluosog wrth ymwneud â dysgwyr ifanc a myfyrwyr eraill. Fel y tanlinellodd Webb:

> Rhaid sicrhau rhagoriaeth o fewn dysgu seiliedig ar waith yn yr un modd ag mewn lleoliadau addysg a hyfforddiant mwy traddodiadol: nid yw cyflogwyr yn disgwyl nac yn haeddu llai na hyn.[15]

---

14 Stats Wales: www.statswales.wales.gov.uk/ReportFolders/reportFolders.aspx

15 *Addewid a Chyflawniad: Adolygiad Annibynnol ar Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng Nghyd-destun Y Wlad Sy'n Dysgu: Gweledigaeth Ar Waith*, A Webb, S Drury a R Griffiths (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007, tud.15) www.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/publications/wagreviews/webbreview/?lang=en

**60.** Fodd bynnag, mae gorddibyniaeth ar ymgysylltiad gwirfoddol cyflogwyr yn parhau'n strategaeth lawn risg i'r sector addysg. Mae'r dirywiad economaidd diweddar yn golygu bod yr Adran Waith a Phensiynau'n darparu cymorthdaliadau i gyflogwyr i roi lleoliadau profiad gwaith i oedolion di-waith. Hyd yma nid yw'n glir a yw hyn wedi achosi effaith andwyol sylweddol ar allu cyflogwyr i gynnig profiadau sy'n canolbwyntio ar waith i bobl ifanc a myfyrwyr eraill; ond gwyddom fod ysgolion yn arbennig yn ei chael yn fwy anodd sicrhau cyfleoedd profiad gwaith ar gyfer eu dysgwyr.

**61.** Roedd y Grŵp Adolygu'n arbennig o bryderus am y gwahaniaeth sylweddol mewn ansawdd ac amrywiaeth lleoliadau profiad gwaith. Ceid enghreifftiau o weithgaredd a chefnogaeth eithriadol oedd yn cyflwyno pobl ifanc i gyfleoedd cysylltiedig â gwaith oedd yn eu symbylu ac yn eu hysbrydoli. Ond roedd enghreifftiau hefyd lle nad oedd cysylltiad clir rhwng y profiad gwaith a'r cwrs dysgu oedd yn cael ei ddilyn na'r deilliannau perthnasol a gysylltir â sgiliau rheoli gyrfa a chyflogadwyedd effeithiol. Mae angen mwy o gysondeb ac eglurder wrth ddarparu profiad gwaith 'dilys', yn enwedig o ran cynorthwyo pobl ifanc difreintiedig.

**62.** Mae anhawster pellach wrth gynyddu gallu lleoliadau fel bod mwy o gyfleoedd o safon uchel yn cael eu darparu gan gyflogwyr. Sylwon ni fod y system bresennol ar gyfer trefnu lleoliadau, yn yr ysgolion yn benodol, yn gosod pwysau dwys ar gyflogwyr o fewn cyfnod cymharol fyr – oddeutu chwech wythnos allan o'r 52 wythnos sydd ar gael. Ein teimlad ni yw y gellid gwasgaru'r lleoliadau gwaith yn fwy gwastad dros y flwyddyn galendr er mwyn caniatáu mwy o le ac amser i bawb. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau cynharach yn Adolygiad Webb (2007)[16] oedd yn datgan:

> Nid yw amseru'r lleoliadau hyn bob amser yn ddelfrydol i gyflogwyr; mae'n anodd gwneud cyfiawnder â galwadau, anghenion a disgwyliadau nifer o'r 40,000 o ddysgwyr mewn grŵp blwyddyn ar draws Cymru yn ystod y pythefnos hwn. Hysbyswyd ni bod dros 50% o ddysgwyr yn dibynnu ar eu rhieni i gael hyd i leoliad iddyn nhw. O ganlyniad, mae dysgwyr naill ai'n cael mantais neu o dan anfantais yn ôl statws cyflogaeth eu rhieni.

[16] Op.Cit. para. 3.4

**63.** Dywed adroddiad arolwg addysg a sgiliau diweddar gan y CBI/EDI (2010)[17] y gellid gwella profiad gwaith ac y gellid cynyddu nifer y cyfleoedd drwy wneud hyd y lleoliadau'n fwy hyblyg, hynny yw, mae cyflogwyr eisiau rhoi cyfleoedd tu allan i'r bloc traddodiadol o bythefnos.

**64.** Ar hyn o bryd, mae ysgolion a chyflogwyr hefyd yn ystyried profiadau bywyd go iawn fel y dewis gorau. Eto clywon ni dystiolaeth gan gyflogwyr a staff ysgolion nad yw gwaith cyflogedig rhan-amser pobl ifanc yn cael ei gydnabod yn ffurfiol fel rhan o brofiad GBG. Mae Howieson ac eraill (2006)[18] yn tynnu sylw at y ffaith fod disgyblion, eu rhieni, eu hathrawon a chyflogwyr yn edrych yn gadarnhaol ar yr egwyddor o wneud mwy o ddefnydd o waith rhan-amser disgyblion yn eu gwaith ysgol. Fodd bynnag, nid oes cytundeb clir yn bodoli ar sut y dylid cydnabod gwaith rhan-amser o fewn gwaith ysgol.

**65.** Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ysgolion, colegau, cyflogwyr, Cynghorau Sgiliau Sector (CSSau) a PABau gydweithio i wella ansawdd cyffredinol y profiadau gwaith sydd ar gael i bobl ifanc, o ran rhai sy'n benodol alwedigaethol a chyfleoedd gwaith mwy cyffredinol. Mae'n amlwg fod angen dulliau mwy arloesol, yn enwedig mewn ysgolion, gan gynnwys profiadau rhithiol ar-lein, wedi eu cyfuno gydag achrediad am waith rhan-amser a chyfranogi mewn gweithgareddau a phrosiectau mudiadau gwirfoddol. Bydd rhaid edrych yn fwy trylwyr ar hyn, yn arbennig os bydd gallu cyflogwyr i gynnig profiadau yn cael ei gyfyngu ymhellach o ganlyniad i'r sefyllfa economaidd bresennol ac yn y dyfodol.

**66.** Rydym yn cydnabod bod gan y CSSau ddiddordeb mewn hybu eu sectorau nhw eu hunain ac felly ni ellir disgwyl iddyn nhw ddarparu gwasanaeth gyrfaoedd diduedd i bobl ifanc ac oedolion. Yn wir, clywon ni am un CSS yn cynnig ei wasanaeth gyrfaoedd ei hun i'r defnyddiwr am dâl ariannol. Nid ydym yn meddwl y dylid cefnogi hyn, o gofio'r gofynion i weithio mewn partneriaeth a darparu gwasanaethau gyrfaoedd diduedd. Yn hytrach, awgrymwn y dylai'r CSSau ddatblygu modelau addas o brofiadau sy'n canolbwyntio ar waith i gefnogi llwybrau dysgu galwedigaethol penodol yn eu sectorau gwahanol nhw, o'r ysgol hyd at y cyfnod cyn cyflogi, a bod y PABau wedyn yn cael cyfrifoldeb am hwyluso'r modelau hyn yn lleol.

---

17 *Ready to Grow: business priorities for education and skills* Education and Skills Survey CBI/EDI (2010) Llundain.
www.cbi.org.uk/pdf/20100501-cbi-education-and-skills-survey-2010.pdf

18 *The Nature and Implication of The Part-time Employment of Secondary School Pupils* C Howieson, J McKechnie, S Semple (Adroddiad Scottish Executive Research Rhif 47/2006).

**67.** Mae'n amlwg fod rhaid i weithwyr gyrfaoedd proffesiynol ac ymarferwyr eraill gael mynediad at wybodaeth a dealltwriaeth o safon uchel am y farchnad lafur (LMI). Nodwyd eu bod nhw angen ac eisiau mathau gwahanol o LMI at ddibenion gwahanol. Yn ogystal â chael LMI i'w defnyddio gyda'u cleientiaid, maen nhw ei hangen er mwyn gallu cynnal deialog effeithiol a chael hygrededd gyda chyflogwyr a phartneriaethau addysg-busnes, yn ychwanegol at eu datblygiad proffesiynol nhw eu hunain. Yn gyffredinol, ystyrir LMI ar lefel ranbarthol a chenedlaethol fel rhywbeth sy'n anodd ei chael a'i thrin.

**68.** Gwelwyd diffyg cysondeb rhwng ac ar draws y CSSau yng Nghymru (fel mewn rhannau eraill o'r DU) o ran darparu LMI gyfoes. Mae dull mwy integredig o ddelio â LMI yn hanfodol i ffyniant economaidd Cymru yn y dyfodol. Credwn, yn absenoldeb gwybodaeth o safon uchel o'r fath, bydd unigolion yn debygol o ddilyn tueddiadau arferol; magu tybiaethau anghywir ynglŷn â diwydiant a'r cyfleoedd sydd ar gael; ac efallai colli cysylltiad â realiti gwaith cyflogedig a phrofiadau cysylltiedig â gwaith. Mae ar gyflogwyr angen gweithwyr sy'n meddu ar gymhelliant ac ymrwymiad i gyfrannu at yr economi leol a chenedlaethol.

**69.** Rydym yn awyddus i annog y mudiadau allweddol mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant i ddatblygu dull mwy cyffredinol o hybu, casglu a choladu LMI. Gellid cyflawni hyn drwy roi'r dasg i Fforwm Strategol Gwasanaethau Gyrfaoedd Cymru gyfan yn benodol i gynhyrchu cynigion ar sut i wella cyflenwad a lledaeniad LMI – yn lleol ac o ran Cymru gyfan a'r DU (gweler Themâu 7 ac 8).

**70.** Argymhellwn y dylid cadw PABau fel rhan o bortffolio Gyrfa Cymru ond eu hail lansio gyda brand cenedlaethol ar wahân sy'n hybu rhagoriaeth mewn cysylltiadau addysg-busnes. Clywon ni gan hysbyswyr allweddol fod angen i'r rhwydwaith PAB yng Nghymru gael ei adfywio ar sail strwythur a system sy'n fwy perthnasol i ddaearyddiaeth economaidd Cymru. Golygai hyn ail-frandio'r PABau presennol fel uned ar wahân gyda phroffil uchel. Byddai gwneud hynny o gymorth i ddenu mwy o gyflogwyr i weithgareddau cynllunio sy'n canolbwyntio ar waith ac yn gymorth i sefydlu cysylltiad cliriach gyda datblygu sgiliau rheoli gyrfa a chyflogadwyedd i bobl Cymru. Byddai pob PABau yn dal i fod yn rhan o strwythur yr un corff Gyrfa Cymru ac yn cael ei gefnogi gan staff Gyrfa Cymru. Trafodir hyn ymhellach yn adran 'Adfywio brand y Partneriaethau Addysg-Busnes' (gweler tudalen 72).

**71.** Dylai pob Partneriaeth fod yn fforwm ymgysylltu lleol sy'n amlwg a gweithredol gan gynnwys rhwydweithiau cyflogwyr, cynrychiolwyr y gweithlu, awdurdodau lleol, sefydliadau addysg a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn wir, dylai bod dyletswydd ar bob Partneriaeth i ddiffinio ei rôl a'i pherthynas gyda busnes lleol. Dylid gwella rôl y PAB i gynnwys:

- annog cyflogwyr i gymryd rhan a sicrhau eu bod yn darparu profiadau sy'n canolbwyntio ar waith a lleoliadau addas i'r holl ddysgwyr ym mhob cyfnod
- trefnu lleoliadau 'cysgodi' ar gyfer athrawon a darlithwyr gyda chyflogwyr lleol a lleoliadau cyfatebol i gyflogwyr lleol gael dod i ysgolion a cholegau
- sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth o'r farchnad lafur yn cael ei chynhyrchu'n lleol ac yn rhanbarthol ar gyfer darparwyr gwasanaeth gyrfaoedd a'u cleientiaid a hyn i gynnwys y galw ymhlith cyflogwyr lleol am sgiliau iaith Gymraeg
- hybu gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) a blaenoriaethau sector penodol eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru
- gweithio gyda'r CSSau i ddatblygu a gweithredu adnoddau a modelau ar gyfer profiadau a lleoliadau sy'n canolbwyntio ar waith penodol i'r sector, o safon uchel
- datblygu a chydnabod deilliannau dysgu cysylltiedig â gyrfaoedd ar gyfer gwaith cyflogedig rhan amser a gwaith gwirfoddol gan bobl ifanc
- datblygu partneriaethau gyda phrifysgolion drwy'r rhaglen Cyfleoedd i Raddedigion Cymru (GO Cymru).

**72.** I ategu datblygiad o'r fath gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cydweithrediad â Gyrfa Cymru, fforwm cenedlaethol y PABau, CCAC a CholegauCymru weithio gyda'i gilydd i gynhyrchu canllawiau arfer gorau o ran darparu profiad gwaith mewn ysgolion a cholegau.

**73.** Rydym hefyd wedi nodi cyfle i Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (BCSC) adolygu effaith gweithgareddau PAB a llunio map o 'ddangosyddion llwyddiant critigol' sy'n cyd-fynd â 'blaenoriaethau cyflogwyr' a all fwydo i mewn i ysgolion a cholegau ar lefel strategol. Byddai hyn yn gymorth i ysgolion a cholegau gynllunio'n strategol ar gyfer dewisiadau galwedigaethol a phrofiad gwaith yn well fel

mae BCSC wedi ei argymell yn ei adroddiad, Mai 2010, ar Sgiliau Cyflogadwyedd. Dywedodd cynrychiolwyr cyflogwyr, staff ysgolion a cholegau y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud mwy i annog cyfranogaeth mewn gweithgareddau addysg-busnes drwy amodau cytundeb gyda chyflenwyr y sector cyhoeddus; a gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru wedyn ymestyn y dull hwn i gontractau a osodir gan awdurdodau lleol; cyrff y GIG a'r sector cyhoeddus ehangach. Rydym yn gadarn o blaid y dull hwn.

## Adeiladu gallu mewn gwasanaethau gyrfaoedd i bobl ifanc

**74.** Yma rydym yn archwilio'n fyr i'r posibilrwydd o gryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer pobl ifanc drwy adeiladu ar yr wybodaeth arbenigol a'r gefnogaeth sydd ar gael gan ystod eang o sefydliadau a'r swyddogaethau sy'n bodoli o fewn y teulu o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd.

**75.** Roedd hi'n amlwg o'r dystiolaeth a adolygwyd fod rhaid alinio mewnbynnau ysgolion, staff a gweithwyr gyrfaoedd proffesiynol sy'n gweithio ochr yn ochr â phobl ifanc (a'u rhieni/gofalwyr) yn nes at ei gilydd o fewn model partneriaeth gref. O safbwynt y defnyddiwr, nid yw'r system yn gwbl ddealladwy ac mae angen gwneud mwy i egluro cyfraniad y gwahanol gydlynwyr addysg gyrfaoedd a phrofiad gwaith, anogwyr dysgu 14–19 a chynghorwyr gyrfaoedd ac o ganlyniad mae angen iddyn nhw weithio'n agosach â'i gilydd.

**76.** Trafodwyd rolau gwahanol oedd yn ategu ei gilydd; roedd y rhain yn cynnwys cynghorwr gyrfaoedd, cyd-drefnydd GBG, cyd-drefnydd lleoliadau gwaith, gweithiwr addysg cymunedol, athro/athrawes, gweithiwr ieuenctid ac anogwr dysgu. Roedd y rôl ddiwethaf yn arbennig yn denu llawer o ddiddordeb yn y sesiynau casglu tystiolaeth, yn arbennig o gofio bod Mesur y Cynulliad wedi cadarnhau hawl i gymorth anogwr i bob person ifanc[19].

**77.** Ni welwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn fod gorgyffwrdd rhwng swyddogaeth yr anogwr dysgu a'r cynghorwr gyrfaoedd. Fodd bynnag, mynegwyd cryn bryder ynghylch amrywiaeth gyffredinol rôl yr anogwr dysgu. Rydym o'r farn fod yr anogwr dysgu, fel adnodd cymharol newydd i ysgolion a cholegau, yn cynnig cryn botensial i ddatblygu'r system ymhellach. Nodwn fod yn rhaid i rôl yr anogwr dysgu ddod yn fwy tryloyw a bod yn rhaid ei halinio'n agosach

---

19 *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*
www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-ls.htm

gyda gwaith athrawon a chynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion a cholegau. Wrth wneud hyn gellid sicrhau diagnosis mwy cywir a chynnar o anghenion pobl ifanc.

**78.** Ar hyn o bryd mae amrywiadau sylweddol yn y defnydd o anogwyr dysgu gan ysgolion a cholegau. Er y derbyniwn fod yn rhaid i'r system fod yn hyblyg a phwrpasol, yn unol â Llwybrau Dysgu 14–19, mae yna botensial sylweddol i wella rôl yr anogwr dysgu ymhellach i'w gynnwys fel rhan o'r prif lif. Cyflwynir astudiaethau achos yn adroddiad *Anogwyr Dysgu Cymru*[20].

**79.** Argymhellwn berthynas waith lawer agosach rhwng cyd-drefnwyr addysg gyrfaoedd a phrofiad gwaith, anogwyr dysgu 14–19, a chynghorwyr gyrfaoedd. Gallai a dylai perthynas waith agos o'r fath ddod yn gysylltiad allweddol wrth adeiladu uchelgeisiau gyrfaoedd realistig a sgiliau cyflogadwyedd i'r holl bobl ifanc. Bydd hyn yn gofyn am arweinyddiaeth gref ar lefel uwch mewn ysgolion a cholegau.

**80.** Y nod allweddol yw darparu gwasanaethau addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd, bersonol a phwrpasol i bobl ifanc ar adeg ac mewn lle sy'n addas i'w hanghenion. Mae cysylltiad annatod rhwng dewisiadau dysgu a dewisiadau gyrfa. Mae anogwyr dysgu mewn sefyllfa dda i roi cymhelliant i bobl ifanc a'u cynorthwyo i wneud synnwyr o'u dysgu yn seiliedig ar waith a pharatoi ar gyfer cyfweliadau gyrfaoedd a/neu sesiynau gwaith grŵp. Oherwydd ei fod yn gweithio'n agos gyda'r dysgwr i ddatblygu ei Gynllun Dysgu Unigol, mae'r anogwr dysgu mewn sefyllfa ddelfrydol i gynorthwyo pobl ifanc sy'n agored i niwed i archwilio lleoliadau gwaith priodol a datblygu sgiliau cyflogadwyedd a menter yn ogystal â nodau datblygiad personol. Mae'n hanfodol hefyd fod cysylltiad rhwng y profiadau sy'n canolbwyntio ar waith a llwybrau dysgu a dyheadau gyrfa newydd pob person ifanc. I rai pobl ifanc bydd hyn yn cynnwys profiadau galwedigaeth benodol o 14 oed ymlaen; ac i eraill bydd yn cynnwys ystod o brofiadau sy'n gymorth i ddatblygu sgiliau personol a dangos y dewisiadau. Wrth gwrs mae'n rhaid i hyn, ddigwydd o fewn cwlwm model partneriaeth gyd-drefnedig dda. Cydnabyddir mai model partneriaeth yw'r dull mwyaf effeithiol i ddarparu addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i bobl ifanc[21].

---

20 *Anogwyr Dysgu Cymru,* Yr Athro Danny Saunders a Llywodraeth Cynulliad Cymru, Medi 2008 www.learningpathways14–19update.org.uk/issue1/index.html#s3

21 *Career Guidance and Public Policy: Bridging the Gap* Paris, OECD (2004) www.oecd.org/LongAbstract/0,3425,en_2649_39263238_34050172_1_1_1_1,00.html

**81.** Yn ein barn ni, dylai gweithgareddau Gyrfa Cymru wrth gefnogi dysgwyr cyn 16 mewn ysgolion uwchradd ganolbwyntio'n bennaf ar:

- adeiladu gallu cyd-drefnwyr GBG, athrawon ac anogwyr dysgu i ddarparu gwasanaethau addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd modern o safon uchel drwy hyfforddiant ar y cyd a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Dylai hyn alluogi cynghorwyr gyrfaoedd proffesiynol i ganolbwyntio ar wella sgiliau unigolion i reoli gyrfa a chyflogadwyedd, lle bo angen, a datblygu mecanweithiau ar gyfer sicrhau ansawdd mewn darpariaeth gyrfaoedd ddiduedd
- datblygu model darparu gwasanaeth gwahaniaethol mwy amlwg, wedi ei gynllunio'n bwrpasol a'i hybu ledled Cymru. Dylai hyn gynnwys GCA fel y pwynt mynediad pwysicaf ar gyfer darparu gwasanaeth gyrfaoedd i bawb, ac ar yr un pryd sicrhau bod cymorth gyrfaoedd lleol ar gael, lle bo'n briodol. Bydd yn hanfodol integreiddio'n llwyr a hybu'r tair prif sianel darparu, sef gwasanaethau ar y we, llinell gymorth ac wyneb yn wyneb. Dylai hyn gynnwys codi proffil adnoddau'r we 2.0 a 3.0 a'r cyfleusterau TGCh sydd ar gael
- cynnal cyfweliadau cyfarwyddyd unigol  i bob person ifanc sydd wedi eu nodi gan arweinydd gyrfaoedd yr ysgol fel rhai sydd angen cyfarwyddyd gyrfaoedd gyda chymorth briff neu gymorth mwy manwl. Dylid rhoi blaenoriaeth i'r rheiny sy'n bwriadu gadael addysg amser llawn yn 16 neu unigolion sydd wedi eu hasesu gan anogwyr dysgu, cyd-drefnwyr gyrfaoedd neu brofiad gwaith fel rhai sydd angen cyfarwyddyd trylwyr unigol. Gall hyn gynnwys y rheiny sydd mewn perygl o ddod yn NEET, troseddwyr ifanc, mamau ifanc a'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, ond nid dim ond y grwpiau hynny, gan gofio y gall rai pobl ifanc sy'n cael llwyddiant academaidd uchel, hefyd brofi amgylchiadau teuluol, cymdeithasol ac economaidd cymhleth.

**82.** O'r dystiolaeth a gyflwynwyd, deallon ni fod yna awydd cryf am fwy o hyfforddiant cyffredinol ac arbenigol i arweinwyr gyrfaoedd ysgolion a cholegau, athrawon a staff bugeiliol, cyd-drefnwyr gyrfaoedd a phrofiad gwaith ac anogwyr dysgu. Fe wnaethom nodi hefyd, er mwyn denu staff i mewn i'r swyddi hyn, fod angen edrych yn fanylach yn awr ar systemau datblygiad proffesiynol parhaus i'r rheiny sydd â rhan uniongyrchol ac anuniongyrchol yn nheulu gyrfaoedd Cymru gyfan. Dychwelwn at bwnc hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn ddiweddarach yn Thema 6.

## Rhwydweithiau Llwybrau Dysgu 14–19 a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc

**83.** Darganfuom ni fod Partneriaethau Llwybrau Dysgu 14–19 a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc (CYPP) yn gweithredu ar draws Cymru a'u bod yn cyfarfod yn rheolaidd; ond cawsom anhawster i asesu i ba raddau y mae'r rhain yn cael eu rheoli'n strategol. Eu nod gyffredin yw darparu gwell adnoddau a mynediad at wasanaethau i bobl ifanc i gyd; ond, a barnu oddi wrth y dystiolaeth a glywon ni, mae'n ymddangos bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng eu swyddogaethau. Canlyniad hyn yw bod gormod o alw ar rai darparwyr gwasanaeth (megis Gyrfa Cymru) i gyfranogi a bod mewnbwn yn cael ei ddyblygu.

**84.** Gwyddom fod holl aelodau Partneriaethau Llwybrau Dysgu 14–19 Gwynedd a Môn yn cyfarfod gyda'i gilydd, yn hytrach na mynychu cyfarfodydd ar lefel yr awdurdod lleol ac mae hyn wedi arwain at welliant mawr o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Bu Cadeirydd yr Adolygiad yn rhan o'r broses o sefydlu'r trefniant unigryw hwn yng Ngogledd-orllewin Cymru; ac mae ef wedi tystio i'r buddiannau a ddeilliodd yn syth i'r holl sefydliadau oedd â rhan yn y Partneriaethau hyn – yn arbennig gostwng nifer y cyfarfodydd i aelodau'r ddwy Bartneriaeth.

**85.** Awgrymwn felly dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru edrych ar y posibilrwydd o uno'r rhwydweithiau partneriaeth hyn neu wahaniaethu a rhagnodi eu rolau yn gliriach er mwyn iddyn nhw gydweithio a/neu osgoi dyblygu. Hefyd, gallai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru adolygu a oes rhaid i'r partneriaethau hyn gyd-fynd â nifer yr awdurdodau lleol neu a oes lle i resymoli, gan gadw mewn cof y bydd Llwybrau Dysgu 14–19 pwrpasol yn golygu y bydd yn rhaid i fwy o bobl ifanc deithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol er mwyn dysgu ac er mwyn dod o hyd i waith addas.

**86.** Awgrymwn ymhellach y dylai fod gan Gyrfa Cymru rôl arweiniol ffurfiol yn y Partneriaethau Llwybrau Dysgu 14–19 (neu bartneriaethau unedig ehangach) o ran datblygu sgiliau rheoli gyrfa a sgiliau cyflogadwyedd ehangach a datblygu strategaethau lleol i ostwng y nifer o bobl ifanc nad sydd mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant (NEET).

**87.** Bydd un corff Gyrfa Cymru hefyd mewn sefyllfa dda i arwain mewn hyfforddi a datblygu'r holl bersonél fydd â rhan mewn darparu Llwybrau Dysgu 14–19 wrth gynorthwyo pobl ifanc (ac oedolion) i gasglu gwybodaeth gyrfaoedd, cyfranogi mewn profiad sy'n canolbwyntio ar waith a datblygu sgiliau rheoli gyrfa a chyflogadwyedd.

## Thema 2: Datblygu model darparu gwasanaeth gyrfaoedd gwahaniaethol

**88.** Yn yr adran hon, canolbwyntiwn yn benodol ar archwilio'r heriau a'r cyfleoedd sydd yn wynebu'r corff sengl newydd arfaethedig wrth ddatblygu model darparu gwasanaeth gyrfaoedd mwy cydlynol ac amlwg wahaniaethol i bobl ifanc ac i oedolion. Aseswn gydbwysedd y trefniadau darparu presennol, gan gymryd i ystyriaeth y byd digidol ac agweddau ac ymddygiadau defnyddwyr wrth ddefnyddio gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd yn y sector cyhoeddus.

### Gwasanaethau wyneb yn wyneb

**89.** Mae'n rhaid i wasanaeth cleient-ganolog ymateb yn hyblyg a sensitif i anghenion a disgwyliadau unigolion. Fel y trafodwyd yn gynharach, ceir cydnabyddiaeth gynyddol ledled Cymru bod angen ymestyn cyrhaeddiad ac ansawdd gwasanaethau gyrfaoedd i bobl ifanc ac i oedolion hefyd. Dengys tystiolaeth ymchwil[22]:

> Undoubtedly technology has already influenced, and will continue to influence, both the manner in which careers services are accessed by clients and the ways they are utilised . . . Indeed, its increased use by key user groups of careers services – especially young people – is placing new demands both on careers practitioners and the organisations for which they work. One key challenge for the immediate future is to ensure that the careers sector is sufficiently equipped to respond to these demands.

**90.** Mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi tynnu sylw at yr angen am ystyriaeth ofalus yn nhermau ail-gydbwyso'r lefelau presennol o wasanaethau wyneb yn wyneb, ar y we a thrwy linell gymorth. Ceir consensws cyffredinol dros system o ddarparu 'tair prif sianel' sydd wedi ei hintegreiddio'n llawnach. Rydym wedi nodi bod yna berygl gwirioneddol y gallai unigolion sydd eisoes dan anfantais, sydd yn arbennig angen gwasanaethau cymorth gyrfaoedd lleol a thrylwyr, gael eu heithrio fwy fyth – yn enwedig os bydd y gwasanaeth a ddarperir yn mynd yn ddibynnol ar fynediad at TGCh. Cawsom ein hysbysu'n llawn am yr angen am bolisïau cenedlaethol gwell i fynd i'r afael â'r diffygion yn yr isadeiledd digidol ar draws Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

---

22 *Careers Information, Advice and Guidance: the digital revolution and repositioning of labour market information – An Expert Paper for UKCES* gan J Bimrose a S A Barnes (Sefydliad Ymchwil i Gyflogaeth, Prifysgol Warwick, 2010).

**91.** Nid ydym yn ystyried y dylai personél Gyrfa Cymru gael rhan mewn darparu gwaith gyrfaoedd yn uniongyrchol mewn ysgolion cynradd, ac eithrio cefnogi PABau. Dylid cadw ei waith gyrfaoedd cyn-14 cyn lleied â phosibl oherwydd y gofynion eraill sy'n cystadlu am ei sylw.

**92.** Cydnabyddwn yn llwyr fod dadl gref dros roi'r cyfle i bob person ifanc gael ei weld gan gynghorwr gyrfaoedd proffesiynol o leiaf unwaith (byddai hyn o leiaf yn fodd o fesur rheoli ansawdd penderfyniadau gyrfaoedd). Mae hi hefyd yn bwysig sicrhau bod y lefel iawn o adnoddau ar gael i unigolion yn y lle iawn ac ar yr amser iawn. Wrth argymell newid pwysleisiwn fod angen ystyried amrywio amseriad y cymorth wyneb yn wyneb yn unol ag anghenion unigolion, h.y. osgoi cynnal y cyfweliadau i gyd yr un pryd.

**93.** Nid ydym yn annog symud y cyfrifoldeb oddi wrth y cynghorwyr gyrfaoedd a dibynnu ar ysgolion a cholegau i ddarparu eu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd eu hunain. Yn wir, mae ein barn i'r gwrthwyneb, ar ôl cymryd tystiolaeth ymchwil ryngwladol i ystyriaeth[23] ynghylch gwaith gyrfaoedd effeithiol mewn ysgolion[24]. Oddi wrth hyn, mae hi hefyd yn eglur oddi wrth brofiad yn yr Iseldiroedd[25] a Sweden y gall fod perygl difrifol i amhleidioldeb os rhoddir y cyfrifoldeb am ddatblygu dyheadau gyrfa, sgiliau rheoli gyrfa a chyflogadwyedd pobl ifanc yn gyfan gwbl i sefydliadau. Yn hytrach, mae angen model partneriaeth wedi ei gyd-drefnu'n well a ffyrdd mwy hyblyg o weithio i gynnwys gwaith grŵp a'r defnydd o dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

**94.** Clywon ni sut y gall rhai ysgolion, sy'n benderfynol o gadw eu carfan ôl-16, wrthsefyll cyngor diduedd drwy amrywiaeth o ddylanwadau uniongyrchol a mwy cynnil ar yr unigolyn. Mae cyfrifoldeb clir ar Gyrfa Cymru, a chyrff darparu eraill yn y teulu o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd, i adrodd am arferion amhroffesiynol ac i sicrhau bod yr unigolyn yn cael gwybodaeth lawn am yr holl ddewisiadau sydd ar gael.

---

23 Mae Sweden wedi bod yn datganoli ei system ysgolion, gan roi llawer mwy o ymreolaeth i fwrdeistrefi ac i ysgolion unigol. Canlyniad hyn fu gwanhau ei darpariaeth cyfarwyddyd gyrfaoedd yn sylweddol.

24 *Career Guidance and Public Policy: Bridging the Gap*. (OECD, 2004, tudalen 42).

25 *Review of Career Guidance Policies: Netherlands* Country Note (OECD, 2002).

**95.** A derbyn bod cael mynediad at gynghorwr annibynnol yn un ffordd o sicrhau cyngor diduedd, fel y nodwyd yn Neddf Addysg 1997, mae'n rhaid cadw'r elfen hollbwysig hon fel lleiafswm hawl pobl ifanc. Felly, er ein bod yn llwyr gydnabod y bydd model gwasanaeth gwahaniaethol yn gosod pwyslais cryf ar ddatblygu sgiliau rheoli gyrfa a chyflogadwyedd, teimlwn y dylai pobl ifanc i gyd gael gwybod am eu hawl i gael o leiaf un cyfweliad cyfarwyddyd gyrfaoedd gan gynghorwr proffesiynol Gyrfa Cymru, gyda chefnogaeth ychwanegol yn cael ei darparu ar gyfer y rhai mwyaf anghenus. I unigolion mewn addysg, gwaith neu'n ddi-waith bydd yn hanfodol iddyn nhw wybod sut i gysylltu â gweithiwr gyrfaoedd proffesiynol naill ai ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

**96.** Rydym yn deall bod llwybrau gyrfa'n datblygu dros gyfnod o amser ac y bydd aeddfedrwydd unigolion o ran gyrfa yn amrywio yn ôl amgylchiadau a phrofiad. Byddai datblygu dangosyddion effaith ar gyfer y defnydd o GCA a sesiynau gwaith grŵp, o'u cyferbynnu â chyfweliad unigol, yn gymorth i adolygu cydbwysedd ymyriadau. Mae Safonau Cyfarwyddyd Gyrfa Cymru'n tueddu i fod yn fawr eu parch, er ei bod yn amser i adolygu'r rhain yng nghyd-destun ail-gydbwyso gweithgareddau i gymryd mwy o waith grŵp a darpariaeth gwasanaeth ar-lein i ystyriaeth.

**97.** Daethom i'r casgliad bod angen i fodel darparu gwasanaeth gwahaniaethol, pwrpasol, Cymru gyfan, gael ei esbonio'n glir gan Gyrfa Cymru, mewn cydweithrediad ag ysgolion, colegau a gwasanaethau gyrfaoedd addysg uwch, er mwyn cefnogi'r symudiad tuag at ddyrannu adnoddau cynyddol brin mewn ffordd ddeallus.

## Adnoddau ar-lein a thros y ffôn

**98.** Mae'r defnydd o systemau TGCh i ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd mwy integredig wedi datblygu'n gyflym iawn ledled y DU. Mae cyfleusterau digidol wedi treiddio drwy holl agweddau ein bywydau o ddydd i ddydd ac mae llawer o bobl ifanc yn tyfu i fyny gyda sgiliau llythrennedd digidol nad yw llawer o oedolion, hyd yma, yn eu meddu'n llawn. Mae'r defnydd cynyddol o dechnoleg gan grwpiau defnyddwyr allweddol gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru – yn enwedig pobl ifanc a graddedigion – yn gosod galwadau newydd ar ymarferwyr gyrfaoedd ac ar y sefydliadau maen nhw'n gweithio iddyn nhw. Mae ei oblygiadau o ran dylunio a darparu gwasanaeth yn enfawr.

**99.** Her allweddol ar gyfer y dyfodol agos yw sicrhau bod y teulu gyrfaoedd yng Nghymru wedi eu paratoi'n ddigonol i ymateb i'r ffyrdd newydd hyn o weithio. Yn hyn o beth, mae defnyddioldeb gwefan GCA a'i photensial i ddatblygu ymhellach wedi gwneud argraff arnom. Mae'r wefan yn cynnig cyfle gwirioneddol i unigolion eu helpu nhw eu hunain a chael mynediad heb gymorth at wybodaeth ac offer rheoli gyrfa fel sy'n gyfleus iddyn nhw eu hunain. Dengys y dystiolaeth fod hyn yn apelio fwyfwy at bobl ifanc, gan eu bod wedi arfer ac yn tueddu i hoffi mynediad o bell yn well na chysylltiad wyneb yn wyneb. Mae Gyrfa Cymru'n adrodd bod cyfanswm o 126,000 o gyfrifon personol ar GCA ar 31 Mawrth 2006; cynyddodd y nifer i 358,000 erbyn 31 Mawrth 2010. Mae GCA felly'n cynrychioli elfen all fod yn sylweddol iawn yn natblygiad model gwasanaeth gwahaniaethol hollol integredig, cyn belled â bod gan bobl ifanc ddigon o fynediad at gyfrifiadur a'r sgiliau TGCh i ddefnyddio'r adnodd hwn.

**100.** Clywon ni fod y defnydd o GCA gan bobl ifanc dan 16 mewn ysgolion wedi ei gyfyngu gan fynediad cyfyngedig at gyfleusterau cyfrifiadurol a chan ddiffygion daearyddol isadeiledd y band llydan cyflym mewn rhannau o Gymru. Felly, mae'r rhaniad digidol hefyd yn ffactor allweddol i'w ystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau gyrfaoedd gan ddefnyddio cyfleusterau seiliedig ar y rhyngrwyd. Er bod yna beth tystiolaeth fod y rhai sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol yn llai tebygol o fod yn ddigidol lythrennog, nid yw hyn yn rheol gyffredinol o bell ffordd. Awgryma tystiolaeth ymchwil ar bobl ifanc sydd wedi eu heithrio'n gymdeithasol fod llawer o fanteision mynediad i'r rhyngrwyd ar gael i'r grŵp hwn drwy dechnolegau symudol[26].

**101.** Mae'r defnydd o GCA wedi cynyddu'n sylweddol; ond rydym hefyd yn credu y gallai Gyrfa Cymru wneud mwy, mewn cydweithrediad ag ysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch, i hybu cyfleusterau GCA i bobl ifanc ac oedolion. Nodwn y bydd y gwariant ar farchnata yn dylanwadu'n fawr iawn ar wasanaethau ar-lein a thros y ffôn; ac eto dim ond ychydig mae Gyrfa Cymru wedi ei wario ar farchnata hyd yma. Dylai'r gwaith hybu o leiaf ofyn i'r holl ysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch yng Nghymru greu hyperddolenni i GCA o'u gwefannau nhw eu hunain.

---

[26] *Social Inclusion of Young Marginalised People through Online Mobile Communities* gan I Marschalek a E Unterfrauner. Yn IDC 2009: The 8th International Conference on Interaction Design and Children.

**102.** Yn gynyddol, bydd y llinell gymorth yn cysylltu'n agosach â phorth GCA wrth i fwy a mwy o bobl ifanc ddod i arfer â chael mynediad at y rhyngrwyd o'u ffonau symudol ac wedyn dilyn eu pori cychwynnol â galwad ffôn. Hyd yma, mae'r gwaith o hybu gwasanaeth y llinell gymorth wedi dibynnu'n helaeth ar hybu'r rhif rhadffôn, 0800 100 900, gan Lywodraeth y DU, gyda galwyr o Gymru yn cael eu cyfeirio at ganolfan alw yng Nghaerdydd. Lle bo angen cyfarwyddyd manwl, cyfeirir galwadau i gynghorwyr Gyrfa Cymru yn ardal leol y sawl sy'n galw. Bydd angen adolygu'r trefniant hwn gan gymryd i ystyriaeth y newidiadau posibl sydd ar hyn o bryd yn cael eu sefydlu yn Lloegr[27], Gogledd Iwerddon[28] a'r Alban[29].

**103.** Mae'n hanfodol bod y llinell gymorth yng Nghymru yn cael ei chadw gyda chysylltiad cyflym rhwng y rhif ffôn a chynghorwyr gyrfaoedd lleol, gan fod y gwasanaeth ffôn yn debygol o chwarae rôl gynyddol bwysig mewn model gwasanaeth gwahaniaethol, fydd yn golygu mwy o hunan-reoli o safbwynt y cleientiaid. Mae'n hanfodol hefyd na fydd marchnata'r llinell gymorth yng Nghymru yn cael ei leihau o ganlyniad i ddatblygiadau dros y ffin gan y bydd hyn yn wrthgynhyrchiol. Ymddengys bod yna botensial sylweddol ar gyfer cyd-farchnata GCA a'r llinell gymorth yng Nghymru. Yn wir, nodwn fod y gwasanaeth gyrfaoedd newydd i oedolion yn Lloegr wedi ymrwymo i ddatblygu system reoli cwsmeriaid fydd yn rhestru pob cleient sydd wedi cysylltu, boed hynny ar y we, dros y ffôn neu yn bersonol. Byddem yn argymell bod dull tebyg yn cael ei fabwysiadu yng Nghymru fel sylfaen i wasanaeth dwyieithog cyflawn.

**104.** I staff Gyrfa Cymru a chwaraewyr allweddol eraill yn y teulu gyrfaoedd mae angen datblygu sgiliau TGCh ymhellach er mwyn cynyddu'r gallu i ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd ar-lein a thros y ffôn, wrth i'r galw gan bobl ifanc (ac, yn gynyddol, oddi wrth oedolion) am fynediad o bell barhau i dyfu. Bydd angen rhaeadru polisïau ac arferion arloesol fel rhan o agenda datblygiad proffesiynol parhaus o fewn ac ar draws y teulu o ddarparwyr gyrfaoedd yng Nghymru.

**105.** Mae'n rhaid i Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth gyda Gyrfa Cymru, ysgolion, colegau a'r awdurdodau lleol, asesu a mynd i'r afael â'r graddau y gellir cyflawni system dair sianel hollol integredig; ac mae hyn yn rhywbeth y dylai Estyn ei fonitro'n fanwl drwy ei waith parhaus.

---

27 Trosglwyddo nawdd o'r Cyngor Dysgu a Sgiliau i'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau

28 Gogledd Iwerddon yn prynu gwasanaethau wedi'i gynllunio o'r National Careers Advice Service yn lloegr

29 Ffurfio Skills Development Scotland.

**106.** Credwn fod cryn le i ryngweithio rhwng Gyrfa Cymru a'r Gwasanaethau Cynghori ynghylch Gyrfaoedd mewn Addysg Uwch (GCGAU) wrth ddarparu gwasanaethau GCCh i fyfyrwyr a graddedigion, yn enwedig mewn lleoliadau oddi ar gampws a thrwy wasanaethau TGCh rhyngweithiol datblygedig ar-lein. Lle bo'n angenrheidiol ac yn briodol, mae'n bosibl i Gyrfa Cymru ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb yn lleol yn absenoldeb arbenigedd GCGAU; ond bydd angen cysylltiadau cyfathrebu da i adeiladu darlun mwy cynhwysfawr o lwybrau gyrfa myfyrwyr addysg uwch.

**107.** Gwnaeth cymorth ar-lein gwasanaethau gyrfaoedd i fyfyrwyr y Brifysgol Agored argraff neilltuol arnom a'r graddau yr oedd eisoes yn cydweithio gyda Gyrfa Cymru i gyflawni dolenni ar-lein a chydlyniad wrth ddarparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i fyfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru.

**108.** Ystyriwn felly mai anffodus, er ei fod yn ddealladwy efallai, yw bod y ffiniau cyfrifoldeb rhwng Gyrfa Cymru a GCGAU prifysgolion eraill yn ymddangos fel pe baen nhw wedi milwrio yn erbyn rhoi proffil uwch i GCA ymysg myfyrwyr addysg uwch sy'n byw yng Nghymru. Mae cynrychiolwyr y GCGAU wedi'n hysbysu bod myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) yn derbyn gwasanaeth da gan lwyfannau TGCh pwrpasol eu prifysgol sy'n canolbwyntio ar y profiad dysgu israddedig a marchnad waith wahanol y graddedigion. Awgrymwn felly y dylai Gyrfa Cymru a'r GCGAU yng Nghymru, mewn ymgynghoriad gyda chynrychiolwyr myfyrwyr, ddatblygu cydran addysg uwch o fewn GCA sy'n datgan yn glir y ffiniau cyfrifoldeb rhwng Gyrfa Cymru a'r GCGAU. O leiaf, gallai'r gydran hon ddarparu hyperddolenni i wefannau'r GCGAU perthnasol yng Nghymru, ac ar yr un pryd gynnig i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru'r cyfle i barhau i ddefnyddio GCA.

## Thema 3: Grwpiau blaenoriaeth

**109.** Yn yr adran hon rydym yn trafod ac yn egluro y caiff cyfnodau pontio allweddol drwy gydol oes eu diffinio'n aml gan brofiadau bywyd yn hytrach na chan oedran cronolegol. Roedden ni'n ymwybodol o'r angen i geisio canfod y cydbwysedd iawn rhwng mynediad cyffredinol a hawl pawb i wasanaethau gyrfaoedd a thargedu gwasanaethau ar gyfer y rheiny sydd fwyaf 'mewn angen'.

**110.** Yn ystod y sesiynau casglu tystiolaeth, daeth amryw o faterion penodol i'r amlwg sydd angen sylw o safbwynt agenda cynhwysiad cymdeithasol i bobl ifanc 'Nad sydd mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (*Not in Education, Employment and Training* (NEET)), y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu anawsterau neu anableddau dysgu (AAD) a throseddwyr ifanc. Ceir llawer o draws-groesi rhwng y grwpiau hyn ac mae'r amcanion polisi ar gyfer pob un yn cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaethau cymorth personol. Fodd bynnag, rydym wedi tynnu sylw at y prif faterion ar gyfer y grwpiau cleientiaid yma ar wahân o ran y gwasanaethau gyrfaoedd sydd ar gael iddyn nhw ar hyn o bryd.

### Grŵp NEET

**111.** Mae'r gyfran o bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi parhau o gwmpas 10 y cant ers canol y 1990au (Adolygiad Nuffield/Rathbone 2008)[30], er gwaethaf buddsoddiad sylweddol mewn cymorth wedi ei dargedu a mesurau polisi eraill. Yn wir, dengys y ffigurau ers canol y 1980au mai bywiogrwydd cyffredinol yr economi yn nhermau cyfraddau cyflogaeth cyffredinol all fod y ffactor mwyaf arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r rheiny sy'n NEET. Ar hyn o bryd, mae Gyrfa Cymru'n darparu'r gwasanaethau canlynol ar gyfer pobl ifanc o'r fath:

- Dan 16 – Mae Porth Addysg a gwasanaethau cymorth ychwanegol eraill Gyrfa Cymru yn darparu cymorth ataliol, integreiddiol ac adfer wedi ei anelu i ddatblygu cymhelliant o ran nodau dysgu a gwaith pobl ifanc. Gall y gefnogaeth hon fod yn barhaus; a, lle mae cyllid ychwanegol wedi bod ar gael ar gyfer cymorth gwell, gall y canlyniadau i bobl ifanc fod yn ardderchog. Mae gwasanaethau'r Porth Addysg yn rhan o'r trefniadau partneriaeth gydag ysgolion.
- Ôl-16 – Mae Gyrfa Cymru yn cynorthwyo pobl ifanc sydd ar 'gofrestr y di-waith' drwy ddarparu gwasanaeth atgyfeirio sy'n

---

30 *Rathbone/Nuffield Review Engaging Youth Enquiry: Final consultation report*. (The Nuffield 14–19 Review, 2008) www.nuffield14–19review.org.uk/files/documents196-1.pdf

sicrhau bod swyddogaeth yr anogwr dysgu ar gael i'r bobl ifanc yma nad sydd wedi eu cofrestru gydag unrhyw ddarparwr dysgu. I'r rheiny nad sydd mewn gwaith ond sydd heb fod yn barod ar gyfer addysg bellach na hyfforddiant yn y gweithle, mae'r Porth Ieuenctid yn darparu cyfarwyddyd, asesiad a chefnogaeth ychwanegol a gwell. Mae cynghorwyr Gyrfa Cymru yn gweithio gyda'r bobl ifanc i fynd i'r afael â rhwystrau ymgysylltu, yn trefnu cymorth o ran datblygu sgiliau sylfaenol ac allweddol, cymhelliant personol ac agwedd fwy cadarnhaol tuag at waith, yn ogystal â darparu cymorth GCCh gyrfaoedd pwrpasol. Bydd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud at asiantaethau arbenigol i ddelio ag anghenion penodol a nodwyd megis lles emosiynol a meddyliol, camddefnyddio sylweddau, digartrefedd a chamdriniaeth.

**112.** Mae oddeutu 30 y cant o gyllideb Gyrfa Cymru ar hyn o bryd wedi ei chanolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc 16 i 18 mlwydd oed sy'n NEET. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol a'r pwysau enfawr ar wariant cyhoeddus yn cryfhau'r dadleuon i adeiladu ar y sgiliau, y profiadau a'r wybodaeth sydd eisoes yn bod yn swyddogaeth yr anogwr dysgu a Gyrfa Cymru wrth ystyried y bobl ifanc yma.

**113.** Mae ad-drefnu Gyrfa Cymru yn strwythur sengl yn cynnig y cyfle delfrydol i ddatblygu systemau rheoli gwybodaeth bresennol y cwmnïau gyrfaoedd er mwyn sefydlu system genedlaethol i olrhain a rheoli data o ran y bobl ifanc NEET. Cawsom ar ddeall gan arweinwyr polisi fod y data hwn yn absennol o'r system bresennol. Gallai dull o'r fath adeiladu ar yr arolwg cyrchfannau blynyddol sy'n rhoi cipolwg ar y ganran o bobl ifanc sy'n NEET pan fyddan nhw'n gadael addysg lawn amser; gellid datblygu hyn yn adnodd cyfoes iawn pe bai'n ofynnol i asiantaethau eraill adrodd am newid statws (er enghraifft, tynnu allan o addysg bellach neu leoliadau dysgu yn y gweithle, neu ddechrau gweithio) i Gyrfa Cymru fel yr asiant rheoli.

**114.** Er bod y rhan fwyaf o bobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddi-waith yn defnyddio gwasanaethau atgyfeirio Gyrfa Cymru, mae yna nifer sylweddol nad ydyn nhw'n cofrestru gyda Gyrfa Cymru nac unrhyw asiantaethau cyhoeddus eraill. Deallwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn cynnal ymchwil i ddarganfod nodweddion a chymhelliant y grŵp hwn er mwyn canfod 'arfer gorau' o ran ymatebion polisi – ac fel nodwyd gan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, mae rôl gweithwyr ieuenctid yn sylfaenol i ddarparu cefnogaeth.

**115.** Ar hyn o bryd y prif gyfrwng ar gyfer yr ymateb hwn yw strategaethau 'Cadw mewn Cysylltiad' (KIT) syn cael eu gweithredu gan bob awdurdod lleol yng Nghymru dan nawdd Partneriaethau Plant a Phobl ifanc. Dywedwyd wrthym y ceir ffyrdd gwahanol o weithredu strategaethau KIT ar draws Cymru, ond bod gan y rhan fwyaf o gwmnïau Gyrfa Cymru brofiad mewn gwaith estyn allan ac wrth adnabod y mathau o gyfleoedd a'r ystod o gefnogaeth sydd fwyaf o gymorth i ailennyn diddordeb pobl ifanc. Rydym felly'n obeithiol y bydd strwythur sengl mewn sefyllfa i ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a datblygu gwasanaeth cydlynol a chyson ar gyfer y bobl ifanc yma mewn cydweithrediad gyda chwaraewyr mawr eraill megis darparwyr addysg, y Gwasanaeth Ieuenctid, mudiadau gwirfoddol a Jobcentre Plus. Yn dilyn ymlaen o'n sylwadau ar Lwybrau Dysgu yn adran 'Partneriaethau Llwybrau Dysgu 14–19 a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc' (gweler tudalen 35), mae gweithio mewn partneriaeth o'r math yma o amgylch cefnogi pobl NEET yn galw am arweinyddiaeth. Anogwn i hyn fod yn seiliedig ar resymeg cyflogadwyedd, ac mae hyn yn gosod endid sengl newydd Gyrfa Cymru fel yr asiantaeth sydd yn y sefyllfa orau i gymryd yr awenau.

## Pobl ifanc ag anghenion addysgol ychwanegol

**116.** Mae cwmnïau Gyrfa Cymru i gyd yn cyflogi cynghorwyr gyrfaoedd sy'n arbenigo mewn cynorthwyo pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i'w helpu i bontio'n esmwyth i addysg, hyfforddiant neu waith ôl-16. Penllanw'r gefnogaeth hon yw cyfranogaeth – ynghyd â gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill – mewn cyfarfodydd adolygu'r broses bontio, a drefnir gan yr ysgolion ar gyfer pobl ifanc gyda Datganiadau o Angen Addysgol neu sydd ag anghenion cyfwerth. Bydd cynghorwyr Gyrfa Cymru'n llunio Cynllun Dysgu a Sgiliau sy'n egluro anghenion addysgol y person ifanc a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i'w hateb.

**117.** Mae effeithiolrwydd y broses yn ddibynnol iawn ar gydweithio agos rhwng asiantaethau a mewnbwn gan amrywiaeth o asesiadau a gwybodaeth broffesiynol sydd wedyn yn cefnogi'r argymhellion yn y Cynllun Dysgu a Sgiliau. Mewn achosion cymhleth lle mae'r Cynllun Dysgu a Sgiliau yn nodi angen am ddarpariaeth arbenigol mewn coleg AB, Gyrfa Cymru sydd ar hyn o bryd yn arwain drwy gyflwyno ceisiadau am gyllid i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cwblheir oddeutu 100 o'r ceisiadau hyn bob blwyddyn, a chynhaliwyd dros 5,000 o adolygiadau pontio yn 2008–09.

**118.** Derbynion ni dystiolaeth gan Gyrfa Cymru a swyddogion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru am effeithiolrwydd y trefniadau presennol.

Mae adroddiadau arolwg Estyn yn gadarnhaol iawn ynghylch y gefnogaeth o ddydd i ddydd mae Gyrfa Cymru'n ei darparu i bobl ifanc a'u teuluoedd. Ond, yn ein trafodaethau ni, mynegwyd pryderon ynghylch ansawdd y ddarpariaeth hyfforddi bresennol ar gyfer yr arbenigedd hwn a'r ffaith fod modelau darparu gwasanaeth gwahanol yn cael eu gweithredu ar draws chwe chwmni Gyrfa Cymru. Codwyd pryderon hefyd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau cynllunio pontio ysgolion ac, yn arbennig, rai anawsterau mewn sicrhau penderfyniadau amserol a chyson ynghylch cyllido coleg arbenigol ôl-16 gan adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

**119.** Clywon ni gan swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru am yr effaith bosibl ar y galw am wasanaethau Gyrfa Cymru fydd yn codi o'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol[31]. Mae hyn yn ehangu'r diffiniad o anghenion dysgu ychwanegol ac mae'n debygol o arwain at newid statudol fydd yn ymestyn yn sylweddol y gwaith y mae Gyrfa Cymru yn ei wneud gyda'r grŵp cleientiaid yma ar hyn o bryd. Er nad yw'r diwygiad hwn yn debygol o'i weithredu'n llawn tan 2013 o leiaf, mae angen i'r posibilrwydd o bwysau cynyddol ar wasanaethau Gyrfa Cymru – ar adeg wasgfa o ran adnoddau – gael ei gydnabod o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**120.** Bydd sefydlu strwythur sengl yn rhoi cyfle i Gyrfa Cymru adolygu'r ddarpariaeth bresennol o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ar gyfer y gwasanaeth hwn. Er gall fod rhesymau hanesyddol cadarn dros y modelau darparu gwahanol – yn enwedig mewn perthynas â lleoliadau gwledig a'r ysgolion arbennig sydd ar gael – byddem hefyd yn disgwyl i Gyrfa Cymru geisio datblygu dull mwy cyson o ddarparu gwasanaeth yn y maes hwn.

## Troseddwyr ifanc

**121.** Clywon ni dystiolaeth gan swyddogion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru am y swyddogaeth bwysig y gall cyfarwyddyd gyrfaoedd ei chyflawni mewn strategaethau i ddelio â throseddu ymhlith yr ifanc. Mae adroddiadau arolwg gan Estyn wedi datgan bod trefniadau partneriaeth da rhwng cwmnïau Gyrfa Cymru a Thimau Troseddau'r Ifanc. Nodwn fod Gyrfa Cymru wedi dyrannu cynghorwr gyrfaoedd neilltuol i weithio yng Ngharchar y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n gartref i droseddwyr ifanc o Gymru a Lloegr.

---

[31] The National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Education and Training) Order 2008: www.opsi.gov.uk/si/si2008/uksi_20081036_en_1

**122.** Mynegwyd pryderon am ddiffyg cyfarwyddyd gyrfaoedd i nifer bychan o droseddwyr ifanc sy'n cyflawni eu dedfryd mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yn Lloegr. O fis Chwefror 2010, roedd 114 o bobl ifanc yn y ddalfa o Gymru rhwng 10 a 17 mlwydd oed. O'r rhain, roedd 51 wedi eu gwasgaru ar draws 13 o sefydliadau yn Lloegr fel a ganlyn: 24 mewn sefydliadau troseddwyr ifanc, 22 mewn canolfannau hyfforddiant diogel a 5 mewn cartrefi diogel i blant. O'r 63 troseddwr ifanc yng Nghymru, roedd 50 yn sefydliad troseddwyr ifanc y Parc a 13 yng nghartref diogel i blant Hillside.

**123.** Er bod adnodd y cynghorwr gyrfaoedd yng ngharchar y Parc ar gael i droseddwyr ifanc o Loegr yn ogystal ag o Gymru, cawsom ar ddeall nad yw gwasanaeth Connexions yn Lloegr yn darparu trefniant cyfatebol i droseddwyr ifanc o Gymru. Mae hyn wedi arwain at rai galwadau i gwmnïau Gyrfa Cymru anfon cynghorwyr gyrfaoedd i sefydliadau yn Lloegr yn rheolaidd. Ni allem ddarganfod beth oedd effaith ymyriadau cyfarwyddyd gyrfaoedd ar droseddwyr ifanc oherwydd diffyg strategaethau gwerthuso'r rhwystrau wrth olrhain oherwydd y gofyn i gadw troseddwyr yn ddienw unwaith y bydd unigolion wedi gadael y Stad Gadarn.

**124.** Pryder arall yw'r diffyg cynnydd parhaus mewn datblygu gwasanaethau cymorth TGCh o fewn y stad gadarn – ac yn arbennig, mynediad at GCA, i'w ddefnyddio gyda throseddwyr ifanc. Mae'r diffyg cynnydd mewn sefydlu strategaeth TGCh yn rhwystr pellach wrth roi cymorth effeithiol i droseddwyr i ddysgu a chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol. Mae hefyd yn atal y posibilrwydd o welliant nodedig yn y llif gwybodaeth am droseddwyr ifanc o'r Stad Gadarn i gynorthwyo asiantaethau sydd wedi eu lleoli yn ardaloedd eu cartrefi.

**125.** Argymhellwn felly fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn archwilio'r mater o gefnogaeth TGCh i droseddwyr ifanc gyda Bwrdd Cyfiawnder yr Ifanc (sy'n goruchwylio system Cyfiawnder yr Ifanc yng Nghymru a Lloegr) gyda'r bwriad o gyrraedd cytundeb ar ddatblygu a gweithredu gwasanaeth cefnogi yn cael ei gyfryngu i droseddwyr ifanc i'w galluogi i gofnodi eu cynnydd mewn dysgu ac edrych i mewn i ddewisiadau dysgu a gwaith pellach. Dylai'r TGCh yma hefyd fod ar gael i hwyluso trosglwyddo gwybodaeth am droseddwyr ifanc rhwng y Stad Gadarn ac asiantaethau sy'n bartneriaid yn ardaloedd eu cartrefi.

**126.** Yn absenoldeb tystiolaeth i effaith cyfarwyddyd gyrfaoedd ar gyfraddau aildroseddu gyda'r grŵp hwn, ni allwn wneud penderfyniad ynglŷn â manteision staff o Gyrfa Cymru yn teithio'n rheolaidd i sefydliadau yn Lloegr lle cedwir troseddwyr ifanc o Gymru. Deallwn fod Bwrdd Cyfiawnder yr Ifanc yng Nghymru ar hyn o bryd yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gyrfa Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu sy'n ceisio gwneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael i'r holl asiantaethau sydd â diddordeb mewn troseddwyr ifanc. Y nod yw darparu rhaglen fwy cydlynol o gefnogaeth i droseddwyr ifanc o Gymru sy'n seiliedig yng Nghymru ac yn Lloegr hefyd. Mae hyn yn newyddion amserol i'w groesawu; a byddem yn gofyn am i'r cynllun gweithredu hwn i ystyried y materion sydd wedi eu codi gan yr adolygiad hwn.

## Thema 4: Gwasanaethau gyrfaoedd ar gyfer oedolion

**127.** Yn yr adran sy'n dilyn, rydym yn archwilio'r trefniadau presennol ar gyfer gwasanaethau gyrfaoedd sy'n gweithio gydag oedolion mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, darpariaeth dysgu seiliedig ar waith, mewn cymunedau ac yn y gweithle. Rydym yn ystyried goblygiadau'r system bresennol o ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd ac yn gwneud argymhellion ar gyfer teulu o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd mwy hygyrch, cydlynol ac amlwg i hysbysu a chynorthwyo ystod eang o oedolion o wahanol gefndiroedd ac mewn lleoliadau gwahanol.

## Dysgu seiliedig ar waith ac addysg bellach

**128.** Gall myfyrwyr mewn colegau addysg bellach fanteisio ar y cyfleusterau gwasanaeth a chymorth i fyfyrwyr yn eu sefydliadau. Mae'r gwasanaethau yma'n helaeth ac yn ymdrin â threfniadau teithio, materion ariannol (grantiau, bwrsarïau a lwfansau), cyngor ar lefel bersonol, gwybodaeth fewnol a dewisiadau dilyniant cyrsiau, gan nodi cymorth ychwanegol gyda sgiliau sylfaenol (er enghraifft, asesu myfyrwyr am yr adnoddau cynorthwyol y bydd arnyn nhw eu hangen) a llawer o wasanaethau arbenigol eraill. Yn y blynyddoedd diwethaf, ategwyd at y rhain gan bresenoldeb yr anogwr dysgu a'r cynghorwr gyrfaoedd proffesiynol. Mae colegau wedi gwerthfawrogi'n fawr eu perthynas gyda chwmnïau Gyrfa Cymru ac mae'r sefydliadau i gyd wedi integreiddio'r rôl GCCh yma i mewn i'w ystod gyfan o wasanaeth i fyfyrwyr. Mae rhai colegau hefyd wedi datblygu eu staff gyrfaoedd nhw eu hunain yn ychwanegol at leoliadau uniongyrchol gan Gyrfa Cymru fel rhan annatod o'r trefniadau cynorthwyo myfyrwyr cyffredinol.

**129.** Yn wahanol i sectorau eraill, mae colegau addysg bellach yn delio ag ystod enfawr o wahanol fyfyrwyr a hyfforddeion ar lefelau gwahanol. Pobl ifanc 16 i 19 oed ar gyrsiau galwedigaethol ac academaidd yw mwyafrif y myfyrwyr llawn amser ac mae colegau hefyd yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r cytundebau dysgu seiliedig ar waith i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae rhai o'r hyfforddeion hyn yn mynychu colegau drwy gael eu rhyddhau am ddiwrnod neu drwy drefniadau rhyddhau am gyfnod o amser; ac mae gan y staff swyddogaeth bwysig o ran asesu cynnydd yn y gweithle mewn partneriaeth gyda chyflogwyr. Mae gan rai o'r darparwyr DSW sydd heb fod mewn AB hefyd berthynas gytundebol gyda cholegau i ddarparu rhan o'r ddarpariaeth a galluogi eu hyfforddeion i gael mynediad at gyfleusterau arbenigol. Gan nad ystyrir y garfan olaf hon yn hyfforddeion y coleg, efallai na fydd cytundeb rhwng darparwr DSW a'r coleg bob amser yn cynnwys y gwasanaethau cymorth ychwanegol y gall addysg bellach eu darparu ar gyfer yr unigolyn.

**130.** Mae gan golegau addysg bellach hefyd drefniadau cytundeb i gyflwyno darpariaeth alwedigaethol i'w carfan 14–16 leol. Maen nhw'n ymwneud yn sylweddol â chyflogwyr i ddarparu gwasanaethau arbenigol ar gyfer eu staff. Maen nhw'n paratoi amrediad o ddarpariaeth addysg uwch sy'n cael ei hariannu'n uniongyrchol neu drwy drefniadau breiniol gyda phrifysgolion; ac maen nhw hefyd yn denu nifer cynyddol o fyfyrwyr o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Mae rhai colegau wedi datblygu darpariaeth arbenigol ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion sgiliau sylfaenol, anableddau corfforol ac anghenion eraill. Erbyn hyn, mae llawer o golegau wedi eu lleoli ar draws nifer o safleoedd ac wedi datblygu canolfannau estyn allan i ymateb i anghenion dysgwyr sy'n oedolion. Mae'r safleoedd hyn, ac eraill yn y gymuned a'r gweithle, yn allweddol i ateb anghenion y dysgwyr sy'n oedolion; ac mae'r sector addysg bellach wedi ymroi i sicrhau bod y gefnogaeth ehangach o ran gyrfaoedd a gwasanaethau eraill ar gael i'r holl fyfyrwyr hyn. Fodd bynnag, fel prif ddarparwyr dysgu cymunedol, mae angen i'r colegau a'u partneriaid sicrhau fod y cynnig gwasanaeth o ran GCCh gyrfaoedd yn cael ei gyfleu i'r holl ddarparwyr cymunedol. Er na wyddom am ddiffygion o bwys yn y maes hwn ynglŷn â cholegau, mae gan Estyn rôl allweddol mewn asesu a yw'r holl fyfyrwyr mewn addysg bellach – waeth beth fo'u cefndir na'u llif cyllid – yn cael mynediad cyfartal at adnoddau a gwasanaethau.

**131.** Yn wahanol i addysg bellach, sylwon ni ar amrywiaeth sylweddol yn y trefniadau partneriaeth rhwng darparwyr hyfforddiant preifat a gwasanaethau gyrfaoedd o ran darparu GCCh i hyfforddeion DSW ac i brentisiaid dros 19 mlwydd oed. Credwn y gallai rhoi rôl fwy i addysg bellach yn y cyfeiriad hwn gael effaith ar ansawdd ac argaeledd cyffredinol cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i ddysgwyr yn y gweithle; a bydd gan y corff Gyrfa Cymru sengl gyfrifoldeb i sicrhau bod hyfforddeion DSW sy'n cael eu recriwtio gan ddarparwyr hyfforddiant preifat a hefyd y myfyrwyr heb gyllid addysg bellach mewn lleoliadau cymunedol yn cael mynediad cyson a theg at y gwasanaethau hyn.

**132.** I'r myfyrwyr hynny mewn colegau addysg bellach sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch, mae nifer o broblemau posibl yn codi. O ran y rheiny sy'n cael eu cyllido'n uniongyrchol drwy CCAUC neu drwy ffynonellau heb fod yn rhai cyhoeddus, rydym yn hyderus bydd y colegau addysg bellach dan sylw yn darparu'r gwasanaethau GCCh gyrfaoedd angenrheidiol, fel sy'n ofynnol, fel rhan o'r pecyn cyfan sydd ar gael o wasanaethau cymorth i fyfyrwyr. Fodd bynnag, i fyfyrwyr addysg uwch ar gyrsiau mewn addysg bellach, drwy drefniadau breinio gyda phrifysgolion, gallai'r darlun fod yn eithaf gwahanol. Lle mae trefniadau breinio o'r fath yn bod rhwng sefydliadau sydd yn gymharol agos i'w gilydd yn ddaearyddol, rydym yn hyderus nad yw cael mynediad at wasanaethau cymorth yn

broblem. Ond, i'r myfyrwyr addysg uwch hynny sydd beth pellter oddi wrth eu prif sefydliad, nid ydym mor ffyddiog nad yw'n nhw dan anfantais o ganlyniad i ddiffyg mynediad naill ai at GCGAU y sefydliad addysg uwch sydd yn breinio nac at wasanaethau cymorth y coleg addysg bellach lle cân nhw eu hyfforddi. Mae angen eglurder ynghylch hyn yn y trefniant cytundeb rhwng y sefydliadau dan sylw.

**133.** Gyda nifer cynyddol o fyfyrwyr yn dilyn graddau sylfaen a chyrsiau addysg uwch eraill mewn sefydliadau addysg bellach, niferoedd sylweddol o fyfyrwyr yn tynnu'n ôl o gyrsiau mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, a chyda mwy o gyfuno'n cael ei gynnig yn y ddau sector, mae unrhyw ddiffyg eglurder ynglŷn â'r darparwyr gwasanaeth gyrfaoedd perthnasol a ffiniau gwasanaeth yn anfoddhaol. Gallai hyn, ar y gorau, arwain at ddatblygu gwasanaeth aml-haen i fyfyrwyr mewn colegau addysg bellach; ac, ar ei waethaf, arwain at ddryswch i fyfyrwyr ynglŷn â ble i fynd am gymorth. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru na CCAUC wedi cyhoeddi arweiniad ynghylch hyn; ac eto mae'r dystiolaeth a glywon ni yn awgrymu bod angen arweiniad o'r fath ac y câi ei groesawu gan yr holl ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd dan sylw.

## Y rhyngwyneb rhwng Gyrfa Cymru a Gwasanaethau Cynghori ynghylch Gyrfaoedd Addysg Uwch (GCGAU)

**134.** Mae gan bob sefydliad addysg uwch ei wasanaethau cynghori ynghylch gyrfaoedd ei hun; ac, er bod rhain yn amrywio'n sylweddol o ran maint a swyddogaeth, maen nhw fel rheol yn darparu cyfarwyddyd gyrfa yn ogystal â gwasanaethau eraill (er mai cyfyngedig iawn yw'r cyfle i gael cyfweliad gyrfaoedd yn rhai sefydliadau)[32]. Cydnabyddir yn gyffredinol mai system ddarparu wahaniaethol ar sail angen a weithredir yn bennaf gan wasanaethau cynghori gyrfaoedd mewn addysg uwch ar draws y DU.

**135.** Roeddem felly wedi gobeithio elwa'n sylweddol o brofiad y gwasanaethau gyrfaoedd addysg uwch. Fodd bynnag, llesteiriwyd hwn i raddau gan ddiffyg cyffredinol gwybodaeth sylfaenol am adnoddau, lefelau gweithgarwch ac asesiad o effaith eu gwasanaethau. Cawsom anhawster i gael trosolwg cywir o'r graddau y mae'r GCGAU yn cael eu harolygu'n allanol, ac eithrio eu hymrwymiad gwirfoddol i asesiad matrics. Er bod ganddyn nhw rwydwaith cryf iawn, roedd GCGAU yn cyflwyno'u gwasanaethau

---

[32] Cafodd natur y gwasanaethau hyn ei dadansoddi'n fanwl yn *A Survey of Careers Service Provision in Welsh Institutions in Higher Education*, a baratowyd gan ASW Consulting a Minds at Work ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac ar gyfer ELWa yn 2002. Nid yw'r adroddiad, fodd bynnag, ar gael i'r cyhoedd.

a’u cynnyrch fel rhan o’r cymorth yr oedd gan fyfyrwyr hawl iddo yn eu sefydliad nhw eu hunain.

**136.** A derbyn bod pob sefydliad yn gorfod cystadlu am fyfyrwyr, prif benderfynydd eu cynnig o wasanaeth gyrfaoedd yw canolbwyntio ar anghenion arbennig eu myfyrwyr eu hunain, yn hytrach na’r rhan y maen nhw’n ei chwarae o fewn y system ehangach o ddarpariaeth gwasanaethau gyrfaoedd. O ganlyniad, ni fu’n bosibl cymharu eu gwasanaethau’n uniongyrchol gyda’r gwasanaethau a ddarperir gan gwmnïau Gyrfa Cymru. Yn wir, adroddai’r GCGAU eu bod yn darparu gwahanol fath o wasanaeth i ‘gleientiaid hollol wahanol’. Roedden nhw’n dweud bod eu gwaith yn canolbwyntio ar fyfyrwyr yn astudio ar gyfer eu gradd gyntaf neu gyrsiau ôl-radd a graddedigion yn ystod y cyfnod cychwynnol o chwilio am waith ar ôl gadael y brifysgol cyn belled â’u cyrchfan waith gyntaf. Hysbyswyd ni gan gynrychiolwyr y GCGAU fod 58 y cant o’r myfyrwyr sy’n astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn dod o Gymru, 26 y cant o rannau eraill o’r DU a 16 y cant o wledydd tramor[33].

**137.** Nid oedd y GCGAU yn gweld darparu gwasanaethau gyrfaoedd ar wahân i fyfyrwyr prifysgol fel datgysylltiad oddi wrth y gwasanaethau gyrfaoedd pob oed a phob gallu a ddarperir gan Gyrfa Cymru. Roedden nhw’n ystyried y blynyddoedd mewn prifysgol fel ‘digwyddiad ar wahân’, y tu allan i broses y dilyniant o addysg i waith a ddilynir gan y rai nad yw’n nhw’n raddedigion. Yn gryno, roedden nhw’n ystyried fod graddedigion ar lwybr gwahanol i mewn i waith a’r proffesiynau ac nid yw hyn mewn unrhyw ffordd wedi ei gyfyngu’n ddaearyddol i Gymru.

**138.** Er bod y GCGAU yn ceisio monitro data cyrchfannau gwaith cyntaf drwy gyfrwng eu harolygon dilynol pwrpasol eu hunain, nid oes gofyn iddyn nhw ac nid ydyn nhw’n cael eu cyllido’n benodol ychwaith i fonitro ail a thrydedd gyrchfan; ac felly mae mesuriad eu heffaith yn gyfatebol gyfyngedig. Adroddwyd bod ystyriaethau gwarchod data ac adnoddau cyfyngedig yn cyfyngu ar fonitro dilyniant gyrfa graddedigion yn y tymor hir drwy gyfrwng ffynonellau gwybodaeth olrhain eraill megis cronfeydd data Gyrfa Cymru a Jobcentre Plus. Mae’r ffaith fod graddedigion yn fwy symudol o lawer ac felly wedi eu gwasgaru’n ehangach na llawer o bobl eraill yn y farchnad lafur yn darbwyllo’r rhan fwyaf o GCGAU i beidio â rhoi cynnig ar broffilio hydredol tu hwnt i’r gyrchfan gyntaf, er bod niferoedd sylweddol o raddedigion yn dod yn ôl i mewn i’r farchnad lafur yn nes ymlaen ac mae llawer o’r rhain yng Nghymru yn ail gysylltu â Gyrfa Cymru yn yr amgylchiadau hyn.

---

33 Stats Cymru – www.statswales.wales.gov.uk/ReportFolders/reportFolders.aspx

**139.** Er ein bod yn gwerthfawrogi cryfder dadl y GCGAU gyda golwg ar fyfyrwyr o rannau eraill yn y DU ac o wledydd tramor sy'n byw dros dro yng Nghymru, nid ydym yn ystyried bod y darnio yma ar y dull pob oed o ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru yn gweithio er lles mwyaf y myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ac yn mynychu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru nac er lles eraill sydd yn bwriadu byw a gweithio yma ar ôl graddio. Wrth i nifer y myfyrwyr sy'n tynnu allan o golegau barhau i gynyddu ac wrth i ddiweithdra a thanweithdra graddedigion ddal i gynyddu mewn marchnadoedd llafur tyn, mae'n hanfodol bod y GCGAU, Gyrfa Cymru a Jobcentre Plus yn cydweithio'n agosach mewn partneriaeth i ddarparu cefnogaeth fwy integredig i'r myfyrwyr hynny sy'n mynd i mewn i addysg uwch ac yn ei gadael ac yn cael anhawster i benderfynu ar lwybrau gyrfa neu, yn ddiweddarach yn dod o hyd i waith priodol yng Nghymru.

**140.** Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth o gytundebau lefel gwasanaeth a memoranda dealltwriaeth wedi eu sefydlu rhwng sefydliadau addysg uwch unigol a'r cwmnïau Gyrfa Cymru unigol. Gwelwn botensial sylweddol i symud tuag at drefniadau cydweithio mwy safonol ledled Cymru, o ganlyniad i'r uno arfaethedig ar gorff Gyrfa Cymru, yn enwedig gyda golwg ar:

- paratoi unigolion ar gyfer prifysgol
- cynorthwyo myfyrwyr addysg uwch mewn colegau addysg bellach, y rhai sy'n tynnu allan o addysg uwch a myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
- rhannu data LMI a gweinyddu o ran ymgysylltu â chyflogwyr, profiad gwaith a chyfleoedd profiad gwaith
- datblygu gwasanaethau GCCh gyrfaoedd rhyngweithiol i fyfyrwyr a graddedigion gan gynnwys y rhaglen bwrpasol Cyfleoedd i Raddedigion (GO Cymru)
- olrhain datblygiad gyrfaoedd graddedigion sy'n byw yng Nghymru y tu hwnt i'w cyrchfan gyntaf
- darparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i weithwyr gyrfaoedd proffesiynol ar y cyd gydag aelodau eraill y teulu o wasanaethau gyrfaoedd ar draws Cymru.

**141.** Yn wir, rydym yn gweld bod ad-drefnu arfaethedig Gyrfa Cymru, yn un corff sengl, yn cynnig cyfle euraid i sicrhau newid mawr mewn cydweithredu o'r fath. I ddechrau bydd hyn golygu bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru, mewn cydweithrediad gyda CCAUC, gynhyrchu canllawiau polisi clir am yr hyn sydd i gael ei gyflawni yn y meysydd hyn a thros ba gyfnod. Bydd hyn yn gofyn am lunio Memorandwm Dealltwriaeth ffurfiol rhwng Addysg Uwch Cymru (ar ran y gwahanol wasanaethau gyrfaoedd addysg uwch) a'r corff Gyrfa Cymru sengl ynghylch gweithio ar y cyd yn y dyfodol; a phenderfynu ar gynllun gweithredu cyffredin i bawb, yn unol â darpariaethau'r Memorandwm Dealltwriaeth, ar gyfer cyflawni amcanion y polisi. Mae'r Memorandwm Dealltwriaeth presennol a'r cynllun gweithredu cyffredin rhwng Gwasanaethau Gyrfaoedd y Brifysgol Agored a Gyrfa Cymru yn esiampl o arfer da yn hyn o beth.

## Yr hawl lleiaf a grwpiau blaenoriaeth o fewn GCGAU

**142.** Nid oes isafswm hawl i wasanaeth gyrfaoedd wedi ei ragnodi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru na chan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC); ac, er bod yna brotocol cyffredin rhwng GCGAU wrth ddarparu gwasanaethau, mae ystod y gwasanaethau a ddarperir mewn gwahanol sefydliadau addysg uwch yn dibynnu ar ddewis y sefydliadau unigol. Mae maint y gefnogaeth yn dibynnu i raddau helaeth ar anghenion a galwadau myfyrwyr unigol sy'n defnyddio'r gwasanaethau, yn hytrach nag ar adnabod unrhyw grwpiau blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â chyllid craidd.

**143.** Ar ben hyn, yn absenoldeb arolygu allanol, ymddengys nad oes modd dangos bod ansawdd yn cael ei reoli ond drwy hunanwerthusiad gwirfoddol yn erbyn safon y matrics ac mewn adolygiadau sefydliadol sefydliadau addysg uwch gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) mewn Addysg Uwch. Dywedodd y gwasanaethau cynghori ynghylch gyrfaoedd addysg uwch y bydden nhw'n croesawu peth arweiniad canolog ar isafswm hawl y myfyriwr; a bydden ni'n gweld hynny fel y cam cyntaf hanfodol tuag at sicrhau darpariaeth gynyddol gyson rhwng sefydliadau addysg uwch. Fodd bynnag, hoffem hefyd weld arweiniad o'r fath yn nodi grwpiau blaenoriaeth, y mae'r GCGAU i ymroi i ymwneud â nhw, ynghyd â gofynion penodol o ran adrodd am yr effaith ar lefel y sefydliad ac ar lefel leol.

## Rheoli ansawdd ac arolygu GCGAU

**144.** Yn ei adolygiad o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru canfu'r ASA[34] fod y GCGAU yn dilyn addysg gyrfaoedd a themâu cyflogadwyedd yn drwyadl. Fodd bynnag, er bod cynnydd wedi ei wneud wrth weithredu cynlluniau datblygiad personol yn y rhan fwyaf o sefydliadau, gwelid amrywiadau yn y defnydd ohonyn nhw. Nodwn fod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth tri pharti rhwng yr ASA, CCAUC ac Estyn (a lofnodwyd ym mis Ionawr 2010)[35] yn anelu at sicrhau bod y tri chorff yn rhannu arbenigedd i ddatblygu a chefnogi gwelliant wrth reoli ansawdd addysg uwch yng Nghymru.

**145.** Nodwn gyda diddordeb hefyd fod Cod Ymarfer diwygiedig yr ASA[36] yn datgan:

> Students pursue a wide range of subjects in higher education at different points in their life and take up an increasingly diverse range of post-study destinations. Consequently, the CEIAG needs of students are diverse and require staff with high-level skills in career advice and guidance, and an increasingly sophisticated knowledge and understanding of the graduate labour market. Linked to this, students in higher education are exposed to highly complex messages about their career development and benefit from CEIAG to help them analyse, evaluate and articulate their responses. In addition, CEIAG takes place within the formal and informal curriculum, and this demands high-level pedagogical skills and knowledge, including the ability to link this to career information resources and liaison activity with employers and other opportunity providers.

**146.** I atgyfnerthu hyn ac i fod yn sail i ddatblygu safonau ansawdd cyson ar draws yr holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, rydyn ni'n argymell yn gryf y dylid cyflwyno arolygu allanol ar y cyd gan ASA ac Estyn o wasanaethau cynghori ynghylch gyrfaoedd sefydliadau addysg uwch unigol yng Nghymru, ar yr amod fod y pwerau statudol angenrheidiol wedi eu sefydlu iddyn nhw gyflawni'r swyddogaeth hon. Dylai hyn ymestyn i'r rhyngwyneb gyda Gyrfa Cymru, y PABau, colegau addysg bellach a darparwyr gwasanaeth cysylltiedig eraill o fewn cwmpas nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

---

34 Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch – www.qaa.ac.uk/wales/default.asp

35 www.qaa.ac.uk/aboutus/memoranda/HEFCW_ESTYN.pdf

36 *Code of practice for the assurance of academic quality and standards in higher education* (Adran 8, Career education, information, advice and guidance) www.qaa.ac.uk/academicinfrastructure/codeOfPractice/default.asp

## Deialog gyrfaoedd yn y gweithle a lleoliadau dysgu cymunedol

**147.** Mae'r ymchwiliad annibynnol i ddyfodol dysgu gydol oes (The Independent Inquiry into the Future for Lifelong Learning (IFLL))[37], a noddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE) yn 2009, wedi casglu tystiolaeth gan ystod eang o arbenigwyr, a dysgwyr, ac wedi canfod consensws bras ar gyfer dyfodol dysgu gydol oes yn y DU. Gosodai'r canfyddiadau weledigaeth glir ynghylch swyddogaeth a gwerth ychwanegol cyfraniad dysgwyr hŷn i economi'r DU; ac roedden nhw'n hybu'r angen i ailgydbwyso cymorth ar draws ystod oedran llawer ehangach o'i gymharu â'r pwyslais sylweddol presennol ar bobl ifanc.

**148.** Sylwon ni mai ychydig o strategaeth, unffurfiaeth na chydlynu oedd i'w weld o ran y cymorth ynghylch gyrfaoedd a roddwyd i ddysgwyr oedd yn oedolion. Mae hyn i ryw raddau'n llai o angen brys i'r myfyrwyr rhan-amser hynny sy'n astudio ar gyrsiau byrion mewn colegau neu brifysgolion, er hyd yn oed yn y fan yma sylwn fod angen am wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd gwell ynghylch dysgu pellach. Sylwon ni hefyd fod nifer sylweddol o ddysgwyr rhan-amser – yn ôl tystiolaeth y Brifysgol Agored – tu allan i gyflogaeth, yn aml gyda chyfrifoldebau mawr megis gofalu am eraill. Mae cyngor a chyfarwyddyd gyrfa yn wasanaeth hollbwysig sy'n trawsnewid bywyd i'r myfyrwyr aeddfed hyn; ac, ar hyn o bryd, mae perygl gallen nhw fod yn methu allan ar gymorth y gwasanaethau gyrfaoedd.

**149.** Mae'r darlun yn fwy niwlog ynghylch darparu cymorth gyrfaoedd i'r oedolion hynny sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau byrion mewn mannau eraill – yn aml mewn canolfannau cymunedol ac allanol. Mae'r gwasanaethau yma ar hyn o bryd yn cael eu harolygu gan Estyn drwy gonsortia Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG). Nodwn fod cysylltiad rhwng yr amrywiaeth yn y cymorth a'r nifer sylweddol o fentrau a phrosiectau DOG a gyllidir drwy ffynonellau amrywiol (megis Cronfa Gymdeithasol Ewrop, masnachfreintiau Mentrau Cyflogaeth Deuluol gydag awdurdodau lleol, a grantiau CCAUC i brifysgolion am ehangu mynediad).

**150.** Dylai cymorth gyrfaoedd, o fewn lleoliadau DOG a chanolfannau eraill ar gyfer darpariaeth addysg ran-amser, fod wedi ei ddiffinio'n gliriach. Mae angen dybryd i ddiffinio'r safonau

37 www.lifelonglearninginquiry.org.uk

gofynnol ar gyfer 'cyfeirio tuag at gyflogadwyedd a chefnogaeth' o fewn maes DOG a darparu gwasanaeth sy'n fwy cyson. Dangosodd ymchwil ddiweddar[38] mai cymryd rhan mewn DOG yn aml yw'r cam cyntaf tuag at ail gydio mewn gwaith i oedolion sydd wedi bod yn ddibynnol ar fudd-daliadau a chymhorthdal incwm.

**151.** Clywson ni gan TUC Cymru a chynrychiolwyr cyflogwyr fod dysgu oedolion yn y gweithle wedi cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus iawn gan Gynrychiolwyr Dysgu'r Undeb (CDU), yn arbennig yn y sector cyhoeddus lle mae'r rhain wedi ymsefydlu yn ehangach. Roedd NIACE hefyd yn gweld CDU a Chynrychiolwyr Dysgu yn y Gymuned (CDG) fel rhai oedd yn meddu ar swyddogaeth bwysig o ran newid barn, cyfeirio a chefnogi. Rydym yn rhannu'r safbwyntiau hyn ac yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi recriwtio mwy o'r cynrychiolwyr hyn, yn enwedig mwy o CDU yn y sector preifat, lle y gallan nhw gael dylanwad catalytig hollbwysig yn annog gweithwyr eraill i ddiweddaru a gwella'u sgiliau.

**152.** Rydym yn meddwl fod lle i CDU a CDG ehangu eu swyddogaethau cyfeirio a chefnogi yn y maes cynllunio gyrfaoedd. Gallen nhw hefyd fod o gymorth i gyflogwyr i ddatblygu cyfleoedd profiad gwaith priodol i bobl ifanc a dysgwyr sy'n oedolion sy'n chwilio am waith. Byddai hyn yn golygu sefydlu rhaglen hyfforddi oedd yn cael ei hachredu'n briodol ar sail mynediad o bell neu wasgaredig er mwyn denu rhai i'w dilyn. Byddai'n fanteisiol i raglen o'r fath gynnwys ymgyfarwyddo â mynediad ar-lein a thros y ffôn i Gyrfa Cymru, gan fod nifer o ddysgwyr sy'n oedolion ifanc wedi dod yn gyfarwydd â defnyddio cyfryngau TGCh ac yn eu hoffi'n well na chysylltiad wyneb yn wyneb; a chan fod llawer o oedolion hŷn gyda chyfrifoldebau gwaith a theulu yn ei chael yn anodd teithio i gyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda chynghorwyr gyrfaoedd.

**153.** Byddai'n fanteisiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, cyflogwyr, Gyrfa Cymru, Jobcentre Plus, ac, wrth gwrs, y darparwyr addysg ddatblygu'r grymoedd maes gwerthfawr yma gan fod y CDU a'r CDG mewn sefyllfa dda i wneud y cysylltiadau cychwynnol ac i ddadlau yn erbyn cyfyngiadau stereoteipio a symudoledd cymdeithasol sy'n dylanwadu ar uchelgais mewn addysg a gyrfa.

---

[38] Centre for Research on the Wider Benefits of Learning: A sample of research reports www.learningbenefits.net/Publications/ResRepIntros/ResRep11intro.htm

## Thema 5: Agenda Diwygio Lles

**154.** Yn yr adran hon rydym yn archwilio'n fyr effaith bosibl Agenda Diwygio Lles Llywodraeth y DU a'r goblygiadau ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau gyrfaoedd. Rydym hefyd yn myfyrio ar yr agenda rheoli gyrfa a chyflogadwyedd sy'n debygol o effeithio ar oedolion yn y gweithle a thu allan iddo, yn benodol mewn ymateb i ddiswyddiadau cynyddol a diffyg sgiliau ledled Cymru. Ceisiodd y Grŵp Adolygu gael mwy o eglurder i ddeall cynlluniau'r Adran Waith a Phensiynau ar gyfer Gwasanaeth Cyflogaeth Integredig, gan dalu sylw neilltuol i rôl bosibl darparwyr gwasanaeth gyrfaoedd.

## Gwiriadau iechyd sgiliau

**155.** Agorodd Deddf Diwygio Lles (2009) y ffordd i ddiwygiad enfawr yn y system fudd-daliadau, asesiadau sgiliau, strategaethau chwilio am waith a gweithgareddau cysylltiedig â gwaith. O wybod bod yr economi bellach yn wynebu heriau newydd ac anodd, mae angen cynyddol i wella sefyllfa unigolion i fod yn barod i ymateb yn gadarnhaol i farchnadoedd swyddi newidiol ac anodd eu rhagweld. Nododd Leitch (2006)[39] ac adroddiad *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* (2008)[40] wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd fel elfen allweddol mewn gwella sylfaen sgiliau'r DU. Tair blynedd yn ddiweddarach, daeth yn eglur fod yr angen yn parhau i ddwyn gwasanaethau cefnogi mwy cyfannol ynghyd ar gyfer oedolion, yn enwedig y rheiny sydd allan o waith ac mewn angen am gymorth ychwanegol. Mae aliniad agosach rhwng darparwyr gwasanaeth gyrfaoedd a Jobcentre Plus yn awr yn realiti yng Nghymru gydag enghreifftiau o gydweithredu, cyfathrebu a chyd-drafod yn amlwg ar lefel leol.

**156.** Rhoddodd cynrychiolwyr cyflogwyr dystiolaeth i ni yn dangos bod y bwriad i ffurfio gwasanaeth gyrfaoedd gwell i oedolion – wedi ei alinio'n well gyda Jobcentre Plus – yn ddatblygiad i'w groesawu yng Nghymru. Ystyriwyd y cynnydd sydd wedi ei wneud mewn perthynas â gweithredu'r 'Gwiriad Iechyd Sgiliau' newydd a chawsom ar ddeall fod yr amrediad o gleientiaid posibl bydd y 'Gwiriad Iechyd Sgiliau' efallai'n berthnasol iddyn nhw'n cynnwys y rheiny:

- mewn gwaith sy'n ceisio symud ymlaen
- sydd angen cynyddu eu sgiliau er mwyn aros mewn gwaith

39 Leitch Review of Skills: Prosperity for All in the Global Economy – World Class Skills (Rhagfyr 2006).
www.official-documents.gov.uk/document/other/0118404792/0118404792.pdf

40 *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ionawr 2008).
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau (gweler ardal 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yn adran 'Polisïau a Strategaethau' y wefan)

- sydd allan o waith ond yn ceisio gwaith neu'n economaidd segur.

## Datblygu'r cysyniad o 'Grisiau Gyrfaoedd'

**157.** Gwelsom fod y berthynas rhwng gwasanaethau Jobcentre Plus a gwasanaethau gyrfaoedd ledled y DU yn raddol ddatblygu. Ar hyn o bryd, mae Jobcentre Plus a gwasanaethau gyrfaoedd i oedolion yn dal ar wahân er bod cysylltiadau gweithio agosach wrthi'n cael eu sefydlu ledled y DU. Yng Nghymru, cynigiwyd y model Cyflogaeth a Sgiliau Integredig a amlinellwyd yn *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*[41] ac mae hwn bellach yn cael ei gryfhau gan gysyniad 'grisiau gyrfa.

**Grisiau Gyrfa Cymru**

- Cam 1: Cysylltu â/Ennyn diddordeb pobl ddi-waith ac economaidd segur.
- Cam 2: Camu Ymlaen: gwasanaeth anogaeth ynghylch gwaith.
- Cam 3: Camu i Fyny: cynnig integredig yn cefnogi sgiliau a chyflogaeth yng Nghymru (rhaglenni gwaith, rhaglenni datblygu sgiliau, dulliau lleol).
- Cam 4: Camu Allan: mynediad at swyddi gwag.
- Cam 5: Symud Ymlaen: cefnogaeth yn y gwaith.

**158.** Clywson ni dystiolaeth, er bod trefniadau lleol rhwng Jobcentre Plus a Gyrfa Cymru yn aml yn effeithiol, fod her strategol yn parhau o ran dylanwadu ar benderfyniadau polisi'r Adran Gwaith a Phensiynau ar lefel genedlaethol. Mae problem gysylltiedig yn ymwneud â'r rheoliadau sy'n cefnogi'r Agenda Diwygio Lles, a'r dylanwad neu'r disgresiwn fydd gan Gymru wrth eu datblygu a'u gweithredu. Credwn felly fod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu ei gallu ymhellach i ddylanwadu ar y polisïau sy'n cael eu llunio yn yr Adran Gwaith a Phensiynau ar lefel swyddogion uwch, er mwyn sicrhau bod yr amgylchiadau, yr anghenion a'r trefniadau unigryw yng Nghymru yn cael ystyriaeth lawn. Mae sefydlu'r Cyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth i Gymru, o bosibl, yn cynnig ffordd gadarnhaol ymlaen.

---

41 *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ionawr 2008).
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau (gweler ardal 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yn adran 'Polisïau a Strategaethau' y wefan)

**159.** Mae cynnydd tuag at wireddu gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Integredig (CSI) yng Nghymru wedi ei gymhlethu gan y galwadau ar y system les o ganlyniad i'r dirywiad economaidd. Gwelsom fod atgyfeiriadau at Gyrfa Cymru i gefnogi'r di-waith a'r rheiny oedd wedi cael rhybudd o ddiswyddiad wedi cynyddu'n sylweddol – o 2,800 o gyfweliadau'r mis ar gyfartaledd rhwng Ebrill a Medi 2008 i bron 4,800 o gyfweliadau'r mis ar gyfartaledd rhwng Hydref 2008 a Rhagfyr 2009. Rydym yn cydnabod bod Gyrfa Cymru wedi derbyn cyllid ychwanegol am gyfnod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo i reoli'r cynnydd yn y galw; ond ni chlywon ni dystiolaeth i awgrymu bod y galw ychwanegol posibl yn y dyfodol am wasanaethau GCCh o atgyfeiriadau'r gwasanaeth cyflogi cyhoeddus wedi eu pwyso a'u mesur eto; na bod gwiriadau wedi eu cynnal ar allu Gyrfa Cymru i ymdopi â galw pellach. Credwn fod ar lunwyr polisïau a chyrff darparu yng Nghymru angen datganiad cliriach gan Lywodraeth y DU o'r galw ychwanegol a ddisgwylir.

**160.** Ar wahân i amcangyfrifon o'r fath, ceir cydnabyddiaeth gynyddol yng Nghymru y gall gwasanaethau gyrfaoedd pob oed a phob gallu gyflawni swyddogaeth o bwys drwy helpu i roi cymhelliant i'r gweithlu wella'u sgiliau, yn ogystal â darparu gwasanaethau newydd ar gyfer y rheiny sydd allan o waith ac yn economaidd segur. Yn ddiamau, mae effaith agenda Diwygio Lles Llywodraeth newydd y DU yn debygol o osod galwadau newydd a chynyddol ar y gwasanaethau gyrfaoedd a ddarperir i oedolion. Mae hyn yn atgyfnerthu ymhellach y ddadl dros system ddarparu 'tair prif sianel', wedi ei hintegreiddio'n llawnach, yng Nghymru fydd yn cyflenwi darpariaeth Jobcentre Plus.

**161.** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Gyrfa Cymru a Jobcentre Plus Cymru ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn arbrofion ar raddfa fechan i roi cynnig ar ddulliau o weithio'n agosach. Bydd yr arbrofion hyn yn parhau hyd fis Mawrth 2011. Yn dilyn hyn, argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn arwain astudiaeth ddichonoldeb – mewn cydweithrediad â Gyrfa Cymru a Jobcentre Plus – ar gyfer gwasanaethau gwahaniaethol i oedolion, gan ddefnyddio gwasanaethau wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar y we (gan gynnwys datblygiadau TGCh megis safleoedd rhwydweithio cymdeithasol). Yn ogystal â hyn, awgrymwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r grwpiau blaenoriaeth oedolion presennol a'u hawl i wasanaeth, gan gymryd i ystyriaeth y datblygiadau yn yr agenda o Fudd-dal i Waith a thueddiadau cymdeithasol ac economaidd diweddar a'r tueddiadau yn y farchnad lafur.

**162.** Yn ychwanegol at y cynnydd yn lefelau'r galw am wasanaethau, mae'r aliniad agosach arfaethedig gyda gwasanaethau cyflogaeth y sector cyhoeddus yn gosod heriau newydd i staff Jobcentre Plus, anogwyr dysgu a chynghorwyr gyrfaoedd sy'n gweithio gydag oedolion. Mae cynghorwyr gyrfaoedd ac anogwyr dysgu sydd wedi eu hyfforddi'n broffesiynol yn tueddu i'w disgrifio eu hunain fel pobl sy'n gleient-ganolog ac nid yw eu rolau'n ffitio'n esmwyth gyda rhai agweddau ar y swyddi yn y system fudd-daliadau lle mae rhai gweithredoedd yn 'fandadol' fel amod ar gyfer derbyn budd-daliadau. Ni chlywsom dystiolaeth gref i gefnogi nac i herio'r farn y gall alinio gwasanaethau gyrfaoedd yn agosach gyda hawliau budd-daliadau gael effaith anffafriol ar ganfyddiad y cleient o wasanaethau GCCh; ond roedd y rhai buon ni'n siarad â nhw yn cydnabod mai prif 'fantais gwerthu' gwasanaethau Gyrfa Cymru yw ansawdd ddiduedd, annibynnol, a phroffesiynol y gwasanaethau.

**163.** Ar hyn o bryd, mae llunwyr polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau eto i benderfynu gofynion rhan y gwasanaeth gyrfaoedd yn y CSI tu hwnt i'r trefniadau lleol ad hoc presennol. Mae angen mynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth strategol fel y gall y gwasanaeth gyrfaoedd sengl arfaethedig ar gyfer Cymru nodi a dyrannu adnoddau addas, yn ogystal â phenderfynu'r graddau y gellir defnyddio'n hawdd arbenigedd presennol y staff, pryd ac fel y bydd angen. Os bydd GCCh gyrfaoedd yn dod yn rhan annatod o atgyfeiriadau cysylltiedig â hawl i fudd-dal, bydd ateb y galw hwn yn gofyn am newid diwylliannol a rhaglenni cynefino a datblygiad proffesiynol parhaus mawr i'r staff sy'n gweithio yn y ddau gorff.

**164.** Er mwyn i'r gwasanaethau CSI fod yn wirioneddol 'integredig', bydd angen datblygu systemau i olrhain cwsmeriaid drwy hyfforddiant ac ymlaen i waith er mwyn dangos gwerth ac effaith ystod o ymyriadau a gwasanaethau cymorth. Mae'r penderfyniad i ddarparu gwasanaethau Gyrfa Cymru drwy strwythur sengl yn rhoi cyfle clir i ddatblygu system Reoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (RhCC) gyffredin ar gyfer Gyrfa Cymru i gynnwys cymorth ar-lein, dros y ffôn ac ar y we i'r holl gleientiaid yng Nghymru. Mae hyn yn rhywbeth mae Gyrfa Cymru Ar-lein o bosibl a system reoli cysylltiadau cwsmeriaid y Brifysgol Agored eisoes yn cynnig sylfaen da ar ei gyfer; ond mae'n faes arall lle bydd angen buddsoddiad cychwynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn darparu system weinyddu ac olrhain mwy effeithlon ac effeithiol yn y dyfodol.

## Thema 6: Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol

**165.** Yn yr adran hon, yr ydym yn ychwanegu ar ein sylwadau cynharach fod y sector yn hynod o eang gyda diddordebau mewn addysg gyrfaoedd a phrofiad sy'n canolbwyntio ar waith sy'n ymestyn o'r ysgol gynradd hyd at lefel ôl-radd, a gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd, asesu sgiliau a lleoliadau gwaith yn cynnwys pob oed. Rydym yn ystyried y posibiliadau ar gyfer gwella cymwysterau, sefydlu canolfan rhagoriaeth mewn ymchwil, polisi ac ymarfer gyrfaoedd, i godi safonau proffesiynol a llunio strategaeth newydd i ddatblygu'r gweithlu.

### Cymwysterau ar gyfer ymarferwyr gwasanaethau gyrfaoedd

**166.** Daethon ni i ddeall fod Lifelong Learning UK wedi cyhoeddi fframweithiau credydau cymwysterau, cymwyseddau a dilyniant gyrfa newydd, pob un wedi ei ddylunio i gryfhau gallu ac ansawdd darpariaeth ar gyfer y rheiny sy'n dechrau gweithio yn y teulu o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd. Mae lle sylweddol i gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch ganolbwyntio ar y ffordd orau i gymhwyso'r fframweithiau hyn yng Nghymru, yn benodol wrth ehangu mynediad, hybu amrywiaeth yn y gweithlu ac adeiladu gallu.

**167.** Ar hyn o bryd rydym dan yr argraff nad oes llwybr dilyniant cydlynol na chynllun parhad ar gyfer datblygiad proffesiynol y teulu gyrfaoedd. Un cwrs Cymhwyster mewn Cyfarwyddyd Gyrfaoedd sydd i'w gael yng Nghymru; ac mae'n ymddangos bod anhawster gyda'r rhaglen hon am nad yw'n ateb anghenion cwmnïau gyrfaoedd Gogledd Cymru, oherwydd y pellter daearyddol a'r diffyg addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ehangder a dyfnder gweithgareddau gyrfaoedd yn eu hunain yn mynnu bod datblygiad a hyfforddiant proffesiynol yn cael ei ddarparu gan amrywiaeth o ddarparwyr addysg bellach ac uwch, yn ogystal â chyrff hyfforddi preifat. Cawson ni ar ddeall fod cwmnïau Gyrfa Cymru wedi dechrau cydweithio gyda sefydliadau addysg uwch lleol i edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu rhaglenni hyfforddi ar y cyd, ond mae hyn bellach yn dibynnu ar ganlyniadau'r corff sengl newydd arfaethedig.

## Datblygu canolfan rhagoriaeth

**168.** Awgrymwn y dylai sefydliadau addysg uwch a Gyrfa Cymru ymestyn eu trafodaethau i edrych ar y posibilrwydd o greu 'canolfan rhagoriaeth' mewn ymchwil, polisi ac ymarfer gyrfaoedd. Ceir dau fodel yn Lloegr[42] ac un yn y Ffindir[43] a allai fod o gymorth. Wrth wneud hyn byddai creu 'canolfan rhagoriaeth yng Nghymru' yn gyfrwng i godi proffil gwasanaethau gyrfaoedd a byddai'n gymorth i sicrhau bod darpariaeth a safonau gwasanaeth yn gydlynol ac yn gyson. Gallai hyn hefyd gynorthwyo i greu sylfaen gref o dystiolaeth ar gyfer ymchwil gymhwysol ac ymarfer gwasanaethau gyrfaoedd y gellid ei arddangos ar lwyfan rhyngwladol.

## Cadarnhau safonau proffesiynol

**169.** Mae ehangder a dyfnder y gweithgarwch yn gofyn am ddatblygiad a hyfforddiant proffesiynol gan ddarparwyr addysg bellach ac uwch. Ar hyn o bryd, rydym o dan yr argraff mai ychydig o ddilyniant cydlynol na pharhad sy'n bodoli ar gyfer datblygiad proffesiynol y teulu gyrfaoedd.

**170.** Atgoffwyd ni fod gan y rheiny sy'n gweithio yn y teulu o addysg uwch ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd godau safonau moeseg gwahanol; er enghraifft, mae gan wasanaethau gyrfaoedd addysg uwch a Chymdeithas Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd i Athrawon (CAChG) godau proffesiynol gwahanol i'w gilydd. Ystyriwn ei fod yn werth alinio systemau presennol fel y gellir cyflwyno cod cyffredin o safonau moeseg i'r gwasanaethau gyrfaoedd ledled Cymru. Gellid dysgu gwersi o brofiad tebyg yn Awstralia[44]; a, phe bai'n cael ei weithredu'n llwyddiannus, gallai fod yn llwyddiant pwysig i Gymru yn ei hymdrech i ennill cydnabyddiaeth ryngwladol am ragoriaeth ei gwaith.

**171.** Rydym wedi edrych ar y ffyrdd gorau i amddiffyn diddordebau'r defnyddwyr unigol a dileu ymyriadau gyrfaoedd o ansawdd gwael. Bydd cyflwyno cod cyffredin o safonau moeseg yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at hyn. Fodd bynnag, awgrymwn fod angen trafodaethau mwy dwys rhwng aelodau'r teulu o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd i ystyried cyflwyno naill ai trefniant o

---

42 Y Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Astudiaethau Cyfarwyddyd Gyrfaoedd (iCeGS), Prifysgol Derby a Phrifysgol Eglwys Crist Caergaint, Campws Salomons, Kent.

43 Sefydliad y Ffindir ar gyfer Ymchwil Addysg, Prifysgol Jyväskylä, y Ffindir.

44 *Professional Standards for Australian Career Development Practitioners – Briefing 8: Implementation of Professional Standards* (Career Industry Council of Australia Paper, Awst 2007).

drwydded gymeradwy i ymarfer, debyg i'r hyn sy'n digwydd yn yr Institute for Learning (IfL) yn Lloegr[45], neu gofrestr sy'n cofnodi cymwysterau a phroffil datblygiad proffesiynol parhaus ymarferwyr gyrfaoedd. Mae'n werth nodi y byddai angen deddfwriaeth newydd i bennu gofynion proffesiynol cyn y gellir sefydlu trwydded gymeradwy i ymarfer. Dylid blaenoriaethu'r ddau ddewis yma er mwyn i'r Fforwm Strategol Gwasanaethau Gyrfaoedd eu hystyried yn y dyfodol.

**172.** Argymhellwn fod Gyrfa Cymru a'i bartneriaid newydd yn adolygu'r Safonau Arweiniad presennol ac yn ystyried i ba raddau y mae angen hyfforddiant a datblygiad pellach ar draws Cymru, yn arbennig ym maes gwasanaethau rhoi gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ar-lein a thros y ffôn.

## Sefydlu strategaeth datblygu gweithlu gwasanaethau gyrfaoedd

**173.** Fel y nodwyd yn gynharach (gweler adran 'Adeiladu gallu mewn gwasanaethau gyrfaoedd i bobl ifanc', tudalen 32) mae adeiladu gallu o fewn y teulu o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd yn elfen allweddol mewn sicrhau gweithlu cryf a hyderus. Credwn y byddai mantais sylweddol yn deillio o sefydlu strategaeth ddatblygu gweithlu sy'n anelu'n uchel, yn realistig a modd ei gwireddu er mwyn cynyddu gallu a medrau o fewn ac ar draws sefydliadau er mwyn sicrhau darpariaeth gyrfaoedd o safon uchel. Ymddengys fod yna gyfle marchnad i sefydliadau addysg bellach ac uwch yn ogystal â darparwyr yn y sector preifat i weithio mewn partneriaeth gyda Gyrfa Cymru i ddatblygu a chryfhau gwasanaethau gyrfaoedd ar draws Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod y gall hyn ofyn am arweiniad ffurfiol cryfach i sefydliadau ac asiantaethau ynglŷn â datblygu'r gweithlu a pheth buddsoddiad cychwynnol mewn datblygu rhaglen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a CCAUC. Gallai hyn ffurfio rhan o strategaeth ddatblygu gweithlu ehangach i'w datblygu gan y Fforwm Strategol Gwasanaeth Gyrfaoedd arfaethedig, yn dilyn cynnal ymarferiad mwy trylwyr o fapio'r gweithlu ymhlith y teulu o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd.

45 Noder: Mae trwydded i ymarfer yr Institute for Learning (IfL) yn gofyn am 30 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus y flwyddyn.

## Thema 7: Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Farchnad Lafur

**174.** Yn yr adran hon, rydym yn archwilio'r berthynas rhwng gwybodaeth y farchnad lafur a'r ddealltwriaeth hygyrch sy'n bodoli'n barod i helpu unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â llwybrau gyrfa addas. Trafodir natur dameidiog, hygyrchedd a chywirdeb yr wybodaeth am y farchnad lafur (LMI) ac awgrymir strategaethau ar gyfer adeiladu dull mwy cydlynol ledled Cymru.

**175.** Mae llawer o ffynonellau Gwybodaeth am y Farchnad Lafur, er bod cadernid a chywirdeb llawer o'r data yma dan amheuaeth. Mae'r Adolygiad yn cydnabod yr angen i drosi gwybodaeth ddefnyddiol y farchnad lafur yn ddealltwriaeth o'r farchnad lafur. Pwysleisir hyn hefyd gan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, yn enwedig ynghylch LMI ar lefel ranbarthol a lleol[46].

**176.** Mae'n rhaid cael LMI gywir, gynhwysfawr, ddiweddar, hygyrch a pherthnasol yn sail i benderfyniadau gwybodus ynglŷn â llwybr gyrfa i gleientiaid a'r rheiny sy'n gyfrifol am gynghori unigolion a/neu lunio polisïau ar dueddiadau LMI. Er bydd y darlun cenedlaethol tymor hir efallai'n fwy perthnasol i rai galwedigaethau, hwyrach mai rhagolygon lleol a rhanbarthol yn y dyfodol agos fydd o ddiddordeb i bobl sy'n llai symudol. Mae'n bwysig felly ceisio rhoi barn wybodus am y tueddiadau i'r dyfodol a'r amodau presennol drwy gyfeirio at raddfa'r farchnad mewn perthynas â gwahanol alwedigaethau. Yn dilyn y dirywiad economaidd diweddar, ni ellir gorbwysleisio'r angen am LMI o'r fath. Mae'n rhaid iddi fod yn sensitif i amgylchiadau newidiol a gofynion sgiliau yn yr economi'n dilyn y dirwasgiad.

**177.** Mae LMI lwyddiannus hefyd yn dibynnu ar sefydliadau yn cyfathrebu'n barod ac yn rhwydd gyda'i gilydd er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth maen nhw'n ei chasglu ac yn ei dadansoddi. Derbyniodd yr Adolygiad dystiolaeth sy'n dangos yr angen i rannu data'n well, yn cynnwys addasu'r Ddeddf Gwarchod Data bresennol – rhywbeth sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae angen dybryd am fwy o wybodaeth am gyrchfannau unigolion wrth iddyn nhw symud o un darparwr addysg neu hyfforddiant at un arall, yn ogystal ag i waith neu ddiweithdra yn y pen draw. Agenda sy'n dod i'r amlwg yw olrhain cleientiaid y tu hwnt

---

46 *Symud Ymlaen: Y Sylfeini ar gyfer Twf, Cyfrol 1: Adnewyddu'r Economi a'r Agenda Sgiliau* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010). www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/foremployers/employmentskillsboard/paperspublications/movingforward/?lang=en

i'w cyrchfannau cyntaf drwy ddatblygu systemau gwybodaeth syml a chyffredinol, fydd yn ei gwneud yn bosibl parhau i ddarparu cymorth a chyfarwyddyd gyrfaoedd ymhellach. Mae'r system Rhifau Unigryw Dysgwyr a geir yn y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau newydd yn cynnig cryn botensial yn hyn o beth.

**178.** Nodwn fod strategaeth *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* Llywodraeth y Cynulliad (2008)[47] yn gwneud rhai datganiadau clir iawn am ei hymrwymiad i ddatblygu LMI:

**Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru**

9.15 Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i chwarae rhan arweiniol yn y broses o gydgysylltu a lledaenu gwybodaeth am y farchnad lafur yng Nghymru, gan gydweithio'n agos â Chynghorau Sgiliau Sector, y Ganolfan Byd Gwaith a Grwpiau Ardal y Cynllun Gofodol. Rydym wedi creu'r Arsyllfa Dysgu a Sgiliau (www.arsyllfadysgu.com) fel un porth ar gyfer ymchwil a dadansoddi o ran gwybodaeth am addysg, dysgu, sgiliau a'r farchnad lafur yng Nghymru.

9.16 Bydd yr Arsyllfa yn llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth a lledaenu gwybodaeth am y farchnad lafur ledled Cymru, ac yn fforwm ar gyfer dadansoddi a thrafod polisi a fydd yn llywio gwaith Llywodraeth y Cynulliad a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru. Bydd Grwpiau Ardal y Cynllun Gofodol yn cyfeirio gwybodaeth a thystiolaeth am anghenion sgiliau, potensial sector neu fylchau gwybodaeth yn rhanbarthol at yr Arsyllfa Dysgu a Sgiliau.

9.17 Rheolir yr Arsyllfa gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ond mae'n atebol i grŵp strategol y daw ei aelodau o sefydliadau addysg, sefydliadau economaidd a sefydliadau hyfforddi allweddol ledled Cymru.

---

[47] *Strategaeth Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) www.cymru.gov.uk/docs/dcells/publications/081217stwfwstrategyandactionen.pdf

Deilliodd y bwriadau hyn o uchelgais *Cymru'n Un* i greu sail tystiolaeth well i ddatblygu'r agenda sgiliau. Felly rydym yn pwysleisio'r angen i gydnabod LMI yn gliriach fel adnodd i gynorthwyo pobl yng Nghymru wrth iddyn nhw ddatblygu eu syniadau a'u cynlluniau gyrfa. Ond, ar hyn o bryd, rydyn ni'n siomedig wrth nodi nad yw'n ymddangos bod y datganiadau polisi hyn wedi eu troi'n weithrediadau sylweddol.

**179.** O gofio'r ymrwymiad hwn, mae'r penderfyniad i beidio â diweddaru arolygon Sgiliau Dyfodol Cymru yn siomedig mewn cyfnod o newid ac ansicrwydd economaidd. Felly, argymhellwn gasglu LMI gynhwysfawr, ddiweddar ar draws ystod y galwedigaethau yn rheolaidd ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Wedyn dylai data o'r fath gael ei drosi'n fformat hygyrch ar gyfer cynulleidfaoedd o bob oed a phob gallu er mwyn galluogi unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus. Cafodd y pwyntiau hyn eu pwysleisio gan BCSC; ac mae'r Adolygiad yn croesawu ystyriaeth bellach o'u hargymhellion allweddol:

- Sicrhau bod archwiliadau sgiliau cenedlaethol UKCES yn ymdrin yn ddigonol â Chymru a'i rhanbarthau ac y darperir canlyniadau cyn gynted ag y bo modd i gyflogwyr, darparwyr, gwasanaethau cyfarwyddyd a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru
- Sicrhau y cesglir gwybodaeth fanwl gywir a chyfoes ynghylch y galw am gyflogaeth a sgiliau yng nghyswllt pob sector a phob isranbarth yng Nghymru; a
- Sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer Cymru yn sgil rheoli perfformiad ac unrhyw ddiwygio yn y dyfodol yng nghyswllt Cynghorau Sgiliau Sector.

(Ail adroddiad blynyddol BCSC, Cyfrol 1, tudalen 34)

**180.** Byddem felly'n annog cryfhau ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu LMI drwy:

- annog partneriaethau i ddatblygu LMI manwl, ranbarthol ar lefel galwedigaethau i'w defnyddio gan wasanaethau gyrfaoedd
- ehangu Grŵp Llywio'r Arsyllfa Sgiliau i gynnwys cynrychiolwyr Fforwm Strategol arfaethedig y Gwasanaethau Gyrfaoedd.

**181.** Bydd sefydlu un corff Gyrfa Cymru hefyd yn rhoi cyfle i'r Partneriaethau Addysg a Busnes weithio gyda'i gilydd i ddwyn y data yma ynghyd. Dylid trosi hyn wedyn i fformat hygyrch ar lefel ranbarthol a'i arddangos ar wefannau Gyrfa Cymru Ar-lein a GCGAU. Dros gyfnod gellid ychwanegu ymhellach at hyn drwy integreiddio dadansoddiad o ddata cyrchfannau a gynhaliwyd gan Gyrfa Cymru, gwasanaethau cymorth myfyrwyr AB a'r GCGAU. Byddai hyn o gymorth i egluro'r cysylltiad rhwng y cymhwyster a ddewiswyd a'r canlyniad o ran galwedigaeth. Roedd Arolwg Addysg a Sgiliau 2010 diweddar Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn ailadrodd yr angen hwn.

## Thema 8: Fforwm Strategol Gwasanaethau Gyrfaoedd

**182.** Yn yr adran hon, rydym yn ystyried y posibilrwydd o sefydlu Fforwm Strategol Gwasanaethau Gyrfaoedd i hyrwyddo mwy o drefn a chydlyniad o fewn ac ar draws y teulu o wasanaethau gyrfaoedd.

**183.** Ymddengys bod yna ddymuniad ymhlith llawer i sefydlu Fforwm Gwasanaethau Gyrfaoedd i helpu gosod canolbwynt strategol i'r teulu o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd yng Nghymru. Ei nod fyddai meithrin cydweithredu a chyd-drefnu ar draws sectorau o ran polisi a darparu gwasanaethau. Byddai trefniant cydweithredol o'r fath yn gofyn i'r holl aelodau gyd-berchnogi a chymryd rhan o'r cychwyn. Wrth reswm, bydd angen Cadeirydd cryf ond annibynnol, sy'n gyfarwydd i ryw raddau â'r sector gyrfaoedd yng Nghymru er mwyn sicrhau'. Dylai'r Cadeirydd gael ei benodi gan Llywodraeth Cynulliad Cymru ddylai benodi'r Cadeirydd gan ddilyn y drefn arferol ar gyfer penodiadau cyhoeddus.

**184.** Dylai Fforwm Strategol Gwasanaethau Gyrfaoedd weithredu fel:

- llwyfan i drafodaeth amlochrog rhwng yr amrywiol gyrff darparu gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill, gan weithio yn erbyn y duedd i feddwl o fewn terfynau caeth sy'n deillio o ddeialog ddwyochrog gyfyngedig
- seinfwrdd ar gyfer ymgynghori anffurfiol ynghylch datblygiadau polisi a mentrau newydd
- catalydd i beri mwy o gydweithredu rhwng asiantaethau arweiniol y llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n rhanddeiliaid o ran safonau proffesiynol, datblygiad proffesiynol parhaus a materion sicrhau ansawdd.


**185.** Dylai ganolbwyntio'n bennaf ar:

- nodi anghenion dinasyddion, h.y. mapio'r gwasanaethau presennol a'r bylchau yn y ddarpariaeth; hysbysu ymchwil defnyddwyr ac ymchwil weithredol; a datblygu cynigion ar sut y gall y gwasanaethau ymateb
- gwella ansawdd y gwasanaeth h.y. datblygu safonau ansawdd a chod moeseg proffesiynol cyffredin; sefydlu fframwaith dilyniant gyrfa i ymarferwyr; a chynghori ynglŷn â chymwysterau a gofynion hyfforddiant i'r rheiny sy'n cychwyn neu'n gweithio o fewn y teulu o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd yng Nghymru.

**186.** Mae'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Hyfforddiant Galwedigaethol (CEDHG)[48], wedi nodi rhai materion defnyddiol ar gyfer sefydlu a datblygu fforymau cyfarwyddyd gydol oes cenedlaethol. Gallai hyn fod o gymorth i Lywodraeth y Cynulliad wrth benderfynu cylch gorchwyl, aelodaeth, a chyfansoddiad drafft Fforwm Gwasanaethau Gyrfaoedd Cymru. Unwaith y byddai wedi ei sefydlu, gallai'r Fforwm ffurfio cysylltiadau defnyddiol gyda Fforwm Strategol newydd Sector Gyrfaoedd y DU a Rhwydwaith Polisi Cyfarwyddyd Gydol Oes Ewrop.

**187.** Byddem hefyd yn awgrymu y dylai cysylltiad ffurfiol fodoli rhwng y Fforwm a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, gyda statws annibynnol yn hytrach na swyddogaeth atodol. Dylid cael cysylltiad ffurfiol tebyg rhwng Fforwm y Gwasanaethau Gyrfaoedd a Fforwm y PABau Cymru gyfan presennol a'r fforwm hynny fyddai'n parhau i ddwyn ynghyd y buddiannau a gynrychiolir yn rhwydwaith rhanbarthol y PAB (fel y'i darlunnir yn Ffigur 2). Fodd bynnag, bydd hyn yn gofyn am gryn egni a chymorth ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, llywodraeth leol, yr Adran Gwaith a Phensiynau a chyngor sgiliau sector Lifelong Learning UK (LLUK), er mwyn gwireddi'r cysyniad.

**Ffigur 2**




48 *Improving lifelong guidance policies and systems: Using common European reference tools:* Luxembourg: Swyddfa Cyhoeddiadau Swyddogol y Gymuned Ewropeaidd (CEDEFOP, 2005). www.cedefop.europa.eu/etv/Upload/Information_resources/.../4045_en.pdf

## Thema 9: Strwythur a brand sefydliadol Gyrfa Cymru

**188.** Yn yr adran hon, rydym yn trafod sut mae'r posibilrwydd o uno Gyrfa Cymru yn cynnig cyfle gwych i gyflawni'r potensial i wneud holl system y gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru yn feincnod ansawdd, cydlyniad a gwerth am arian y gall gwledydd eraill gyfeirio ac anelu ato. Mae Gyrfa Cymru yn chwaraewr mawr o fewn y system ac mae'r ffaith ei fod wedi ei dorri'n rhannau wedi ei ddal yn ôl rhag cynnig yr arweinyddiaeth mae'r sector ei hangen er mwyn gwireddu'r uchelgais hon.

### Ailstrwythuro Gyrfa Cymru

**189.** Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi ei derbyn gan amrywiaeth o randdeiliaid a sylwebwyr yn cadarnhau bod cwmnïau Gyrfa Cymru wedi bod yn cyflawni rôl weithredol ac adeiladol iawn mewn partneriaethau darparu gwasanaeth lleol a werthfawrogir yn fawr gan eu partneriaid lleol. Mae llawer wedi datgan awydd i'r gallu hwn i ymateb i anghenion lleol gael ei warchod pan gaiff Gyrfa Cymru ei ad-drefnu'n un corff. Ar yr un pryd, mae'n amlwg nad yw cwmnïau Gyrfa Cymru, oherwydd eu cyfeiriadedd a'u hymreolaeth leol, wedi gallu cynnig safbwynt cenedlaethol gydag arweinyddiaeth a dylanwad strategol. Cyfyngodd hyn ar ei allu i weithredu fel eiriolwr effeithiol dros ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd gwell ac arloesol a datblygu'r modd i gynnal ymchwil, meincnodi a chynllunio gwasanaethau ar lefel Cymru gyfan.

**190.** Yn wir, er eu bod mewn sefyllfa dda i weithredu fel arweinwyr lleol o ran partneriaethau 14–19 a gweithredu mewn perthynas â phobl ifanc NEET, ni chafodd y potensial hwn ei wireddu oherwydd anallu i weithredu'n effeithiol fel eiriolwyr drostyn nhw eu hunain mewn trafodaethau gydag amrywiol chwaraewyr Cymru gyfan a rhai rhannau o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylai'r uniad sicrhau bod modd mynd i'r afael â'r diffygion hyn drwy greu corff sy'n gallu gweithredu ar lefel strategol yn genedlaethol ac yn lleol mewn cydweithrediad â chwaraewyr Cymru gyfan eraill. Dylai uno adnoddau cynllunio gwasanaeth oedd yn rhanedig o'r blaen arwain at greu'r gallu i gynnal ymchwil weithredol, y gallu i ddatblygu a chynllunio yn llawer mwy effeithiol fydd yn gallu gosod paramedrau ar gyfer amrywiadau lleol o fewn fframwaith nodau ac amcanion strategol a thargedau perfformiad cenedlaethol, h.y. y gallu i feddwl yn genedlaethol a gweithredu'n lleol.

**191.** Mae yna berygl, fodd bynnag, y gellid colli'r gallu presennol i ymateb yn lleol a'r gallu posibl i arwain yn lleol mewn meysydd perthnasol – megis mewn ymateb i agenda NEET neu o ran bidiau consortia lleol am gyllid Ewropeaidd – oni chedwir gafael ar ryw elfen o'r strwythur rhanbarthol. Credwn fod hwn yn berygl go iawn ac felly argymhellwn yn gryf bod angen cymryd gofal i atal Gyrfa Cymru rhag dod yn gorff sydd wedi ei or-ganoli, wrth bennu ei strwythur mewnol. Mae rhwydweithiau cyfathrebu modern yn galluogi staff cyrff a unwyd i barhau mewn lleoliadau gwasgaredig; ac ystyriwn fod diogelu isadeiledd rhanbarthol o fewn Gyrfa Cymru yn hanfodol os yw'r corff i ymestyn ei enw da fel chwaraewr lleol effeithiol.

## Brand Gyrfa Cymru

**192.** Cafwyd consensws sylweddol ymysg cymuned y rhanddeiliaid fod 'Gyrfa Cymru' yn enw brand cryf ac adnabyddus. Mae adnabyddiaeth o frand fel hyn yn ased gwerthfawr iawn a symbol o barhad yn ystod cyfnod o newid cyflym; a dylai ddod yn haws fyth ei farchnata ar ôl sefydlu un corff.

**193.** Argymhellwn felly y dylai'r holl gyrff, sy'n cynnig swyddogaethau cyfeirio gyrfaoedd yng Nghymru, ddefnyddio logo sy'n datgan eu bod yn rhan o deulu ehangach o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd. Byddai hyn yn cyfleu i ddinasyddion fod gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru yn gweithredu o fewn system gwbl integredig o ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd, gyda chod moeseg cyffredin a safonau ansawdd cyson yn cael eu cynnal gan staff wedi eu hyfforddi'n dda. Byddai datblygiad o'r fath yn rhoi statws ychwanegol i frand Gyrfa Cymru a phroffil cyffredinol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol hefyd. Fodd bynnag, byddai'n rhaid sefydlu Fforwm Strategol Gwasanaethau Gyrfaoedd traws system i Gymru yn gyntaf, cyn y byddai ymestyn y brand yn rhywbeth ystyrlon. Bydd angen i'r trefniant hwn fod yn seiliedig ar femoranda dealltwriaeth rhwng holl aelodau'r teulu o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd er mwyn sicrhau eglurder, cydlyniad a sicrwydd darpariaeth o safon uchel i'r defnyddiwr unigol.

## Adfywio brand y Partneriaethau Addysg-Busnes

**194.** Credwn ei bod yn bwysig i'r PABau gael eu llunio ar sail ranbarthol er mwyn darparu cysylltiadau cryf gyda chyflogwyr lleol a sefydliadau addysg lleol. Y Fforwm PAB Cymru gyfan presennol fyddai'n parhau i arwain. Credwn mai rhwydwaith PAB, seiliedig ar ranbarthau ac wedi ei adfywio – yn cydweithredu gydag un corff Gyrfa Cymru ond sensitif i ranbarthau – sy'n cynnig y gobaith gorau o sicrhau'r cyfuniad o ymatebolrwydd lleol gyda'r gwasanaeth cyson y mae'r mwyafrif o'r sylwebwyr yn dymuno ei weld.

**195.** Hoffem hefyd weld cyflogwyr y sector cyhoeddus yn cymryd rhan mewn PABau a thrwy hynny gynyddu'n sylweddol y cyfleoedd profiad gwaith yn y sector cyhoeddus. Hefyd, fel y nodwyd yn gynharach, dywedodd ein hysbyswyr allweddol dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud hynny'n orfodol i'w cyflenwyr fel rhan o amodau unrhyw gytundeb cyflenwi. Mae'r sector cyhoeddus yn gyflogwr llawer mwy arwyddocaol yng Nghymru nag mewn rhannau eraill y DU ac, mae llawer wedi pwysleisio, bod angen i hyn gael ei adlewyrchu'n llawn yn amrediad, ansawdd a nifer y cyfleoedd profiad gwaith sydd ar gael i bobl ifanc ac oedolion.

**196.** Fel y trafodwyd yn gynharach (yn adran 'Partneriaethau Addysg-Busnes, tudalen 25), rydym hefyd yn gweld manteision posibl mewn gwahanu brand PAB oddi wrth frand Gyrfa Cymru, fel yr argymhellodd Tasglu Ymgysylltiad Cyflogwyr[49]. Byddai hyn yn golygu cadw rheolaeth y PABau o fewn un corff Gyrfa Cymru. O ganlyniad, byddai'n dileu llawer o'r dryswch presennol ynglŷn â statws a safle'r PABau ac yn rhoi delwedd a llwyfan newydd i farchnata gweithgareddau'r PABau. Cydnabyddir yn gyffredinol eu bod yn cyflawni swyddogaeth sylweddol iawn drwy gyflwyno pobl ifanc i fyd gwaith ac wrth gynnig profiadau sy'n canolbwyntio ar waith.

---

49 Adroddiad mewnol oedd Adroddiad Tasglu Ymgysylltiad Cyflogwyr 14–19 ac ni chafodd ei gyhoeddi'n ffurfiol.

## Thema 10: Y rhyngwyneb gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru

**197.** Yn yr adran hon rydym yn archwilio'r trefniadau presennol a rhai o'r anawsterau sy'n codi o ganlyniad i safle cyfyngedig presennol y Gangen Polisi Gyrfaoedd o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru[50]. Rydym yn edrych yn fyr hefyd ar y berthynas rhwng ac ar draws adrannau sydd â rhyw elfen o gyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd. Gellid datblygu'r strwythurau presennol i gynyddu gwerth ychwanegol ac i wella effaith amcanion polisi allweddol.

## Y Gangen Polisi Gyrfaoedd

**198.** Efallai bydd uno corff Gyrfa Cymru yn lliniaru rhywfaint ar faich gwaith y Gangen Polisi Gyrfaoedd gan y bydd yn dileu'r dyblygu sy'n rhan anochel o noddi chwe chwmni ar wahân. Fodd bynnag, ni fydd hynny ynddo'i hun yn mynd i'r afael â phroblemau cwmpas, arweinyddiaeth a chyfathrebu sydd wedi tarfu ar effeithiolrwydd y gangen fel arweinydd polisi (yn wahanol i'w rôl fel noddwr y gwasanaethau a ddarperir gan Gyrfa Cymru). Rydym o'r farn bod y Gangen yn eistedd yn anesmwyth mewn Isadran sydd, fel arall, yn ymwneud bron yn gyfan gwbl â darparu addysg ôl-16 (h.y. darpariaeth yr 'ochr gyflenwi'), tra mae'r gwasanaethau y mae'n eu noddi ar hyn o bryd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddysgwyr o dan 16 oed a llawer o'i ddiddordeb polisi'n ymwneud ag ochr y galw o'r farchnad lafur.

**199.** Hefyd, nid oes ganddi statws o ran addysg gyrfaoedd neu fenter mewn ysgolion, gwasanaethau cyngor gyrfaoedd addysg uwch na gwasanaethau cymorth myfyrwyr addysg bellach; ac mae'n eithaf clir o'r dystiolaeth a dderbynion ni fod sawl adran arall o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu polisïau sy'n cael effaith ar gorff Gyrfa Cymru heb, ym mhob achos, gynnwys y Gangen Polisi Gyrfaoedd yn y broses. Mae'n amlwg hefyd, o'n trafodaethau gyda chynrychiolwyr Gyrfa Cymru, gwasanaethau gyrfaoedd addysg uwch a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â gyda staff y Gangen Polisi Gyrfaoedd, mai'r farn gyffredinol yw bod y trefniadau hyn yn anfoddhaol. Rydym yn argyhoeddedig, os daw mwy o gydlyniad o ganlyniad i ehangu'r system gwasanaethau gyrfaoedd, bod angen gwella cydlyniad yn y maes hwn o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyntaf.

---

[50] Noder: Amlinellwyd rhain yn fras ym mharagraffau 60 a 61 o'r papur cefndirol yn Atodiad 1 (gweler tudalen 118).

**200.** Nid oes atebion strwythurol hawdd ac nid ydym yn credu ei fod o fewn ein maes gorchwyl ni i ragnodi newidiadau strwythurol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Er hynny, credwn y dylai'r Gangen Polisi Gyrfaoedd ddiwygiedig, lle bynnag y bo'n eistedd o fewn APADGOS, gael y cyfrifoldeb pennaf am gyd-drefnu'r holl bolisïau sy'n ymwneud ag addysg gyrfaoedd, profiad sy'n canolbwyntio ar waith a GCCh gyrfaoedd ar gyfer pob grŵp oedran, gan gynnwys myfyrwyr mewn addysg uwch. Credwn hefyd dylai fod ganddi berthynas uniongyrchol lawer agosach gydag Is-adran Busnes a Sgiliau APADGOS, gydag Is-adran Menter Adran yr Economi a Thrafnidiaeth a gydag Adran Gwaith a Phensiynau/Jobcentre Plus er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r farchnad lafur, lleoliadau swyddi a darparu 'gwarant yr ifanc', NEET, rhaglenni sgiliau a menter a rhaglenni o fudd-dal i waith.

**201.** Mae'n rhaid rhoi mwy o gydnabyddiaeth cyffredinol i'r swyddogaeth bwysig a gaiff ei chyflawni gan y gwasanaethau gyrfaoedd wrth ddwyn ynghyd ochr y galw ac ochr cyflenwi'r farchnad lafur; a rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru arwain wrth hyrwyddo'r gydnabyddiaeth hon ymhlith sefydliadau addysg, y gymuned fusnes, y sector gwirfoddol, cyrff ac asiantaethau yn y sector cyhoeddus, a chymdeithas yn gyffredinol. Ni fydd uno Gyrfa Cymru yn ddigon ynddo'i hun i greu gwerthfawrogiad cyffredinol o'r math o system gyrfaoedd a chyflogaeth integredig mae ar Gymru ei hangen. Bydd yn rhaid i'r sbardun ar gyfer system o'r fath a'i chynhaliaeth ddod oddi wrth 'Gangen Polisi Gwasanaethau Gyrfaoedd' bwrpasol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda statws cryfach ac enw newydd i adlewyrchu ei swyddogaeth ganolog a'i diddordebau ehangach.

## Cynyddu cysylltiad gyda darparwyr gwasanaeth

**202.** Dylid cynllunio'r statws estynedig hwn i sicrhau bod yr holl fentrau sy'n effeithio ar Gyrfa Cymru a darpariaeth arall gysylltiedig â gyrfaoedd o fewn y system ehangach a'r holl gyfathrebu gyda'r darparwyr gwasanaeth hynny yn cael ei wneud drwy neu gyda gwybodaeth a chefnogaeth y Gangen Polisi Gyrfaoedd ddiwygiedig. Wrth reswm, bydd cael un tîm o uwch-reolwyr, o fewn un corff Gyrfa Cymru ,yn hwyluso'r dasg hon, gan y bydd nifer y sianelau cyfathrebu yn gostwng.

**203.** Byddem yn disgwyl gweld cysylltiad ffurfiol ac anffurfiol dyddiol rhwng y Gangen Polisi Gyrfaoedd newydd a chynrychiolwyr Gyrfa Cymru a, lle bo hynny'n briodol, darparwyr gwasanaeth eraill perthnasol, cysylltiedig â gyrfaoedd. Rydym yn disgwyl y bydd y Gweinidog (gyda chefnogaeth uwch swyddogion APADGOS a'r Gangen Polisi Gyrfaoedd) eisiau cynnal cyfarfodydd llai aml, ond yr un mor rheolaidd, gyda Chadeirydd, Prif Weithredwr ac uwch gynrychiolwyr eraill y corff sengl er mwyn trafod amcanion polisi a darpariaeth. Byddai trefn gysylltu gynhwysfawr fel hyn yn welliant sylweddol ar yr ymarfer dros y blynyddoedd diwethaf.

**204.** Wrth reswm, bydd angen i gysylltiadau'r Gangen Polisi Gyrfaoedd gyda chynrychiolwyr darparwyr gwasanaeth ar wahân i Gyrfa Cymru, fod yr un mor sensitif i, a chydymffurfio â sianelau cyfathrebu arferol rhwng Isadrannau arweiniol eraill o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r darparwyr gwasanaeth hynny. Byddai cyfarfod swyddogol, blynyddol, ar lefel uwch rhwng y Gweinidog neu uwch swyddogion a chynrychiolwyr gwasanaethau gyrfaoedd AU Cymru hefyd yn ddymunol, er mwyn sicrhau mwy o gysondeb a chydlyniad wrth gyflwyno a datblygu darpariaeth. Sicrhau cyd-drefnu, cysondeb a negeseuon clir ar draws yr Adran fydd y nod, er mwyn osgoi'r peryglon o rannu'n adrannau a chroesddweud, sy'n gallu digwydd o ganlyniad i ddatblygu perthynas 'seilo' anfwriadol.

## Cefnogi Fforwm Strategol y Gwasanaethau Gyrfaoedd

**205.** Pan fydd Fforwm Strategol Gwasanaethau Gyrfaoedd Cymru wedi ei sefydlu, fel yr argymhellwn, y Gangen Polisi Gyrfaoedd ddylai gymryd rhan y noddwr a'i bwynt cyswllt gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylai'r Gangen anfon swyddog yn rheolaidd i fynychu cyfarfodydd y Fforwm ac adrodd am faterion sy'n codi wrth gydweithwyr perthnasol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n debyg y bydd angen i'r Gangen hefyd gynorthwyo i ddatblygu cyfansoddiad ar gyfer y Fforwm, darparu arian cychwynnol ar gyfer adnoddau staffio i sefydlu ysgrifenyddiaeth (o leiaf hyd nes y bydd rhaglen weithgaredd wedi ei llunio), a sicrhau mynediad at unrhyw gyllidebau sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddibenion cyffredin megis ymchwil, datblygu systemau ac adeiladu gallu staff, yn amodol ar ofynion achos busnes cyffredin. Dylai creu Fforwm o'r fath fod o gymorth yn gyffredinol i'r Gangen wrth sicrhau cydlyniad gwell rhwng llunwyr polisi a darparwyr gwasanaeth cysylltiedig â gyrfaoedd, gan y bydd yn gweithredu fel 'seinfwrdd' i fentrau polisi newydd ac fel sianel gyfathrebu gyffredin rhwng y sefydliadau cysylltiedig.

## Rôl amlycach yn rhyngwladol

**206.** Yn wir, gallai sefydlu Fforwm o'r fath hefyd, o bosibl, gysylltu gyda datblygiadau cyfochrog yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban a chynorthwyo swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ymarferwyr gwasanaeth i chwarae mwy o ran yn Rhwydwaith Polisi Cyfarwyddyd Gydol Oes Ewrop (RhPCGOE) yn y dyfodol.

**207.** Mae'r RhPCGOE yn cynnig cyfrwng fydd o bosibl yn werthfawr iawn i sicrhau bod gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru yn dal i allu meincnodi eu cynnydd yn erbyn gwledydd arweiniol eraill yn Ewrop a nodi a defnyddio arferion newydd, ac ar yr un pryd weithredu fel 'ffenestr siop' i ddatblygiadau gwasanaeth yng Nghymru. Cafodd y broses hon o 'sefydlu gwerth' arfer da ei hybu'n gryf gan yr Undeb Ewropeaidd yn y blynyddoedd diwethaf fel cyfrwng hanfodol i symud agenda Lisbon yn ei flaen; ac mae'n un o brif amcanion Cymdeithas Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol Ewrop dros Ddysgu Gydol Oes (CARhLlEDGO), y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn aelod sylfaenol ohoni.

**208.** Gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried cyfateb ei chyfranogaeth yn y RhPCGOE i'w hymrwymiad a'i gyfranogiad cadarn yn CARhLlEDGO. Mae'r cyfle o ran cysylltiadau a phwrpas cyffredin rhwng y ddau rwydwaith – er enghraifft, wrth ystyried polisi a systemau cyfarwyddyd, llwybrau dysgu, datblygu sgiliau rheoli gyrfa a chyflogadwyedd, gwrthsefyll stereoteipio ar sail rhyw, darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc NEET a grwpiau blaenoriaeth eraill, annog entrepreneuriaeth, cyngor ynghylch diswyddiad, a threfnu cyfleoedd profiad gwaith cilyddol mewn gwledydd eraill i fyfyrwyr galwedigaethol – yn ymddangos yn rhywbeth y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru chwarae rhan ganolog ynddo. Mae'r RhPCGOE hefyd yn darparu llwyfan i Ewrop gymryd rhan yn y gymuned fyd-eang o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd arweiniol drwy'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

# Argymhellion

**209.** Yn yr adran hon rydym yn gosod yr argymhellion sy'n codi o'n hystyriaeth o'r 'meysydd ar gyfer gwella' a nodwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn. Mae'r argymhellion hyn gyda'i gilydd yn cynrychioli elfennau hanfodol y strategaeth ar gyfer gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru y credwn ddylai gael ei gweithredu yn y 3–5 mlynedd nesaf er mwyn i botensial 'blaenymyl' y trefniadau presennol gael ei wireddu'n llawn. Gellir gweithredu rhai o'r argymhellion hyn ochr yn ochr ag uno corff Gyrfa Cymru; bydd eraill yn dilyn yn fwy naturiol o'r broses hon gyda chorff sengl Gyrfa Cymru yn darparu llawer iawn o'r arweinyddiaeth a'r egni angenrheidiol i weithredu'r newidiadau hyn.

***Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith ar gyfer pobl ifanc 11–19 mlwydd oed yng Nghymru***

1. **Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi mwy o eglurder ynglŷn â swyddogaethau unigol a ffiniau gweithredu athrawon a thiwtoriaid personol, cyd-drefnwyr gyrfaoedd a phrofiad gwaith, anogwyr dysgu a chynghorwyr gyrfaoedd wrth gyflwyno GBG.**

2. **Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu fframwaith atebolrwydd mwy tryloyw ar gyfer cynllunio a chyflwyno ac adrodd am ddeilliannau dysgu GBG, gan gynnwys sgiliau cyflogadwyedd a mentro.**

3. **Dylai Estyn arolygu gweithrediad fframwaith GBG ar sail thematig.**

4. **Dylai ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant yng Nghymru weithio tuag at ennill Marc Gyrfa Cymru fel y meincnod rhagoriaeth cydnabyddedig mewn cyflwyno addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n canolbwyntio ar waith.**

**Partneriaethau Addysg-Busnes (PABau) a Chynghorau Sgiliau Sector (CSS)**

5. **Dylid cadw PABau fel rhan o bortffolio Gyrfa Cymru ond eu hail lansio gyda brand cenedlaethol ar wahân sy'n hybu rhagoriaeth mewn gweithgareddau cysylltiadau addysg-busnes.**

6. **O fewn un corff Gyrfa Cymru newydd, dylid ad-drefnu'r PABau ar lefel ranbarthol i gyfateb yn agosach i isadrannau economaidd cydnabyddedig Cymru; a dylai eu gwaith gael ei gyd-drefnu ar lefel Cymru gyfan gan Fforwm presennol y PABau.**

7. **Dylai pob PAB gynnwys y gynrychiolaeth ehangaf posibl o blith busnesau, ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant a phrifysgolion yn ogystal â swyddogion maes Llywodraeth Cynulliad Cymru.**

8. **Dylai rhwydwaith y PABau gael cylch gorchwyl clir i ffurfio cysylltiadau gyda chyflogwyr mewn diwydiant, masnach ac yn y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau mynediad at brofiadau sy'n canolbwyntio ar waith a chyfleoedd lleoliad gwaith sy'n briodol ac o ansawdd da.**

9. **Dylai'r PABau dalu sylw arbennig i flaenoriaethau sectorau dynodedig Llywodraeth Cynulliad Cymru, ei hagenda menter a hunangyflogaeth a datblygu sgiliau cysylltiedig â STEM.**

10. **Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac asiantaethau caffael eraill y sector cyhoeddus, ddefnyddio eu grym o brynu gan gyflenwyr, drwy gyfrwng amodau contract, i annog cyfranogaeth mewn gweithgareddau addysg-busnes.**

11. **Dylai CSSau ddatblygu modelau o brofiadau addas sy'n canolbwyntio ar waith i gefnogi llwybrau dysgu galwedigaethol arbennig yn eu sectorau nhw, o'r ysgol hyd at y cyfnod cyn cyflogaeth, a dylai'r PABau wedyn gael y cyfrifoldeb o hyrwyddo'r modelau hyn yn lleol.**

12. **Dylai'r PABau weithio gyda CSSau i fwydo gwybodaeth am y farchnad lafur (LMI) leol i mewn, y gellir ei hychwanegu at wybodaeth am y tueddiadau gwaith rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn i hyn fod ar gael i ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd a'u cleientiaid fel bo'n briodol.**

13. **Dylai Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (BCSC) asesu effaith gweithgareddau partneriaethau addysg-busnes a llunio map o 'ddangosyddion llwyddiant allweddol' wedi eu cydweddu gyda 'blaenoriaethau cyflogwyr' a all fwydo i mewn i ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant ar lefel strategol.**

**14.** **Dylai Fforwm PAB lunio strategaeth ar gyfle bwydo gwybodaeth i mewn i'r PABau lleol er mwyn sicrhau bod addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd wedi eu hysbysu gan alw'r cyflogwyr yn y rhanbarth am sgiliau iaith Gymraeg.**

**15.** **Dylid gwahodd BCSC i adolygu pa mor effeithiol yw cyfleoedd lleoliadau gwaith, gan gyfeirio'n arbennig at ehangu cyfranogaeth, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth o safon ac yn gynhwysfawr.**

**Adeiladu gallu yn y gwasanaethau gyrfaoedd**

**16.** **Mae'n rhaid i swyddogaeth yr anogwr dysgu fod yn dryloyw a rhaid ei halinio'n agos gyda gwaith athrawon a chynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion a cholegau er mwyn sicrhau bod diagnosis mwy cywir yn cael ei wneud o anghenion pobl ifanc yn gynnar.**

**17.** **Dylai fod gan Gyrfa Cymru gyfrifoldeb clir i gyflawni rôl arweiniol mewn adeiladu gallu cyd-drefnwyr GBG, athrawon, cynghorwyr gyrfaoedd ac anogwyr dysgu i ddarparu gwasanaethau addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd modern, o safon uchel, drwy hyfforddiant ar y cyd a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.**

**18.** **Dylid sefydlu strategaeth datblygu gweithlu gwasanaethau gyrfaoedd gyda chyrsiau modiwlaidd newydd yn cael eu datblygu, rhai sy'n cael eu hachredu a rhai na chânt. Dylai'r rhain fod ar gael i'r rheiny sy'n gweithio i ddarparu addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd a phrofiad sy'n canolbwyntio ar waith ledled Cymru. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth i Fforwm Strategol y Gwasanaeth Gyrfaoedd.**

**19.** **Dylai addysg uwch a Gyrfa Cymru greu 'canolfan rhagoriaeth' yng Nghymru ar gyfer ymchwil, polisi ac ymarfer gyrfaoedd.**

**20.** **Dylai Lifelong Learning UK a sefydliadau addysg uwch ddwyn arweinwyr at ei gilydd o'r teulu gyrfaoedd, gan gynnwys cymdeithasau gyrfaoedd proffesiynol, er mwyn datblygu cynllun i gryfhau gallu ac amrywiaeth y gweithlu yng Nghymru.**

**Partneriaethau Llwybrau Dysgu 14–19 a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc**

21. **Dylid uno Partneriaethau Plant a Phobl ifanc a rhwydweithiau Llwybrau Dysgu 14–19 yn bartneriaethau lleol sengl. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wedyn adolygu eu niferoedd a'u swyddogaethau gyda golwg ar resymoli pellach er mwyn darparu gwasanaeth strategol mwy cydlynol.**

22. **Dylai fod gan Gyrfa Cymru rôl arweiniol mewn perthynas â'r agenda cenedlaethol ar gyfer sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc 14–19 mlwydd oed a dylai hyn gynnwys goruchwylio hyfforddiant a datblygiad proffesiynol anogwyr dysgu a chynghorwyr gyrfaoedd ledled Cymru.**

**Model darparu gwasanaethau gwahaniaethol cwbl integredig**

23. **Dylai Gyrfa Cymru symud tuag at ailgydbwyso'r gweithgareddau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd drwy system ddarparu tair prif sianel gwbl integredig sef gwasanaethau'r we, y ffôn ac wyneb yn wyneb.**

24. **Dylid cael mwy o hyblygrwydd wrth amseru cyfweliadau cyfarwyddyd gyrfaoedd trylwyr, un i un, yn ôl anghenion unigolion, gan gynnwys sesiynau grŵp a chymorth ar-lein.**

25. **Ni ddylai personél Gyrfa Cymru gael rhan mewn darparu gwaith gyrfaoedd yn uniongyrchol mewn ysgolion cynradd, ac eithrio cefnogi gweithgareddau PABau.**

26. **Dylai cymorth Gyrfa Cymru i ddarparwyr gwasanaeth eraill fod ar sail adeiladu gallu, mwy o ddefnydd o TGCh a darpariaeth wedi ei thargedu ar adegau pontio allweddol.**

27. **Dylid cadw'r llinell gymorth gyrfaoedd yng Nghymru, gyda chyswllt brys rhwng ei rhif neilltuol a chanolfannau gyrfaoedd lleol a chynghorwyr gyrfaoedd sy'n meddu ar arbenigedd a gwybodaeth leol.**

**28. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Gyrfa Cymru barhau i ddatblygu a blaenoriaethu buddsoddiad yng ngwefan GCA er mwyn hyrwyddo ei defnydd yn gyffredinol – drwy safonau cyfarwyddyd, mynd i'r afael â'r rhaniad digidol, hyfforddiant staff a marchnata – mewn ysgolion, colegau, yn y gymuned ac mewn lleoliadau gwaith.**

**29. Dylai Gyrfa Cymru fonitro ac adrodd am unrhyw eithrio digidol posibl a darparu cymorth arall lle bo'n briodol.**

**30. Dylai ysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch greu hyperddolenni i wefan GCA er mwyn hyrwyddo mynediad at wasanaethau gyrfaoedd.**

**31. Mae'n rhaid i Gyrfa Cymru a chwaraewyr allweddol eraill yn y teulu gyrfaoedd ddatblygu eu sgiliau TGCh ymhellach er mwyn cynyddu'r gallu i ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd ar-lein a thros y ffôn.**

**32. Wedi'r uno, dylai Gyrfa Cymru geisio datblygu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (RhCC) gyffredin – i gynnwys cymorth dros y we, y ffôn ac wyneb yn wyneb i'r holl gleientiaid yng Nghymru. Efallai gellid ymestyn hyn wedyn o fewn y teulu ehangach o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd.**

## Grwpiau blaenoriaeth

**33. Dylai Gyrfa Cymru gael swyddogaeth arweiniol mewn creu a chyd-drefnu strategaethau partneriaeth lleol i leihau'r nifer o bobl ifanc sy'n NEET.**

**34. Yn dilyn ad-drefnu Gyrfa Cymru yn un corff, dylid sefydlu system olrhain a rheoli data genedlaethol mewn perthynas â phobl sy'n NEET.**

**35. Dylai Gyrfa Cymru adolygu'r modelau darparu, yr hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol presennol, o ran y gwasanaethau cymorth gyrfaoedd a ddarperir ar gyfer pobl ag anawsterau ac anableddau dysgu, gyda'r bwriad o hyrwyddo gwell cysondeb ar draws Cymru.**

**36. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd â Bwrdd Cyfiawnder yr Ifanc edrych ar fater cefnogaeth TGCh i droseddwyr ifanc fel rhan o gasgliad cydlynol o gymorth i droseddwyr ifanc yng Nghymru sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a Lloegr.**

**37. Dylai'r llinynnau allweddol sy'n codi o strategaethau ehangu mynediad a chyfranogaeth gael eu defnyddio gan y corff sengl newydd i hysbysu a dylanwadu ar agenda newydd sgiliau rheoli gyrfa a chyflogadwyedd i Gymru.**

## Gwasanaethau gyrfaoedd i oedolion

**38. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn cydweithrediad â CCAUC, egluro ei disgwyliadau o ran gwasanaethau gyrfaoedd addysg uwch yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys y gwasanaeth lleiaf y mae hawl iddo, pwy sy'n gymwys (gan gyfeirio'n arbennig at fyfyrwyr addysg uwch mewn colegau addysg bellach, y rhai sy'n tynnu'n ôl o gyrsiau a graddedigion y tu hwnt i'w cyrchfan waith gyntaf) a grwpiau blaenoriaeth.**

**39. Os bydd y pwerau angenrheidiol ar gael, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wahodd Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd i gynnal arolygiadau ar y cyd ar wasanaethau gyrfaoedd sefydliadau addysg uwch unigol yng Nghymru. Dylai hyn ymestyn i'r rhyngwyneb gyda Gyrfa Cymru, y PABau, colegau addysg bellach a darparwyr gwasanaeth cysylltiedig eraill o fewn cwmpasiad nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru.**

**40. Dylai pob prifysgol, gan gyfeirio'n arbennig at GO Cymru, gymryd rhan weithredol yn y rhwydwaith PAB fydd wedi ei adfywio, gyda'r bwriad o gynorthwyo i gynllunio a darparu profiadau sy'n canolbwyntio ar waith i ddysgwyr wrth iddynt symud ymlaen ar hyd eu llwybrau dysgu tuag at waith.**

**41. Cyn belled ag y mae datblygu darpariaeth gwasanaeth wahaniaethol yn caniatáu, dylid ailgyfeirio'n gynyddol y defnydd o gymorth cynghorwyr gyrfaoedd proffesiynol tuag at oedolion yn y gweithlu ac yn y farchnad lafur er mwyn bod o gymorth i hyrwyddo'r agenda sgiliau.**

**42.** **Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i gefnogi Cronfa Ddysgu Undeb Cymru er mwyn darparu cymorth gyrfaoedd cychwynnol yn y gweithle. Dylai'r model hwn, o'r cyflogwr a'r gweithiwr hefyd yn ymgymryd â dysgu, gael ei hybu'n ehangach – yn enwedig yn y sector preifat.**

**43.** **Dylid diffinio'n fwy clir beth yw cymorth gyrfaoedd mewn lleoliadau dysgu oedolion yn y gymuned a chanolfannau eraill sy'n darparu addysg ran-amser.**

## Agenda Diwygio Lles

**44.** **Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu ymhellach ei gallu i ddylanwadu ar y polisïau a gaiff eu llunio yn yr Adran Waith a Phensiynau ar lefel uwch swyddogion, er mwyn sicrhau bod yr amgylchiadau, yr anghenion a'r trefniadau yng Nghymru yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn llawn.**

**45.** **Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru arwain astudiaeth ddichonoldeb – ar y cyd gyda Gyrfa Cymru a Jobcentre Plus – i archwilio'r posibiliadau ar gyfer gwasanaethau gwahaniaethol i oedolion, gan ddefnyddio gwasanaethau ar y we, y ffôn ac wyneb yn wyneb.**

**46.** **Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Waith a Phensiynau ddod i benderfyniad yn fuan a ddylid defnyddio cyfleuster Gwirio Iechyd Sgiliau cyffredin neu a ddylid datblygu trefniadau gwahanol i Gymru.**

**47.** **Dylai'r Adran Waith a Phensiynau gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gyrfa Cymru wrth fodelu gwasanaethau GCCh gyrfaoedd ar gyfer hawlwyr budd-daliadau, gan gymryd i ystyriaeth yr holl ofynion o ran adnoddau gwasanaeth oedolion presennol ac yn y dyfodol.**

## Fforwm Strategol Gwasanaethau Gyrfaoedd i Gymru

**48. Dylid sefydlu Fforwm Strategol Gwasanaethau Gyrfaoedd i fod o gymorth i osod canolbwynt strategol i'r teulu o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd yng Nghymru, yn arbennig i feithrin cydweithredu a chyd-drefnu ar draws sectorau o ran polisi a darparu gwasanaeth. Unwaith y bydd wedi ei sefydlu, gallai'r Fforwm ffurfio cysylltiadau defnyddiol gyda Fforwm Strategol newydd y Sector Gyrfaoedd ledled y DU.**

**49. Dylai fod gan y Fforwm gyswllt ffurfiol gyda BCSC a gyda Fforwm PAB Cymru gyfan.**

**50. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu arweinydd clir yn APADGOS i gyd-drefnu'r holl bolisïau a nawdd mewn perthynas â'r holl system o wasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru, i gefnogi'r Fforwm ac i gymryd rhan weithredol yn Rhwydwaith Polisi Cyfarwyddyd Gydol Oes Ewrop.**

**51. Dylid cyflwyno cod safonau moesegol cyffredinol i'r gwasanaethau gyrfaoedd ledled Cymru.**

**52. Dylid cyflwyno trefniant o drwydded i ymarfer neu gofrestr gymeradwy sy'n cofnodi cymwysterau a phroffil datblygiad proffesiynol parhaus ymarferwyr gyrfaoedd yng Nghymru fel gall dinasyddion fod yn sicr y cân nhw wasanaethau o safon.**

## Trefniadaeth a Brand Gyrfa Cymru

**53. Dylai'r corff Gyrfa Cymru newydd gadw isadeiledd rhanbarthol sy'n gallu cysylltu â rhanddeiliaid lleol er mwyn adeiladu ar y cryfderau presennol ac arfer gorau.**

**54. Mae angen i frand Gyrfa Cymru gael ei fabwysiadu a'i hybu gan y corff newydd a'i ddefnyddio gan bawb o fewn y teulu o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd.**

**55. Mae angen i holl aelodau'r teulu gyrfaoedd yng Nghymru gytuno ar femorandwm dealltwriaeth cyffredin ynghylch cynllunio a darparu gwasanaethau.**

**APADGOS: Cangen Bolisi Gwasanaeth Gyrfaoedd**

**56. Dylid adolygu swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Gangen Polisi Gwasanaeth Gyrfaoedd yn ffurfiol a'u cryfhau er mwyn sicrhau bod yr holl bolisïau a gaiff eu datblygu, sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd, yn gwbl gydlynol.**

**57. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Chadeirydd, Prif Weithredwr ac uwch gynrychiolwyr eraill y corff newydd er mwyn trafod amcanion polisi a darpariaeth.**

**58. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu peth arian cychwynnol ac adnoddau staff i sefydlu ysgrifenyddiaeth i Fforwm Strategol y Gwasanaeth Gyrfaoedd.**

**59. Dylai swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru gymryd mwy o ran yn Rhwydwaith Polisi Cyfarwyddyd Gydol Oes Ewrop gan gysylltu â datblygiadau cyfatebol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.**

**60. Dylai fod gan Gangen Bolisi'r Gwasanaeth Gyrfaoedd berthynas uniongyrchol agosach o lawer gydag Isadran Busnes a Sgiliau APADGOS, Is-adran Menter Adran yr Economi a Thrafnidiaeth a gyda'r Adran Waith a Phensiynau/Jobcentre Plus gyda golwg ar ddatblygu gwybodaeth am y farchnad lafur, lleoliadau swyddi a darparu agendâu 'gwarant yr ifanc', NEET, sgiliau a menter a'r rhaglenni o fudd-dâl i waith.**

# Crynodeb gweithredol a sylwadau i gloi

**210.** Mae gan deulu'r gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru swyddogaeth allweddol i'w chyflawni o ran dwyn ochr 'cyflenwi' ac ochr 'galw' y farchnad lafur at ei gilydd a thrwy gynorthwyo i wireddu potensial llawn pob un sy'n gobeithio am fywyd gwaith gwerth chweil. Maen nhw'n casglu ac yn lledaenu gwybodaeth a dealltwriaeth am addysg a chyfleoedd profiad gwaith a lleoliadau swyddi; ac maen nhw'n cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i fynegi eu huchelgeisiau, cynllunio eu llwybrau dysgu, datblygu eu sgiliau a darganfod gwaith addas neu hunangyflogaeth.

**211.** Maen nhw'n cynnwys amrediad eang o ddarparwyr gwasanaeth, grwpiau cleientiaid a rhanddeiliaid eraill. Gyda'i gilydd, mae'r darparwyr gwasanaeth ar hyn o bryd yn ffurfio 'system' weddol lac, ac er bod i'r system hon rai nodweddion cryf, mae ei natur dameidiog bresennol a'r diffyg arweinyddiaeth yn cyfyngu ar ei heffeithiolrwydd, ei heffeithlonrwydd a'i chydlyniad.

**212.** Mae uno arfaethedig cwmnïau Gyrfa Cymru felly'n cynrychioli'r cam cyntaf pwysig o symud y cyfyngiadau hyn drwy gael gwared ar ffiniau mewnol a'i gwneud yn bosibl cael arweinyddiaeth strategol yn y corff. Bydd hefyd yn gwella'r gobeithion o sefydlu perthynas fwy cydlynol a chyson rhwng Gyrfa Cymru a darparwyr gwasanaeth gyrfaoedd eraill yng Nghymru.

**213.** Fodd bynnag, mae hefyd angen eglurhad o swyddogaethau, cyfrifoldebau a ffiniau Gyrfa Cymru a'r darparwyr gwasanaeth amrywiol eraill yn y system ehangach er mwyn cydweithio'n agosach. Mae angen sefydlu pwy sydd yn y sefyllfa orau i wneud beth a sut y dylai'r cyrff unigol ryngweithio gyda'i gilydd er mwyn darparu casgliad o wasanaethau cyffredinol cyflawn a chynhwysfawr i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Canfu ein hadolygiad ni fod eglurder yn brin ar hyn o bryd yn rhai o'r rhyngwynebau polisi a gwasanaeth a nodwyd – megis darparu'r fframwaith GBG, rôl anogwyr dysgu, rheoli pobl ifanc NEET, cwmpasiad gwasanaethau gyrfaoedd addysg uwch, casglu gwybodaeth y farchnad lafur, a gweithredu diwygiad lles – a bod yn rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru fynd i'r afael â hyn fel mater o frys.

**214.** Diffinio rolau yw'r man cychwyn hanfodol, ond mae'n rhaid dilyn hyn hefyd drwy fonitro sut mae'r rhagnodiadau hynny'n ymsefydlu. Yn achos fframwaith GBG a'r rhyngwyneb rhwng Gyrfa Cymru a gwasanaethau gyrfaoedd addysg uwch yng Nghymru, gwelwn le i Estyn chwarae rhan fwy; ac rydym yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol i BCSC asesu perthnasedd, ansawdd ac effaith gweithgareddau profiad sy'n canolbwyntio ar waith, gyda'r bwriad o benderfynu ar gasgliad cliriach o ofynion i gynorthwyo'r PABau.

**215.** Credwn y gallai'r PABau, mewn cydweithrediad â'r CSSau, o bosibl, chwarae rôl lawer mwy wrth gyfeirio pobl ifanc ac oedolion ifanc tuag at waith a menter. Rydym yn gweld gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adfywio'r rhain fel datblygiad hollbwysig tuag at wella ansawdd y profiadau sy'n canolbwyntio ar waith ar gyfer yr holl ddysgwyr a'r rhai sy'n dychwelyd i'r gweithlu a gwella ansawdd yr wybodaeth am y farchnad lafur ar lefelau rhanbarthol a lleol yng Nghymru. Bydd hyn yn golygu ail-lansio'r PABau fel brand ar wahân os ydyn nhw i ddenu cefnogaeth a chyfranogaeth ehangach ymhlith cyflogwyr a darparwyr addysg a chyflawni eu potensial yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Fodd bynnag, yn fwy cyffredinol, rydym o blaid adeiladu ar lwyddiant brand Gyrfa Cymru drwy gyflwyno logo cyffredin i'w ddefnyddio gan bawb o fewn y teulu o ddarparwyr gwasanaeth gyrfaoedd, lle bo modd, er mwyn tanlinellu'r ffaith eu bod yn perthyn i'w gilydd.

**216.** Mae hefyd angen adeiladu gallu personél o ran addysg gyrfaoedd a gwasanaeth cyfeirio yn llawer o'r darparwyr gwasanaeth yn y teulu ehangach o wasanaethau gyrfaoedd – megis athrawon gyrfaoedd a chyd-drefnwyr gyrfaoedd a phrofiad gwaith ac anogwyr dysgu mewn ysgolion a cholegau; gweithwyr cymorth ieuenctid mewn gwasanaethau cymdeithasol, timau troseddwyr ifanc, a mudiadau gwirfoddol; cynrychiolwyr undebau llafur a dysgu yn y gymuned; a staff Jobcentre Plus – fel y gall y cynghorwyr gyrfaoedd, sydd wedi eu hyfforddi'n broffesiynol, ganolbwyntio'u sylw ar y cleientiaid sydd angen cyngor a chyfarwyddyd. Bydd adeiladu'r gallu yma'n golygu buddsoddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn hyfforddiant, nid lleiaf mewn arian sefydlu ar gyfer datblygu darpariaeth cyrsiau achrededig mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru. Er hynny, mae datblygiad o'r fath yn allweddol i ryddhau mwy o amser cynghorwyr gyrfaoedd i symud at ddarparu cyfarwyddyd i oedolion er mwyn cefnogi'r rhaglenni diwygio lles a gwella sgiliau.

**217.** Ystyriwn y byddai sefydlu Fforwm Strategol Gwasanaethau Gyrfaoedd o gymorth mawr i dynnu'r teulu o wasanaethau gyrfaoedd at ei gilydd er mwyn rhoi arweiniad ac ysgogiad i wneud gwelliannau ymarferol mewn trefniadau cynllunio a darparu gwasanaethau, datblygu staff, hybu arfer da a safonau ansawdd cyffredin ac eiriolaeth y sector. Er ein bod yn disgwyl i Lywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu fforwm o'r fath, ar Gyrfa Cymru a gwasanaethau gyrfaoedd addysg uwch y bydd y cyfrifoldeb wedyn i ddatrys y prinder dybryd o arweinyddiaeth broffesiynol sy'n bodoli yn y sector ar hyn o bryd.

**218.** Wrth gwrs, ni fydd ar bob defnyddiwr gwasanaeth angen yr un faint o gymorth. Mae'n rhaid teilwra ymyriadau gwasanaeth yn sensitif i anghenion yr unigolyn, unwaith y bydd yr anghenion hynny wedi eu canfod. Yn wir, i lawer o bobl mae'n bosibl, mai'r anogaeth a'r arweiniad ar sut y gallan nhw'u helpu eu hunain yw'r unig gymorth fydd ei angen arnyn nhw, tra bydd ar eraill angen cymorth mwy gweithredol ar adegau allweddol o bontio neu dros gyfnod estynedig. Mae gwasanaeth cleient-ganolog, pwrpasol yn anochel yn wasanaeth gwahaniaethol. Ni ddylai fod yn syndod felly fod yr adolygiad hwn wedi'i anelu'n gadarn at ddatblygu model gwasanaeth gwahaniaethol ar gyfer pobl ifanc ac oedolion hefyd. Mae'n nodi'r ail beth hanfodol sydd angen digwydd er mwyn sicrhau newid strategol bychan o symud adnoddau cynghorwyr gyrfaoedd at wasanaethau i oedolion heb amharu ar y gwasanaethau i bobl ifanc.

**219.** Mae gwefan GCA a gwasanaeth llinell gymorth Gyrfa Cymru eisoes yn darparu llwyfannau ardderchog ar gyfer cynyddu'r gyfran o ddefnyddwyr gwasanaeth sydd ddim angen cyfweliad wyneb yn wyneb; ond mae angen buddsoddiad trawsnewidiol pellach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn datblygu ac integreiddio'r gwasanaethau hyn (gyda'i gilydd a gyda phyrth ar-lein darparwyr gwasanaeth eraill) a chynyddu'r defnydd posibl i'r eithaf. Mae ar ddarparwyr gwasanaeth mewn ysgolion a cholegau, darparwyr dysgu yn y gweithle a thimau eraill i gefnogi cleientiaid angen hyfforddiant ar sut i ddefnyddio gwefan GCA, rhaid sicrhau bod cyfrifiaduron ar gael a rhaid gwella mynediad at y band llydan os yw darpariaeth ar-lein i ddod yn brif gyfwng ar gyfer darparu gwasanaeth GCCh gyrfaoedd cyffredinol. Bydd defnydd eang o wefan GCA wedyn yn gwella'r rhagolygon o greu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ar-lein, a allai gynrychioli newid sylweddol mewn trefniadau gweinyddol yn ogystal â chynhyrchu gwybodaeth reoli; a gallai hwyluso'r ffordd i ymestyn neu i integreiddio gyda systemau rheoli cwsmeriaid a ddefnyddir gan aelodau eraill o 'deulu' y gwasanaethau gyrfaoedd.

**220.** Mae'r cysylltiadau rhwng Gyrfa Cymru a gwasanaethau gyrfaoedd addysg uwch ar hyn o bryd yn gyfyngedig ac anghyson; ac mae amrywiaeth sylweddol rhwng y gwasanaethau gyrfaoedd addysg uwch o ran y gwasanaeth maen nhw'n ei gynnig i ddarpar fyfyrwyr, myfyrwyr presennol a blaenorol. Mae hwn yn faes arall lle y gallai un corff Gyrfa Cymru fod o gymorth i wneud gwahaniaeth mawr mewn penderfynu ffiniau a datblygu trefniadau cydweithio. Credwn y dylai'r sector addysg uwch weithio gyda Gyrfa Cymru i greu 'canolfan rhagoriaeth' fyddai'n gweithredu fel canolbwynt i ymchwil gyrfaoedd, datblygu polisi a gwella gwasanaeth.

**221.** Gyda'i gilydd, mae ein hargymhellion yn cynrychioli gweledigaeth a strategaeth glir ar gyfer y tymor canol, er y dylai fod yn bosibl symud rhai ohonyn nhw ymlaen yn gynt yr un pryd ag uno Gyrfa Cymru. Bydd angen i eraill ddatblygu fel y bydd yr adnoddau'n caniatáu. Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn ymgynghoriad gyda darparwyr y gwasanaeth, sydd i benderfynu pa mor gyflym y bydd y newid yn digwydd yn y 'cyfeiriad teithio' yma. Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ei hun roi mwy o sylw i'r gwasanaethau cysylltiedig yma a rhaid iddi hybu cydlyniad yn y ffordd y mae'n ymwneud â nhw, er mwyn eu galluogi i gyflawni eu swyddogaeth allweddol o gydweddu cyflenwad y farchnad lafur gyda'r galw. Mae'n rhaid iddi hefyd eu galluogi a'u hannog i edrych allan a dysgu oddi wrth ddatblygiadau mewn rhannau eraill o'r DU, rhannau eraill o Ewrop ac yn y byd ehangach.

**222.** Sylweddoli eu potensial nhw eu hunain yn ogystal ag eiddo'u cleientiaid ddylai'r uchelgeisiau i'r dyfodol fod ar gyfer datblygu'r gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru. Yn wir, mae'r uchelgeisiau hyn yn cydgyfeirio, gan y bydd ansawdd y gwasanaeth y byddan nhw'n ei ddarparu i gleientiaid yn dibynnu i raddau helaeth ar y graddau y byddan nhw'n gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol gyda'i gilydd er lles gorau'r cleientiaid. Ar hyn o bryd, nid yw'n nhw'n cyflawni'r potensial hwnnw oherwydd nad yw'r cysylltiadau wedi eu diffinio a'u datblygu'n glir ac mae hynny'n arwain at ddiffyg cyfeiriad ac arweinyddiaeth gydlynol. I'r diben hwn rydym wedi hybu'r thema o 'arweinyddiaeth o fewn partneriaethau effeithiol' ar sail ymrwymiad cyffredin i hyrwyddo dyheadau'r cleient. Gobeithiwn y bydd y dadansoddiad a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn mynd rhan o'r ffordd tuag at gywiro'r diffygion hynny ac felly ei gwneud yn bosibl i wireddu'n llawn y weledigaeth o system integredig o ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd, dan arweiniad proffesiynol ac o safon fyd-eang.

# Atodiad 1: Papur cefndir ar y meysydd i gael eu cynnwys yn ystod ail gam yr adolygiad o wasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru

## Diben y papur

**1.** Cafodd yr adolygiad ei gomisiynu fel rhan o strategaeth a chynllun gweithredu'r *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ei ddiben yw penderfynu pa mor dda yw sefyllfa'r ddarpariaeth gyrfaoedd yng Nghymru ar gyfer ymateb i ffactorau dynamig sy'n codi o ddatblygiadau polisi, newidiadau demograffig ac amodau economaidd; a yw'r trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaeth yn effeithlon, yn effeithiol ac yn addas i'r diben o ran ateb anghenion unigolion, darparwyr addysg, rhieni, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill; ac a oes yna le i wella.

**2.** Mae cwmpasiad yr Adolygiad yn cynnwys yr ystod bresennol o wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd pob oed a ddarperir gan gwmnïau Gyrfa Cymru a'u perthynas gyda darpariaeth gwasanaeth arall gysylltiedig â gyrfaoedd mewn addysg, yn y sector gwirfoddol, mewn busnes, ac yn y system fudd-daliadau. Mae eisoes wedi archwilio perfformiad cwmnïau Gyrfa Cymru yn y blynyddoedd diwethaf a sut y mae'r gwasanaethau y mae'r cwmnïau hynny yn eu darparu yn cymharu gyda'r rheiny mewn rhannau eraill o'r DU a gwledydd blaenllaw eraill (drwy gyfeirio at feini prawf arfer da a sefydlwyd yn rhyngwladol), gan gymryd i ystyriaeth y disgwyliadau cynyddol sy'n cael eu rhoi ar y gwasanaethau hynny o ganlyniad i rymoedd demograffig, economaidd a pholisïau. Cynhyrchwyd dau adroddiad – y naill gan Estyn a'r llall gan yr Athro A G Watts – o ganlyniad i'r cam cyntaf hwn o'r Adolygiad a chyhoeddwyd y rhain gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 18 Mai 2009:

www.cymru.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2009/careers/?lang=en

www.estyn.gov.uk/inspection_reports/rep_careerswales.asp

www.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/skillsthatforwales/reviewcareersterms/?lang=en

**3.** Awgrymai'r adroddiadau hyn fod gan Gymru'r potensial ar gyfer system o safon fyd-eang o ddarparu gwasanaethau cysylltiedig â gyrfaoedd, ond bod amrywiol ddatblygiadau pellach yn debygol o fod yn angenrheidiol os yw'r system i fedru ymdopi â'r heriau niferus sy'n ei hwynebu.

**4.** Y Cylch Gorchwyl ar gyfer ail gam yr Adolygiad (fel y cafodd ei ddiwygio ym mis Ionawr 2010) yw gwneud y canlynol:

- cwmpasu ystod eang y gwasanaethau addysg a gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd, a ddarperir gan gwmnïau Gyrfa

Cymru a gwasanaethau cyfagos, perthnasol eraill a ddarperir mewn addysg, yn y sector gwirfoddol, busnes a'r system fudd-daliadau

- ystyried asesiad yr Athro Watts o sut mae'r gwasanaethau gyrfaoedd a ddarperir yng Nghymru'n cymharu gyda'r hyn a geir mewn rhannau eraill o'r DU a gwledydd blaenllaw eraill; a sut y gellid datblygu'r trefniadau presennol yng Nghymru yn system o safon fyd-eang
- edrych ar ofynion neilltuol grwpiau gwahanol o gleientiaid ac eiddo'r cyflogwyr wrth gynorthwyo unigolion i ddatblygu eu dyheadau o ran gyrfa, llwybrau dysgu a hunan-reoli gyrfa a sgiliau
- ystyried pa mor gydlynol a chost-effeithiol yw cyflwyno'r gwasanaethau presennol sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd a pha mor dda mae cwmnïau Gyrfa Cymru, darparwyr addysg, cynghorwyr gwaith a darparwyr gwasanaeth cyfagos eraill yn gallu gweithio mewn partneriaeth; dylai hyn fod ar sail y rhagdybiaeth y caiff cwmnïau Gyrfa Cymru eu dwyn ynghyd yn un corff sengl cyn gynted ag y bo modd
- datblygu'r weledigaeth o system addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd sy'n integredig, dan arweiniad proffesiynol ac o safon fyd-eang ar gyfer pob oed a phob gallu
- cynnig strategaeth ar gyfer gwireddu'r weledigaeth hon.

**5.** Mae cam nesaf yr Adolygiad felly i ystyried y materion sy'n effeithio ar wahanol feysydd darparu gwasanaeth mewn mwy o fanylder. Caiff ei arwain gan Grŵp Craidd o adolygwyr allanol yn cael eu cynorthwyo gan Grŵp Cyfeirio o gynrychiolwyr cyrff sy'n rhanddeiliaid pwysig fydd yn gweithredu fel sianel gyfathrebu gyda chymunedau'r rhanddeiliaid a hefyd fel 'seinfwrdd' i'r canfyddiadau fydd yn dod i'r amlwg. Bydd yn talu sylw arbennig i'r lle sydd yna i wneud gwelliannau ymarferol yn y ffordd y mae amrywiol ddarparwyr gwasanaeth o fewn y system eang wedi eu trefnu ac yn rhyngweithio gyda'i gilydd, gyda'r bwriad o gyflawni integreiddiad mwy effeithlon ac effeithiol rhyngddyn nhw. Y nod fydd cynhyrchu casgliad o argymhellion ar gyfer gwella, fydd, gyda'i gilydd, yn cynrychioli strategaeth ar gyfer sicrhau system hyblyg a chadarn o wasanaethau cysylltiedig â gyrfaoedd, dan arweiniad proffesiynol, o safon fyd-eang, sy'n gallu ymdrin â gofynion cynyddol mewn ffordd sy'n rhesymol, yn ymatebol ac yn canolbwyntio ar y cwsmer.

**6.** Diben y papur hwn yw dangos y prif faterion sydd i gael eu harchwilio er mwyn cyflawni'r maes gorchwyl hwn. Bydd yn gwasanaethu fel agenda ar gyfer y Grŵp Craidd yn ei drafodaethau gyda sefydliadau unigol sy'n rhanddeiliaid ac yn ei drafodaethau dilynol gyda'r Grŵp Cyfeirio ynglŷn â'i ganfyddiadau a'i gynigion ar gyfer gwella.

## Y cefndir

### Y cyd-destun ehangach

**7.** Mae'r Undeb Ewropeaidd yn gweld cyfarwyddyd gyrfaoedd gydol oes yn ffactor allweddol fydd yn cyfrannu tuag at gyflawni tair blaenoriaeth strategaeth Lisbon: y gallu i gystadlu'n economaidd, brwydro yn erbyn allgau cymdeithasol ac effeithlonrwydd polisïau cyflogaeth a'r farchnad lafur. Mae Gweinidogion yr Undeb Ewropeaidd wedi nodi cyfarwyddyd fel un o'r pedwar cam allweddol tuag at greu amgylcheddau dysgu agored, deniadol a hygyrch er mwyn cefnogi dysgu ym mhob oed ac mewn amrywiaeth o leoliadau a grymuso dinasyddion i reoli eu dysgu a'u gwaith, yn enwedig drwy ei gwneud yn haws iddynt gael mynediad at amrywiol gyfleoedd dysgu a llwybrau gyrfa a gwneud cynnydd drwyddynt. Maen nhw felly wedi rhwymo Aelod-wladwriaethau i ddatblygu darpariaeth gyfarwyddyd o safon uchel i bob dinesydd Ewropeaidd, fydd ar gael ar bob cyfnod yn eu bywydau i'w galluogi i reoli eu dysgu a'u llwybrau gwaith nhw eu hunain a'r trawsnewidiadau yn y rhain.

**8.** Nododd y 5ed Symposiwm Rhyngwladol ar Ddatblygu Gyrfa a Pholisi Cyhoeddus a gynhaliwyd yn Wellington, Seland Newydd (Tachwedd 2009) bedair thema bwysig i'w hystyried wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yr unfed ganrif ar hugain, sef (i) Technoleg sy'n Trawsnewid, sef defnyddio cyfleusterau ar y we a llinell gymorth i ddarparu gwasanaethau personol i'r unigolyn; (ii) Profi ei fod yn Gweithio sef defnyddio rheolaeth perfformiad, bodlonrwydd cwsmeriaid a data cyrchfannau i ddangos pa mor effeithlon ac effeithiol yw'n nhw; (iii) Cydweithio Creadigol sef defnyddio deddfwriaeth, cyfarwyddyd polisi a fframweithiau arolygu/atebolrwydd i feithrin cydweithio rhwng asiantaethau; a (iv) mae Diwylliant yn Cyfrif sef gosod pwyslais cynyddol ar ddysgu a datblygu yn y gymuned. Mae'r themâu eang hyn yn darparu fframwaith cyffredinol i gynorthwyo i hysbysu ail gam adolygiad y Gwasanaethau Gyrfaoedd yng Nghymru.

## Darparu addysg, gwybodaeth a chyfarwyddyd gyrfaoedd yng Nghymru

**9.** Mae ymwybyddiaeth o bosibiliadau gyrfa'n cychwyn mewn ysgolion cynradd fel rhan o fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) pan gyflwynir cysyniadau megis rolau swyddi ac ennill arian drwy waith. Yn yr ysgol uwchradd, mae addysg gyrfaoedd a dysgu cysylltiedig â gwaith yn ffurfio cydran ar wahân yn y cwricwlwm dan fframwaith GBG, ond ceir graddau o hyblygrwydd yn y ffordd y caiff ei chyflwyno. Mae'r hawl dysgu yma yn perthyn i bawb sy'n 11–19 mlwydd oed ym mhob amgylchedd dysgu, gan gynnwys y chweched dosbarth, colegau addysg bellach a lleoliadau dysgu seiliedig ar waith. Mae chwe Chwmni Gyrfa Cymru yn hwyluso mynediad ysgolion at Brofiad sy'n Canolbwyntio ar Waith (PCW) drwy eu gweithgareddau cysylltiadau addysg-busnes.

**10.** Fodd bynnag, mae mewnbwn cwmnïau Gyrfa Cymru i ddatblygu dyheadau a llwybrau gyrfa pobl ifanc wedi ei ganolbwyntio'n bennaf ar ddarparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd (GCCh) gyrfaoedd diduedd mewn ysgolion a cholegau, yn y gymuned drwy eu rhwydwaith o swyddfeydd yn y stryd fawr, a thrwy wefan GCA. Maen nhw hefyd yn cynnig gwybodaeth am y farchnad lafur a gwasanaethau lleoliadau gwaith i bobl ifanc sy'n dod i mewn i'r farchnad lafur sydd dan y trothwy oedran i dderbyn cefnogaeth gan rwydwaith Job Centre Plus yr Adran Waith a Phensiynau. Mae Gyrfa Cymru'n darparu gwasanaeth cyffredinol i bobl ifanc mewn addysg a rhai 16 a 17 oed yn y farchnad lafur, ond mae'r cwmnïau'n darparu gwasanaethau yn unol â'r blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy Gynlluniau Busnes a gytunir yn flynyddol. Mae'r gofynion presennol yn canolbwyntio darpariaeth ar gleientiaid ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau, y rheiny sydd mewn perygl o ddod yn NEET (sef ddim mewn gwaith, addysg na hyfforddiant) a grwpiau eraill sy'n agored i niwed ac 'mewn perygl'. Mae'r gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc yn amsugno oddeutu 80 y cant o'r cyllid gan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**11.** Cyfeirir gweddill cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru i gwmnïau Gyrfa Cymru tuag at ddarparu gwasanaethau GCCh gyrfaoedd i oedolion. Eto, mae gwasanaethau o'r fath ar gael ac yn hygyrch i bawb, ond rhoddir y flaenoriaeth i'r oedolion hynny sydd leiaf galluog – oherwydd eu cefndir addysgol neu gymdeithasol, anghenion arbennig neu amgylchiadau economaidd – i fedru ymgymryd â'u hymchwil eu hunain a llunio cynlluniau gyrfa.

Mae'r dirwasgiad yn y blynyddoedd diwethaf wedi tanlinellu'r angen am ddarpariaeth GCCh gyrfaoedd ar gyfer yr oedolion hynny sydd eisoes mewn gwaith ond sy'n wynebu colli eu gwaith.

**12.** Mae cwmnïau Gyrfa Cymru hefyd wedi cynhyrchu incwm ychwanegol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, Cymorth a Rhwydweithiau 14–19 ar gyfer darparu datblygiad personol ychwanegol 'Porth Ieuenctid' i'r bobl sydd fwyaf mewn perygl o gael eu dadrithio; a thrwy gontractau gyda'r Adran Waith a Phensiynau i ddarparu rhai gwasanaethau GCCh i gleientiaid rhaglenni'r 'Fargen Newydd Hyblyg' ar gyfer y rhai di-waith. Mae ychydig o'r cwmnïau hefyd wedi darparu rhai gwasanaethau GCCh i fyfyrwyr mewn addysg uwch dan gontractau gyda sefydliadau addysg uwch. Fodd bynnag, darperir gwasanaethau GCCh i fyfyrwyr a graddedigion yn y cyfnod yn syth ar ôl graddio, yn bennaf, gan wasanaethau gyrfaoedd mewnol y sefydliadau eu hunain sydd â'r cyfrifoldeb – drwy arweiniad gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru – i baratoi dysgwyr ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth ac entrepreneuriaeth yn y dyfodol.

**13.** Mae amrywiol fudiadau gwirfoddol hefyd yn darparu amrediad o wasanaethau cyfarwyddyd gydol oes. Bydd darpariaeth o'r fath fel arfer wedi ei chyfeirio tuag at grwpiau cleientiaid penodol – er enghraifft, y rheiny ag anableddau penodol – neu byddant wedi eu cyfyngu i ardaloedd daearyddol diffiniedig. Yn yr un modd, mae Cronfa Ddysgu Undeb Cymru (CDdUC) yn bodoli i gynorthwyo aelodau'r Undebau Llafur i gyfranogi mewn dysgu gydol oes yn y gweithle ac mae hynny wedi arwain at brosiectau lle mae undebau a chyflogwyr yn cydweithio i godi lefelau sgiliau. Un o amcanion penodol CDdUC yw darparu cyngor, cyfarwyddyd a chymorth ychwanegol i ddysgwyr. Gall y gwasanaethau hyn yn aml dderbyn cymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu gyllid Ewrop.

**14.** Mae'r gwasanaethau GCCh a ddarperir gan y sector preifat yn llai cyffredin yng Nghymru nag yn Lloegr a rhai gwledydd eraill, ond mae yna amrywiol asiantaethau yn y sector preifat yn cynnig gwasanaethau lleoliadau gwaith ac eraill yn cynnig gwasanaethau cefnogi i oedolion ar raglenni'r 'Fargen Newydd' dan gontract i'r Adran Waith a Phensiynau.

**15.** Mae gwefan CLIC ar-lein, a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn cynnig gwybodaeth a chyngor mwy cyffredinol i bobl ifanc 11 i 25 mlwydd oed yng Nghymru, y gellir ei chymharu gyda rhai o'r gwasanaethau GCCh, heb fod yn ymwneud â gyrfaoedd, a ddarperir gan rwydwaith Connexions yn Lloegr. Gall pobl yng Nghymru hefyd gael mynediad at wasanaethau amrywiol, o bell, sy'n darparu GCCh perthnasol i waith drwy wefannau ar y rhyngrwyd sy'n gwasanaethu'r DU i gyd.

### Y prif sbardunau polisi yng Nghymru sy'n effeithio ar y gwasanaethau cysylltiedig â gyrfaoedd a ddarperir

#### (a) Paratoi pobl ifanc ar gyfer dysgu a gwaith

**16.** Mae fframwaith polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pobl ifanc wedi ei egluro yn *Ymestyn Hawliau* sy'n ceisio darparu gwasanaethau cymorth effeithiol ar gyfer pobl ifanc 11 i 25 oed, o ran cefnogaeth gyffredinol a chefnogaeth ychwanegol wedi ei thargedu. Mae ei pholisi Llwybrau dysgu 14–19 (a atgyfnerthwyd gan *Fesur Dysgu a Sgiliau* (Cymru) 2009) yn ategu *Ymestyn Hawliau* drwy geisio ymestyn dewis a hyblygrwydd wrth ddysgu, llwybrau dysgu unigol diogel sy'n ateb anghenion dysgwyr, a darparu cyfleoedd a phrofiadau cyfoethocach i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau ehangach sydd eu hangen ar gyfer bywyd a gwaith. Ynghyd â hyn mae'r angen am gyfuniad pwrpasol o anogaeth i ddysgwyr a mynediad at wasanaethau GCCh gyrfaoedd arbenigol, unigol a diduedd er mwyn cynorthwyo pobl ifanc i wneud dewisiadau da a goresgyn rhwystrau ar ffordd dysgu.

**17.** Mae gweithredu fframwaith cwricwlwm GBG yn effeithiol mewn ysgolion a cholegau yn hanfodol os yw cyfeiriadaeth gyrfaoedd a datblygu sgiliau cynllunio gyrfa i ddatblygu ochr yn ochr â dysgu arall; ac mae angen cefnogi addysg alwedigaethol ac addysg gyrfaoedd â chyfleoedd profiad perthnasol sy'n canolbwyntio ar waith a chysylltiadau eraill gyda menter a byd gwaith. Yn hyn o beth, mae'r camau polisi arfaethedig fydd yn llifo o argymhellion *Adroddiad Tasglu Ymgysylltiad Cyflogwyr 14–19 ar Brofiad sy'n canolbwyntio ar Waith* ac o'r *Strategaeth Menter Ieuenctid* yn arbennig o berthnasol.

**18.** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth gryfach i bobl ifanc: ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol; y rheiny sydd mewn perygl o gael eu dadrithio; a grwpiau eraill agored i niwed ac 'mewn perygl'. Mae ei

*Chynllun Gweithredu NEET 2009* yn nodi mai darpariaeth Porth Ieuenctid a Phorth Addysg a ddarperir gan Gyrfa Cymru yw dwy o'r prif raglenni sydd yn anelu at gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Er hynny, mae cryn amrywiadau wedi codi'n rhanbarthol wrth gyflwyno'r rhaglenni yma ar draws Cymru (o ganlyniad i anghenion a dulliau lleol gwahanol), y bydd angen eu safoni efallai. Mae hefyd yn awgrymu angen i ddatblygu cysylltiadau a gwahaniaethau cliriach rhwng y Porth Ieuenctid ôl-16 a rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith megis *Adeiladu Sgiliau*.

### (b) Agenda'r *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*

**19.** Mae agenda sgiliau a chyflogaeth cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei egluro yn strategaeth a chynllun gweithredu *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* (SSGG) a ddatblygwyd yn ystod 2007. Yn rhannol, ymateb oedd SSGG i adroddiad Leitch ar sgiliau yn y DU ac Adolygiad Webb o Addysg Bellach yng Nghymru, *Addewid a Chyflawniad*. Roedd y strategaeth yn rhestru amrediad o gamau ar gyfer ymateb i'r lefelau cymharol isel o sgiliau a chyflogaeth yng Nghymru. Ystyrid bod gan wasanaethau GCCh gyrfaoedd ran bwysig i'w chwarae yn llawer o themâu allweddol y strategaeth:

- paratoi pobl ifanc ar gyfer y dyfodol
- lleihau'r niferoedd o bobl ifanc sy'n 'NEET'
- cynorthwyo oedolion i asesu ac ailasesu eu llwybrau dysgu a gyrfa drwy gyfarwyddyd i oedolion a gwasanaeth cynghori ynghylch colli gwaith
- cael y pethau sylfaenol yn iawn sef llythrennedd a rhifedd, gan gynnwys ehangu Adduned Cyflogwr Sgiliau Sylfaenol a defnydd ehangach o asesiad sgiliau sylfaenol
- sefydlu model 'grisiau gyrfa' cyflogaeth a sgiliau integredig sy'n golygu ehangu darpariaeth GCCh oedolion i gynorthwyo mwy o bobl i gael i mewn i waith a chael ymlaen yn y gwaith
- cyflawni ymrwymiad *Cymru'n Un* i gynyddu nifer y Prentisiaethau Modern
- datblygu'r gweithlu – symleiddio'r gefnogaeth ar gyfer busnes, cynyddu'r Rhaglen Datblygu'r Gweithlu a gwella Cronfa Ddysgu Undeb Cymru
- throsglwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu addysg i garcharorion sy'n oedolion o'r Adran Gyfiawnder i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

### (c) Datblygiadau o ran y system fudd-daliadau a gwasanaethau cyfarwyddyd i oedolion yn y DU yn fwy cyffredinol

**20.** Daw hefyd ddatblygiadau polisi ehangach o gyfeiriad Llywodraeth y DU a all fod â goblygiadau ar gyfer rhai agweddau ar y ddarpariaeth GCCh yng Nghymru.

**21.** Nid yw newidiadau i'r system fudd-daliadau – o ran cynorthwyo'r bobl sy'n economaidd segur dros dymor hir a'r rheiny sy'n hawlio budd-daliadau yn fwy cyffredinol i mewn i waith cynaliadwy – yn fater sydd wedi ei ddatganoli. Mae'r Ddeddf Diwygio Lles a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2009, yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sydd wedi eu bwriadu i sicrhau mwy o hyblygrwydd a thargedu cefnogaeth i'r unigolyn, ac eraill ynghylch bod yn barod ar gyfer gwaith, fydd yn effeithio ar yr amodau ar gyfer hawlio budd-daliadau. Bydd yr olaf yn cynnwys gofyn i hawlwyr budd-daliadau ymgymryd ag asesiad sgiliau (a allai, yng Nghymru, olygu bod staff Gyrfa Cymru yn cynnal asesiadau o'r fath). At hynny, daeth ystod o fentrau polisi o'r Adran Waith a Phensiynau i ateb anghenion gwahanol rannau o'r boblogaeth megis *Backing Young Britain* i annog cyflogwyr i roi cyfleoedd i bobl ifanc; a *School Gate* i ddarparu cymorth cyflogaeth i rieni sydd wedi colli eu gwaith rhan-amser oherwydd y dirwasgiad.

**22.** Yn Lloegr, mae'r Adran Fusnes, Mentrau a Sgiliau (BIS) a'r Adran Waith a Phensiynau (DWP) yn treialu nifer o ddulliau i integreiddio cyflogaeth a chymorth sgiliau (IES), gan gynnwys gwasanaethau GCCh gyrfaoedd, fel yr eglurwyd yn y Papur Gorchymyn *Work Skills* (Mehefin 2008). Yng Nghymru, mae'r materion hyn wedi cael eu nodi yn y *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* drwy'r model 'Grisiau Gyrfa' arfaethedig. Mae nifer o beilotiaid IES bychain i fod i ddechrau yn gynnar yn 2010 yng Nghymru.

**23.** Ochr yn ochr â hyn, mae'r Adran Fusnes, Menter a Sgiliau yn cynllunio i ddwyn ynghyd y gwasanaeth *Cyngor Gyrfaoedd* dros y ffôn a'r gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ar y we, a ddarperir ar hyn o bryd gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau gyda'r gwasanaethau GCCh wyneb yn wyneb, i gael eu darparu gan gyrff Next Steps yn Lloegr. Mae'r gwasanaeth newydd, a enwyd dros dro yn *wasanaeth datblygu oedolion a gyrfaoedd* (aacs) i fod i ddod i rym ar y 1af o Awst 2010. Mae'r llinell gymorth (a elwid learndirect gynt) wedi cael ei gweithredu yng Nghymru gan Gyrfa Cymru ac felly bydd angen penderfynu ar y berthynas rhwng y gwasanaeth hwn a'r aacs yn y dyfodol.

## Crynodeb o brif ganfyddiadau cam 1 yr Adolygiad

### Adroddiad Estyn: *Dadansoddiad cymharol o berfformiad Gyrfa Cymru 2005–2008*

**24.** Er bod adroddiad Estyn yn nodi rhai amrywiadau mewn perfformiad rhwng Cwmnïau Gyrfa Cymru oedd wedi cael eu harolygu ers 2005, fe ddywedodd yr un pryd fod perfformiad yn gyffredinol yn dda neu yn dda iawn a bod yna rai nodweddion rhagorol mewn rhai cwmnïau. Nododd yr Adroddiad, fodd bynnag, rai diffygion yr oedd angen mynd i'r afael â nhw; ac, i'r diben hen, gwnaeth yr argymhellion canlynol:

(i) dylai Cwmnïau Gyrfa Cymru:

- gytuno ar strategaeth a chynllun gweithredu cenedlaethol i godi ansawdd, safonau a chanlyniadau gweithgareddau arweiniad ar gyfer cleientiaid
- gwella ffocws dangosyddion perfformiad fel y gallan nhw lywio cynllunio gwella effaith y gwasanaeth
- gwella mecanweithiau i rannu arfer dda a gwella medrau ac awdurdod staff ledled Cymru er mwyn cefnogi cleientiaid i gyflawni'r canlyniadau gorau yn sgil eu cysylltiad â Gyrfa Cymru
- gwella'r gwaith gan staff Gyrfa Cymru i baratoi pobl ifanc, gan gynnwys gweithgareddau trwy weithgareddau ar-lein Cyswllt Busnes Addysg a Gyrfa Cymru, er mwyn iddyn nhw gael mwy o wybodaeth ar gyfer y broses arweiniad, a'u bod wedi'u paratoi'n well ar ei chyfer, gyda mwy o bwyslais ar sefydlu medrau da o ran cynllunio gyrfa
- adeiladu ar arfer dda mewn gwaith partneriaeth gyda Llwybrau Dysgu 14–19 i ddatblygu strategaethau ymhellach er mwyn gwella'r dylanwad a gaiff Gyrfa Cymru ar bartneriaid allweddol sy'n ymwneud â pharatoi pobl ifanc i wneud penderfyniadau effeithiol o ran gyrfa
- adeiladu ar arfer dda er mwyn rhoi cymorth effeithiol i gleientiaid o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau sy'n agored i niwed, ac i'r rheiny nad Cymraeg a/neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf
- sefydlu strategaeth genedlaethol i sicrhau bod gwasanaethau yn lleihau effaith stereoteipio rhyw ac agweddau eraill ar stereoteipio yn y ffordd mae cleientiaid yn gwneud cynlluniau gyrfaoedd ac yn eu rhoi ar waith

- gwella ffocws cynllunio strategol i sicrhau bod pob cynllun yn:
  - gwneud defnydd da o ddata
  - cael eu monitro yn effeithlon
  - gwneud defnydd da o dargedau gwella
  - dangos yn glir, trwy arfarnu, yr effaith a gaiff cynlluniau ar gynnydd cleientiaid
- gwella dealltwriaeth pob aelod o staff o gynllunio busnes, monitro perfformiad a rheoli ansawdd ar gyfer gwella gwasanaeth.

(ii) dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- ddatblygu manylebau contract a thargedau cyflwyno sy'n canolbwyntio mwy ar effaith gwasanaeth ar ganlyniadau cleientiaid
- annog, mewn manylebau contract, gwasanaethau lleol i feincnodi perfformiad yn erbyn lefelau gwasanaeth cenedlaethol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno arnyn nhw.

### Adroddiad Watts: *Gyrfa Cymru: Adolygiad o Safbwynt Rhyngwladol*

**25.** Lle gellid gwneud cymariaethau dilys, dangosodd yr Athro Watts rai cyferbyniadau dadlennol gyda'r gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a Seland Newydd. Fodd bynnag, roedd y gwahaniaethau sylweddol yn amrediad y gwasanaethau a ddarperid yn y gwahanol wledydd, ynghyd ag anawsterau casglu data cymharol, yn ei gwneud yn amhosibl i raddau helaeth i wneud cymariaethau o ran gwerth am arian. Dibynnodd yr Athro Watts felly'n fwy helaeth ar feincnodi'r trefniadau yng Nghymru yn erbyn rheidiau systemau cyfarwyddyd pob oed a ddatblygodd ef a sylwebwyr blaenllaw eraill i fframio astudiaeth feincnodi OECD o 14 o wledydd yn 2003–04 a'r un a ddefnyddiodd wedyn wrth adolygu gwasanaethau yn yr Alban a Seland Newydd, sef:

- tryloywder a mynediad hawdd ar hyd oes, gan gynnwys y gallu i fodloni anghenion ystod amrywiol o gleientiaid
- sylw penodol i bwyntiau trosglwyddo allweddol ar hyd oes
- hyblygrwydd ac arloesi wrth ddarparu gwasanaethau er mwyn adlewyrchu gwahanol anghenion ac amgylchiadau grwpiau cleientiaid amrywiol

- prosesau er mwyn ysgogi adolygu a chynllunio rheolaidd
- mynediad at gyfarwyddyd unigol gan ymarferwyr cymwysedig ar gyfer y rheiny sydd angen help o'r fath, pan fo'i angen arnyn nhw
- rhaglenni i ddatblygu sgiliau rheoli gyrfa
- cyfleoedd i archwilio a chael profiad o ddewisiadau dysgu a gwaith cyn eu dewis
- mynediad sicr at ddarpariaeth gwasanaeth sy'n annibynnol o fuddiannau sefydliadau neu fentrau arbennig
- mynediad at wybodaeth gynhwysfawr ac integredig, addysgol, galwedigaethol ac ynghylch y farchnad lafur
- ymgysylltiad â rhanddeiliaid perthnasol.

**26.** Adolygodd hefyd y graddau o lwyddiant a gafodd Gyrfa Cymru wrth ateb y chwe her i lunwyr polisi yr oedd adolygiad OECD yn ei ddweud oedd wedi derbyn ond ychydig bach o sylw yn y rhan fwyaf o wledydd OECD sef:

- sicrhau bod penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau yn rhoi'r flaenoriaeth gyntaf i systemau sy'n datblygu sgiliau hunanreoli gyrfa a gwybodaeth am yrfa, a bod systemau darparu yn cydweddu lefelau o gymorth personol, o gymorth byr i gymorth helaeth, ag anghenion ac amgylchiadau personol, yn hytrach na chymryd yn ganiataol bod angen cyfarwyddyd gyrfa personol dwys ar bawb
- sicrhau mwy o amrywiaeth yn y mathau o wasanaethau sydd ar gael ac yn y modd y'i darperir, gan gynnwys mwy o amrywiaeth o ran strwythurau staffio, defnydd ehangach o dechnegau hunangymorth, ac ymagwedd fwy integredig tuag at ddefnyddio TGCh
- cydweithio'n agosach ag ymarferwyr cyfarwyddyd gyrfa er mwyn ffurfio natur addysg gychwynnol a phellach a chymwysterau hyfforddi er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau hunanreoli gyrfa, gwybodaeth well am yrfaoedd a darparu gwasanaethau mwy amrywiol
- gwella'r sail wybodaeth ar gyfer llunio polisïau cyhoeddus, gan gynnwys casglu data gwell ar yr adnoddau ariannol a dynol a ymroddir ar gyfer cyfarwyddyd gyrfa, ar anghenion a galw cleientiaid, ar briodweddau cleientiaid, ar foddhad cleientiaid ac ar ganlyniadau a chost effeithiolrwydd cyfarwyddyd gyrfa

- datblygu dulliau gwell o sicrhau ansawdd a chysylltu'r rhain ag ariannu gwasanaethau
- datblygu strwythurau cryfach ar gyfer arweinyddiaeth strategol.

**27.** Ar y cyfan, ystyriai fod Gyrfa Cymru cymharu'n dda yn erbyn y meini prawf OECD hyn, a bod ganddo'r potensial i ddod yn wasanaeth o safon fyd-eang; ond bod marciau cwestiwn ynghylch ei allu i gyflawni ei botensial ac ymdopi â'r pwysau presennol i newid oherwydd diffyg arweinyddiaeth, gallu strategol a chyllid. Llongyfarchwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru am sefydlu Gyrfa Cymru a meithrin ei ddatblygiad; ond derbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru beth beirniadaeth hefyd oherwydd nad oedd digon o gyd-drefnu ar bolisïau, gosod blaenoriaethau na darpariaeth adnoddau.

**28.** Roedd yr Athro Watts yn gweld bod gan Gyrfa Cymru gryfderau neilltuol o ran:

- cenhadaeth glir a chydlynol
- natur bob oed ei wasanaethau
- ei broffesiynoldeb ac ansawdd ei wasanaethau o ganlyniad
- y graddau mae wedi'i ymgorffori ym mholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru
- y graddau mae wedi'i ymgorffori mewn cymunedau lleol.

**29.** Ar yr un pryd roedd yn dirnad rhai heriau mawr gyda golwg ar:

- y galw sy'n cynyddu'n gyflym i godi lefelau'r gwasanaeth i oedolion mewn ymateb i agendau SSGG a diwygio lles yn ogystal â'r cynnydd sydyn yn y rhai fydd yn colli swyddi a diweithdra
- yr angen i benderfynu a fwriadwyd mewn gwirionedd i Gyrfa Cymru fod yn ddarparwr gwasanaeth pob oed a phob gallu ynteu a ddylai gael yr hawl i gyfyngu mynediad ac amrywio'r gwasanaeth mae'n ei gynnig wrth ymateb i rai categorïau o gleientiaid er mwyn canolbwyntio'r adnoddau sydd ar gael ar y rheiny sydd fwyaf o angen cymorth
- yr agenda partneriaeth yr oedd Gyrfa Cymru yn rhan fawr ohono ar lefel leol drwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc a rhwydweithiau 14 i 19 ac oedd yn cymryd llawer o amser rheoli Gyrfa Cymru.

**30.** Gan ddeall y byddai cynnydd o bwys mewn adnoddau yn annhebygol yn dilyn y dirwasgiad, rhagwelai'r Athro Watts yr angen i ailfodelu'r gwasanaethau gyrfaoedd yn sylweddol o blaid darpariaeth ar gyfer oedolion ar draul darpariaeth ar gyfer pobl ifanc drwy fabwysiadu darpariaeth fwy amlwg wahaniaethol ar gyfer pobl ifanc a chanolbwyntio mwy ar adeiladu gallu sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau. Yr un pryd, awgrymai fod yna le i wella natur cyflawn darpariaeth Gyrfa Cymru drwy ymestyn brand Gyrfa Cymru i wasanaethau gyrfaoedd addysg uwch (ond heb newid y ffaith mai eiddo eu sefydliadau eu hunain oedden nhw) er mwyn peri i'r systemau a'r gefnogaeth gael eu hintegreiddio – h.y. sefydlu Gyrfa Cymru Ar-lein fel yr offeryn gweinyddol unol a'r cyfrwng gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gydol oes – wrth i gleientiaid symud i mewn ac allan o amgylchedd addysg uwch.

**31.** Canfu'r Athro Watts yr angen am well arweinyddiaeth a gallu strategol o fewn Gyrfa Cymru ynghyd â rhyngwyneb cryfach gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cefnogai'r ddadl dros newid strwythurol a nodwyd yn adolygiad Moulson and Prail o Gyrfa Cymru yn 2004 ac awgrymai y gallai hyn olygu bod cwmni Cymdeithas Gyrfa Cymru yn cael ei drawsnewid yn brif gontractwr neu bod Gyrfa Cymru yn ei gyfanrwydd yn cael ei ad-drefnu naill ai yn rhif llai o gwmnïau neu yn gorff sengl (cwmni sengl, Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) neu'n rhan annatod o Lywodraeth Cynulliad Cymru) – er y cydnabyddai y byddai'r dewisiadau unedol yn achosi problemau sylweddol o ran cydgordio graddau a thelerau ac amodau. Gan edrych y tu hwnt i Gymru, awgrymodd hefyd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hyrwyddo'r syniad o sefydlu Fforwm Cyfarwyddyd Gyrfaoedd y DU i'w gwneud yn bosibl i arweinwyr gwasanaethau drafod materion cyffredin i'r DU i gyd (e.e. gyda golwg ar safonau proffesiynol, sgiliau sector a diwygio lles), yn cael ei gefnogi yng Nghymru gan Fforwm Cyfarwyddyd Gyrfaoedd Cymru, cysylltiedig o bosibl â Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (BCSC); ac anogai Lywodraeth y Cynulliad i gymryd mwy o ran yn y Rhwydwaith Polisi Cyfarwyddyd Gydol Oes Ewrop a gafodd ei sefydlu'n ddiweddar er mwyn cadw'r arweinyddiaeth yng Nghymru mewn cysylltiad â'r datblygiadau ar draws Ewrop ym maes cyfarwyddyd.

**32.** Daeth yr Athro Watts i'r casgliad bod Gyrfa Cymru yn gorff cryf a phroffesiynol oedd yn darparu gwasanaethau o safon uchel. Fodd bynnag, teimlai ei fod yn dod dan bwysau a heriau oedd yn bygwth tanseilio ei berfformiad ac a oedd yn gofyn am rai newidiadau radical yn ei fodelau darparu gwasanaethau, ei arweinyddiaeth, ei strwythur a'i berthynas gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, os oedd ei allu i gyflawni ei gylch gwaith pob-oed ddim i gael ei beryglu.

## Y prif feysydd i dderbyn sylw yng Ngham 2 yr Adolygiad

**33.** Dywedai adroddiadau Estyn a Watts ill dau fod y gallu gan gwmnïau Gyrfa Cymru i sicrhau rhai canlyniadau rhagorol, ond gwelent yr angen am welliannau pellach, yn arbennig gyda golwg ar gynllunio strategol, adeiladu gallu, rhannu data perthnasol ac arfer da, a gweithio gyda phartneriaid. Nododd yr Athro Watts angen i ailfodelu'r modd y darperid y gwasanaethau er mwyn cynnig arweinyddiaeth well ac integreiddio'r ddarpariaeth gwasanaeth o fewn Gyrfa Cymru a rhwng Gyrfa Cymru a darparwyr eraill oedd yn cynnig gwasanaethau cysylltiedig â gyrfaoedd. Awgrymai'r ddau adroddiad bod angen peth datblygiad yn y berthynas rhwng Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**34.** Bydd angen i ail gam yr Adolygiad felly ganolbwyntio ar y meysydd cyffredinol hyn ar gyfer gwella, i ystyried pa welliannau penodol y dylid eu gwneud, a pha gamau y dylai'r gwahanol sefydliadau sydd â diddordeb mewn cyflawni hyn eu cymryd.

**35.** Yn wir, bydd angen i'r dadansoddiad fod yn sensitif i'r amrywiol heriau a nodwyd yn gynharach yn y papur hwn ac yn Adroddiad Watts ac felly dalu sylw arbennig i'r cysylltiadau canlynol rhwng gwasanaethau a sefydliadau.

- Y rhyngwyneb rhwng addysg gyrfaoedd a gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd (GCCh) gyrfaoedd i bobl ifanc mewn ysgolion a cholegau gan gyfeirio'n arbennig at ofynion y cwricwlwm cysylltiedig â gwaith, darparu cysylltiadau addysg-busnes, swyddogaeth anogwyr dysgu 14–19 a gweithredu i ddarparu ar gyfer cleientiaid ag anghenion ychwanegol ac i frwydro yn erbyn dadrithiad.

- Y rhyngwyneb rhwng darpariaeth GCCh Gyrfa Cymru i bobl ifanc ac oedolion mewn addysg bellach, yn y farchnad lafur ac mewn gwaith a'r gwasanaethau GCCh gyrfaoedd a ddarperir gan sefydliadau addysg uwch ar gyfer israddedigion ac i rai sydd newydd raddio.
- Agenda diwygio lles Llywodraeth y DU a allai gael y canlyniad o osod Gyrfa Cymru yn sefyllfa ceidwad y drws ar gyfer budd-daliadau lles wrth i asesiadau sgiliau ddod yn fandadol i rai sy'n hawlio budd-daliadau a pheth allai ehangu rôl asiantaethau eraill (megis *Working Links* a'r mudiadau gwirfoddol) mewn meysydd cysylltiedig â gyrfaoedd megis cynllunio personol unigol, cymorth mentora a brocera swyddi.
- Agenda integredig gwaith a sgiliau'r 'grisiau gyrfa' sydd hefyd â goblygiadau ar gyfer gwasanaethau Gyrfa Cymru, yn enwedig o ran ei berthynas â Job Centre plus gyda golwg ar wybodaeth am y farchnad lafur, asesu sgiliau a gwasanaethau lleoli a'i berthynas gyda chyflogwyr ac oedolion yn y gweithlu (fel y tanlinellwyd yn ystod y dirwasgiad).
- Strwythur cyfundrefnol a brand Gyrfa Cymru, gan gymryd i ystyriaeth yr hyn oedd gan yr Athro Watts i'w ddweud am yr angen i flaenoriaethu a gwahaniaethu gwasanaeth er mwyn ymdopi â'r galw cynyddol am wasanaeth ac adnoddau'n aros yr un fath a'r angen am fwy o gydlyniad ac arweinyddiaeth strategol/broffesiynol.
- Rhyngwyneb gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran penderfynu polisi ynghylch gwasanaethau cysylltiedig â gyrfaoedd a hefyd y nawdd ar gyfer gwasanaethau o'r fath.

## Y materion i'w hystyried gyda golwg ar y berthynas gyda phob un o'r gwasanaethau a'r sefydliadau hyn

### Y rhyngwyneb rhwng addysg gyrfaoedd a GCCh gyrfaoedd i bobl ifanc mewn ysgolion a cholegau

**36.** Mae addysg gyrfaoedd wedi ei bwriadu i gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu'r wybodaeth, yr hyder a'r sgiliau mae arnyn nhw eu hangen, i wneud dewisiadau a chynlluniau gwybodus a gofalus fydd yn eu galluogi i symud ymlaen yn esmwyth i ddysgu pellach ac wedyn i waith. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, yng Nghyfnod Allweddol 3 ac, yn rhai, yng Nghyfnod Allweddol 4, cyflwynir addysg gyrfaoedd o fewn rhaglenni ABCh. Yng Nghyfnod Allweddol 4, fe'i darperir yn fwyaf cyffredin fel rhan o drefniant carwsél gyda phynciau eraill gan gynnwys ABCh. P'un a yw'n cael ei darparu ar ei phen ei hun neu mewn

cysylltiad ag ABCh, mae'n cyfrannu at Sgiliau Allweddol, yn enwedig y Sgiliau Allweddol ehangach, gan gynnwys ennill cymwysterau yn y sgiliau hynny. Mae hefyd wedi ymsefydlu fel rhan o'r cwricwlwm ehangach ac mae cysylltiad agos rhyngddi â darparu'r dysgu cysylltiedig â gwaith sy'n statudol ofynnol yng Nghyfnod Allweddol 4.

**37.** Mae GCCh gyrfaoedd, i'r gwrthwyneb, yn cynnig cymorth personol i unigolion o ran llwybrau dysgu a gwaith ac ynglŷn â materion allweddol eraill sy'n effeithio ar allu pobl ifanc i wneud dewisiadau a datblygu a symud ymlaen ar hyd llwybr o'u dewis. Mae GCCh personol, effeithiol – y gall ystod o bobl ei ddarparu mewn lleoliad addysg neu yn allanol – yn cyfoethogi ac yn cyflenwi addysg gyrfaoedd. Fel arall, mae addysg gyrfaoedd effeithiol – o'i chyfuno gyda pheth profiad uniongyrchol o'r byd gwaith – yn rhoi'r hyfforddiant sylfaenol i bobl ifanc y mae arnynt ei angen ar gyfer trafodaethau GCCh pwrpasol ynghylch eu dysgu a'u gyrfa yn y dyfodol. Mae GCCh personol o reidrwydd yn ymarferiad sy'n galw am fwy o adnoddau nag yw addysgu dosbarth cyfan gan ei fod yn draddodiadol yn seiliedig ar gyfweliadau un i un.

**38.** Mae Profiad sy'n Canolbwyntio ar Waith (PCW) yn derm sy'n cynnwys dysgu drwy brofiad sydd wedi ei fwriadu i atgyfnerthu addysg gyrfaoedd a chynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu gwerthfawrogiad o sgiliau cyflogadwyedd megis creadigedd, gweithio mewn tîm, entrepreneuriaeth. Mae PCW yn gydran allweddol o GBG – fframwaith ar gyfer pobl ifanc 11–19 mlwydd oed – ac mae hefyd yn rhan annatod o'r elfen ddysgu graidd yn Llwybrau Dysgu 14–19. Fel y cyfryw, ni chafodd PCW erioed ei ystyried fel pwnc ychwanegol yn ycwricwlwm; yn hytrach, ei ddiben oedd defnyddio cymorth cyflogwyr i wella dysgu'r myfyrwyr a gwneud y dysgu hwnnw'n fwy perthnasol i anghenion gwaith yn y dyfodol.

**39.** Yn draddodiadol, ystyrid bod addysg gyrfaoedd a PCW yn cyflenwi ei gilydd; ond, gyda'r bwriad o wneud y cysylltiad hwn yn fwy amlwg, cafodd y ddau eu dwyn at ei gilydd yng Nghymru fel fframwaith GBG i ysgolion a cholegau o fis Medi 2008.

**40.** Nod GBG yw cynorthwyo dysgwyr i wneud y canlynol:

- archwilio'r agweddau a'r gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer cyflogadwyedd a dysgu gydol oes
- cynllunio a rheoli eu llwybr trwy ystod o gyfleoedd ym myd dysgu a byd gwaith

- gwneud dewisiadau gyrfa effeithiol
- datblygu dealltwriaeth o entrepreneuriaeth ac amrywiaeth o leoliadau gwaith
- dangos cymhelliant, gosod nodau tymor hir a gorchfygu rhwystrau
- gweld bod eu hastudiaethau yn berthnasol i'w bywyd a'u gwaith
- datblygu Sgiliau Allweddol a sgiliau eraill y mae cyflogwyr yn gofyn amdanyn nhw
- paratoi ar gyfer heriau, dewisiadau a chyfrifoldebau gwaith a bywyd fel oedolyn.

**41.** Mae GBG yn ymwneud â'r holl ddysgwyr rhwng 11 a 19 mlwydd oed ac ym mhob lleoliad dysgu, gan gynnwys dosbarth chwech mewn ysgolion, colegau addysg bellach, a dysgu seiliedig ar waith. Mae rôl darparwyr dysgu yn cyflwyno GBG wedi ei hegluro mewn canllawiau atodol. Dywed hyn yn fras fod yn rhaid i bob darparwr addysg fod wedi sefydlu polisi sy'n nodi'r canlynol:

- pwy sy'n rheoli beth
- sut y dyrennir staff
- sut a ble mae'r gwaith yn digwydd
- sut y dyrennir ac y defnyddir adnoddau
- sut y rheolir datblygiad staff
- pryd a sut y bydd monitro, gwerthuso ac adolygu'n digwydd.

**42.** Mae'r canllawiau atodol yn cynnwys grid sy'n dadansoddi pum dull y gallai darparwyr dysgu eu mabwysiadu i gyflwyno GBG. Anogir darparwyr dysgu i ystyried y cryfderau a'r gwendidau sydd yn gynhenid mewn dulliau o'r fath wrth iddyn nhw ystyried beth sy'n cyd-fynd orau â'u hanghenion nhw.

**43.** Yn y cyd-destun yma o fodelau darparu gwahaniaethol ar lefel ysgol a choleg y caiff darpariaeth GCCh Gyrfa Cymru a gwasanaethau hwyluso cysylltiadau addysg-busnes eu trafod a'u cytuno gyda'r darparwyr dysgu unigol. Mae'r berthynas yn anochel yn amrywio o sefydliad i sefydliad ac nid lleiaf oherwydd bod datblygu'r Llwybrau Dysgu 14–19, yn symud ymlaen ar gyflymdra gwahanol ar draws Cymru. Fodd bynnag, gellir nodi nifer o faterion

strategol bras yn ymwneud â'r berthynas gyffredinol rhwng addysg gyrfaoedd a gwasanaethau GCCh gyrfaoedd.

- Ym mha oedran dylai addysg gyrfaoedd i bobl ifanc ddechrau?
- Beth ddylai'r cydbwysedd fod rhwng gwersi addysg gyrfaoedd, cyfweliadau personol, a chyfleoedd i archwilio a phrofi byd gwaith? Pwy ddylai gael cyfweliadau personol a phryd dylid cynnal rhain?
- Sut dylid sicrhau ansawdd addysg gyrfaoedd a ddarperir gan ysgolion a cholegau ac a oes digon o sylw wedi ei dalu iddo yn y fframwaith arolygu statudol?
- A oes digon o eglurder ynghylch ffiniau a dealltwriaeth o'r ffiniau rhwng addysg gyrfaoedd/PSW, fel y'u mynegwyd yn y fframwaith GBG, a darpariaeth GCCh gyrfaoedd – ac, yn arbennig, a yw swyddogaethau cyd-drefnwyr gyrfaoedd, cynghorwyr gyrfaoedd a gweithwyr cymorth personol eraill (yn enwedig anogwyr dysgu) wedi eu diffinio'n ddigon clir?
- A yw cynghorwyr Gyrfa Cymru yn cynnal gormod o gyfweliadau mewn ysgolion a cholegau mewn dull nad yw'n ddigon gwahaniaethol (fel yr awgrymodd yr Athro Watts); ac a ellid targedu unrhyw faint o'r adnodd yma yn fwy buddiol tuag at y bobl ifanc hynny sydd ag anghenion ychwanegol neu sydd mewn perygl o fod yn NEET neu ei ddefnyddio i wella'r ddarpariaeth GCCh i oedolion?
- A oes unrhyw dystiolaeth fod staff GCCh gyrfaoedd yn cael eu tynnu i mewn i ddarparu addysg gyrfaoedd er mwyn ateb diffygion a hynny wedyn yn 'symud baich' costau adnoddau?
- A ddylai swyddogaeth Gyrfa Cymru yn y dyfodol o ran addysg gyrfaoedd/PCW ganolbwyntio ar adeiladu gallu mewn ysgolion a cholegau?
- A yw cwmnïau Gyrfa Cymru yn llwyddo i hwyluso amrediad digon eang o brofiadau PCW er mwyn cefnogi datblygiadau llwybrau dysgu 14–19 a mentrau cysylltiedig megis y Brif Elfen ym Magloriaeth Cymru?
- A ddylai gweithgareddau cysylltiadau addysg-busnes Gyrfa Cymru gael brand ar wahân fel rhan o system genedlaethol o ymgysylltu â chyflogwyr fel yr argymhellodd y Tasglu Ymgysylltiad Cyflogwyr er mwyn denu mwy o gyflogwyr i gynnig cyfleoedd PCW?

- A ddylid cysylltu profiad gwaith yn agosach gyda gwaith rhan-amser yn ogystal â gwaith gwirfoddol gan bobl ifanc 16 i 18 mlwydd oed?
- Pa hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer y rheiny sy'n gweithio gydag ymarferwyr cyfarwyddyd gyrfaoedd i ddarparu gwasanaethau? Er enghraifft, darparwyr addysg a hyfforddiant, athrawon, penaethiaid ysgolion? Sut gall hyfforddiant o'r fath gyflenwi hyfforddiant ymarferwyr cyfarwyddyd gyrfaoedd?
- Pa gyfarwyddyd gyrfaoedd a ddylid ei gynnig i rai sy'n debygol o adael yr ysgol yn gynnar, a sut? A ddylid ei gyflwyno fel rhan o'r cwricwlwm neu'n ychwanegol ato? Ai personél mewnol ynteu allanol ddylai ei ddarparu ynteu'r ddau? A ddylai gynnwys lleoliadau profiad y tu allan i'r ysgol?
- Pan gaiff arian cyhoeddus ei sianelu tuag at sefydliadau ar gyfer pecyn o wasanaethau, yn cynnwys cyfarwyddyd gyrfaoedd, pa gamau ellir eu cymryd i sicrhau bod y sefydliadau hyn yn dyrannu'r cyllid i ddarparu cyfarwyddyd gyrfaoedd? A yw cyllid wedi ei glustnodi yn well na chyllid bloc ar gyfer hwyluso cyrraedd targedau polisi?

**Y rhyngwyneb rhwng darpariaeth GCCh Gyrfa Cymru a'r gwasanaethau gyrfaoedd a ddarperir gan sefydliadau AU**

**44.** Gwelai astudiaeth gymharol OECD yn 2003 werth yn y gwasanaeth pob-oed; a nododd Adolygiad o Gyrfa Cymru wedyn, a noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2004, fod trefniadau GCCh Cymru 'ym mhen blaen arfer dda ryngwladol'. Ers adroddiad yr astudiaeth OECD, mae Gyrfa Cymru wedi datblygu adnodd ar-lein, gyrfaoeddCymru.com, sy'n darparu mynediad i gleientiaid o bob oedran at ystod o adnoddau hunanreoli gyrfaoedd ac e-bortffolio a all fod yn gofnod gydol oes o ddysgu a dyheadau gyrfaol, nodau a chyrhaeddiad. Fodd bynnag, fel mae adroddiad Watts yn nodi, ceir diffyg parhad yn narpariaeth GCCh Gyrfa Cymru pan fydd cleientiaid yn mynd i mewn i addysg uwch ac yn dod yn gleientiaid gwasanaethau gyrfaoedd eu sefydliadau addysg uwch nhw eu hunain. Mae hyn yn amharu ar allu Gyrfa Cymru i gadw mewn cysylltiad gyda datblygiad cleientiaid os na fyddan nhw, neu hyd nes y byddan nhw'n dychwelyd at Gyrfa Cymru ar ôl graddio (neu ar ôl tynnu'n ôl o'u cyrsiau addysg uwch) ac, o bosibl, ymhen rhai blynyddoedd wedyn mewn gwaith neu yn y farchnad lafur. Ymhellach, mae niferoedd cynyddol o bobl ifanc ac oedolion yn awr yn dilyn cyrsiau addysg uwch breiniol mewn sefydliadau addysg bellach sy'n creu 'man llwyd' o ran darpariaeth GCCh.

**45.** Awgrymodd yr Athro Watts fod lle efallai i ymestyn brand Gyrfa Cymru i'r gwasanaethau gyrfaoedd addysg uwch (ac i rai darparwyr gwasanaeth eraill cysylltiedig â gyrfaoedd) er mwyn cael cydweithio agosach, parhad cyflawn yn y gefnogaeth i gleientiaid a monitro cleientiaid, hybu safonau proffesiynol a systemau ansawdd cyffredin, a chyfleoedd gyrfa ehangach yn y sector GCCh.

**46.** Y prif faterion sy'n codi gyda golwg ar y rhyngwyneb hwn felly yw'r canlynol:

- a oes diffyg eglurder ynglŷn â'r cyfrifoldeb i ddarparu gwasanaeth GCCh i fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch breiniol?
- a oes yna welliannau o werth yn y gwasanaeth i'r cleient, o ran pa mor effeithlon y darperir gwasanaethau, o ran penderfynu (drwy fonitro hydredol) pa mor effeithiol yw ymyriadau GCCh gyrfaoedd neu yn natblygiad y proffesiwn, a allai fod yn ganlyniad cydweithio agosach rhwng Gyrfa Cymru a gwasanaethau gyrfaoedd addysg uwch?
- ai cytundebau dwyochrog lleol unigol, cytundeb cyffredinol rhwng Gyrfa Cymru yn ei gyfanrwydd ac Addysg Uwch Cymru, ynteu ehangu brand Gyrfa Cymru i gynnwys gwasanaethau gyrfaoedd addysg uwch fyddai orau i arwain at weithio integredig effeithiol?
- lle y datblygir rhaglenni hyfforddi cychwynnol ar gyfer ymarferwyr cyfarwyddyd gyrfaoedd yn annibynnol gan sefydliadau addysg uwch, sut mae modd datblygu dull safonol yn genedlaethol er mwyn lleihau'r gwahaniaethau yn y canlyniadau i ddefnyddwyr y gwasanaethau cyfarwyddyd gyrfaoedd sy'n ganlyniad gwahaniaethau yn hyfforddiant yr ymarferwyr cyfarwyddyd?
- a ddylid sefydlu cysylltiadau rhwng Gyrfa Cymru a chynlluniau lleoli GO Cymru, ac a ddylai fod gan Gyrfa Cymru ran yn strategaethau cyflogadwyedd addysg uwch?
- a ddylai strategaeth newydd y Radd Sylfaen ddatblygu addysg gyrfaoedd drwy gyfrwng rhaglenni dysgu seiliedig yn y gwaith?
- a oes angen rhaglenni hyfforddiant israddedig ac ôl-radd gwell ar gyfer amrywiaeth o broffesiynau cysylltiedig â darparu addysg, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd, gan gynnwys Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer staff Gyrfa Cymru?
- a ddylai fod yna fwy o ryngwyneb rhwng GCA a rhaglenni e-ddysgu addysg uwch?

- pa dystiolaeth a ddylid ei chasglu ynghylch canlyniadau (er enghraifft, am gyrchfannau graddedigion, cyfraddau diffyg cwblhau a chyrchfannau myfyrwyr nad ydyn nhw'n cwblhau cyrsiau, costau blynyddol diffyg cwblhau)? Sut gellir defnyddio'r wybodaeth hon i wella gwasanaethau gyrfaoedd i'r myfyrwyr presennol ac i wella penderfyniadau ymrestru darpar fyfyrwyr?
- pa ran ddylai fod gan fyfyrwyr, cyflogwyr, a rhanddeiliaid eraill mewn datblygu a darparu gwasanaethau gyrfaoedd mwy effeithiol?

**Agenda Diwygio Lles Llywodraeth y DU**

**47.** Mae'r flaenoriaeth i gleientiaid sy'n oedolion yng Nghymru yn ystod y 18 mis diwethaf wedi canolbwyntio ar y rhai di-waith a'r rheiny sydd wedi cael eu rhybuddio am golli gwaith oherwydd y dirywiad economaidd. Yn 2008–09, darparodd cwmnïau Gyrfa Cymru i gyd gyda'i gilydd bron i 68,000 o gyfweliadau i oedolion, o gymharu â llai na 51,000 o gyfweliadau yn 2007–08. Mae'r cwmnïau wedi llwyddo i wneud hyn drwy ailddyrannu adnoddau staff o feysydd darparu eraill i faes oedolion. Cydnabu Llywodraeth Cynulliad Cymru'r galwadau ychwanegol hyn yn y 5ed Uwchgynhadledd Economaidd, drwy roi £800,000 yn ychwanegol i Gyrfa Cymru yn 2009–10 a 2010–11; a chytundeb Gweinidogion i roi prosiect £2.4m dan Gronfa Strwythurol Ewrop ar y trywydd cyflym i hybu gallu Gyrfa Cymru drwy gyflogi 30 o gynghorwyr gyrfaoedd ychwanegol.

**48.** Fodd bynnag, mae'r canolbwyntio yma ar y rhai sydd newydd golli eu gwaith ac yn ddi-waith wedi cael effaith o ddadleoli ar gynllunio ar gyfer y diwygiadau lles a amlinellwyd yn y Papur Gwyn '*Raising expectations and increasing support: reforming welfare for the future*' a Deddf Diwygio Lles ddilynol 2009. Mae ffurf y gwasanaethau cysylltiedig â diwygiadau lles a'r hyn a ddisgwylir ganddyn nhw eto i gael eu cwblhau, ond mae materion yn cynnwys:

- a oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw ddisgresiwn ynglŷn â'r Rheoliadau ategol?
- a oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rôl o ran y berthynas rhwng cleientiaid mandadol o fewn y system les a darpariaeth GCCh gyrfaoedd ar gyfer yr un cleientiaid hynny?

- beth yw anghenion cyfarwyddyd gyrfaoedd gwahanol y grwpiau gwahanol o oedolion di-waith? I ba raddau mae'r anghenion hyn yn cael eu hateb drwy'r ddarpariaeth bresennol? Sut gellir trefnu gwasanaethau er mwyn darparu'n well ar gyfer y fath ystod o anghenion?
- sut mae modd i gyfarwyddyd gyrfaoedd ar gyfer oedolion di-waith a ddarperir gan y gwasanaethau cyflogaeth gyhoeddus (PES) gael ei gyflenwi gan y gwasanaethau a ddarperir gan gyrff gwirfoddol a chymunedol, gan y partneriaid cymdeithasol, a gwasanaethau preifat er elw?
- a oes gan Gyrfa Cymru'r gallu i reoli'r atgyfeiriadau ychwanegol o Jobcentre Plus am wiriadau asesu sgiliau?
- a oes perygl i'r rôl ddiduedd, gleient-ganolog y mae Gyrfa Cymru ar hyn o bryd yn ymfalchïo ynddi drwy gael ei weld yn gweithredu fel 'ceidwad y drws' i hawl i fudd-daliadau drwy gyfrwng gwiriadau asesu sgiliau?
- sut gellir darparu mynediad ehangach at ddarpariaeth GCCh i oedolion? A yw darpariaeth TGCh a thros y ffôn yn ateb anghenion y boblogaeth ehangach? A oes angen addasu'r cydbwysedd o ddarpariaeth TGCh, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb er mwyn medru ymdopi â'r cynnydd yn y galw sy'n codi oddi wrth y rhai sy'n hawlio budd-daliadau?
- sut gellir hybu sgiliau hunanreoli gyrfa ymhlith oedolion yn gyffredinol?
- a yw'r systemau Rheoli Cofnodion Cleientiaid presennol yn Gyrfa Cymru a Jobcentre Plus yn ddigon hyblyg ac integredig i fedru olrhain unigolion drwy raglenni paratoad personol ar gyfer dychwelyd i waith?
- a yw'r PES yn arweinydd marchnad ar gyfer gwasanaethau cyflogi (yn cynnwys gwasanaethau gwybodaeth gyrfaoedd) ar y Rhyngrwyd?
- sut gellir harneisio TGCh i wella'r gwasanaeth a ddarperir mewn ffyrdd cost effeithiol ac i annog mynediad hunan-arlwyol at wybodaeth? Pa fath o gymorth sydd ei angen ar ba fath o ddefnyddiwr y systemau gwybodaeth a ddarperir?
- Sut gall y PES warantu ansawdd, cynnwys a pherthnasedd yr wybodaeth gyrfaoedd a ddarperir drwy ei wasanaethau?

- pa fuddsoddiadau mewn hyfforddiant, cefnogaeth ac isadeiledd cyfathrebu sydd angen eu gwneud er mwyn datblygu darpariaeth seiliedig ar TGCh?
- pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau nad yw'r dulliau o ddarparu cyfarwyddyd gyrfaoedd a ddefnyddir gyda grwpiau sydd mewn perygl yn ddiwylliannol dueddol?

**Agenda cyflogaeth a sgiliau integredig y 'grisiau gyrfa'**

**49.** Mae'r model 'grisiau gyrfa', a amlinellwyd yn *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* yn nodi pump cyfnod o wybodaeth, cyngor, cyfarwyddyd a chymorth:

- Cyswllt/Ennyn diddordeb.
- Cam ymlaen: Gwasanaeth Annog Cyflogaeth.
- Cam i fyny: Cynnig integredig i gefnogi sgiliau a gwaith.
- Cam allan – Mynediad at swyddi gwag.
- Symud ymlaen: Cefnogaeth yn y gwaith.

**50.** Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gyrfa Cymru a Jobcentre Plus Cymru yn dechrau cynnal peilot dulliau cyflogaeth a sgiliau integredig (PSI) yn gynnar yn 2010. Bu treialon yn rhedeg yn Lloegr ers mis Medi 2008. Mae'r pwyntiau dysgu allweddol oddi wrth werthusiad cychwynnol y treialon yn cynnwys:

- yr angen am hyfforddiant ar y cyd ar gyfer staff Jobcentre Plus a staff GCCh
- canllawiau clir ynghylch atgyfeirio am 'Wiriadau Asesu Sgiliau'
- mae prosesau rhannu data a chydsyniad gwybodus yn hanfodol.

**51.** Mae'r model yn cynnwys cymorth i'r rheiny sydd mewn gwaith yn ogystal â'r rheiny sy'n edrych am waith. Mae Gyrfa Cymru'n cynnig cymorth datblygu gweithlu i gyflogwyr, gyda'r brif nod o gynorthwyo i gynllunio dysgu a gyrfa, ond mae'r gwaith hwn wedi cael blaenoriaeth is gan gwmnïau GC yn ystod y dirywiad economaidd.

**52.** Mae'r *adult advancement and careers service* (aacs) arfaethedig, fydd yn dwyn ynghyd *Next Steps*, sef y gwasanaeth wyneb yn wyneb, a *Careers Advice*, sef y gwasanaeth dros y ffôn ac ar y we, yn Lloegr i gael ei lansio ym mis Awst 2010. Nid yw'r fanyleb ar gyfer yr aacs wedi ei gorffen, ond mae'n debygol y bydd mwy o bobl yn cael

eu cyfeirio i 'helpu eu hunain' drwy gyfrwng y wefan neu dros y ffôn; technolegau newydd megis negeseuon testun, sgyrsiau ar y we, podlediadau a facebook/twitter; a bydd y gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ar faterion ehangach megis cyngor ynglŷn â dyled, gofal plant, tai a chamddefnyddio sylweddau.

**53.** Mae'r datblygiadau hyn yn codi rhai o'r un materion â'r agenda diwygio lles a drafodwyd, er enghraifft:

- a oes gan Gyrfa Cymru y gallu i reoli'r atgyfeiriadau ychwanegol o Jobcentre Plus am wiriadau asesu sgiliau?
- sut gellir darparu mynediad ehangach? A yw darpariaeth TGCh a thros y ffôn yn ateb anghenion y boblogaeth ehangach? A oes angen addasu cydbwysedd y ddarpariaeth TGCh, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb?
- sut gellir hybu sgiliau hunanreoli gyrfa ymhlith y gweithlu'n gyffredinol?
- a yw'r systemau Rheoli Cofnodion Cleientiaid presennol yn Gyrfa Cymru a Jobcentre Plus yn ddigon integredig i fedru olrhain unigolion drwy hyfforddiant?
- a oes gan y cyfarwyddyd gyrfaoedd a ddarperir gan y Gwasanaethau Cyflogaeth Cyhoeddus (GCC) y gallu a'r hyblygrwydd i gyrraedd ac ail-ysbrydoli unigolion di-waith i ailgysylltu ag addysg a gwaith? I ba raddau mae'r cyfarwyddyd gyrfaoedd a ddarperir gan y GCC yn medru cyrraedd allan at gymunedau sydd dan anfantais yn ddaearyddol ac yn economaidd? A oes angen gwasanaeth gyrfaoedd gwahanol ond cysylltiedig?
- i ba raddau mae'r GCC yn rhwydweithio ac mewn partneriaeth gyda'r actorion perthnasol ym maes cyfarwyddyd er mwyn medru ehangu eu hystod o wasanaethau i'r di-waith, a chaniatáu darparu cyfarwyddyd gyrfaoedd lleol a datganoledig?

**54.** Fodd bynnag, mae angen hefyd rhoi ystyriaeth i:

- a fyddai ailfodelu gwasanaethau yn ei gwneud yn bosibl trosglwyddo rhai o adnoddau GCCh Gyrfa Cymru, sydd ar hyn o bryd wedi eu neilltuo ar gyfer pobl ifanc, i oedolion er mwyn ateb y galw ychwanegol?
- a yw gwahaniaethu mwy ar y ddarpariaeth gwasanaeth, gan gynnwys dulliau systematig o segmentu cwsmeriaid a marchnata rhagweithiol yn rhywbeth i'w ddymuno?

- a fyddai cydweithio agosach a rhannu data rhwng Gyrfa Cymru a Job Centre Plus yn cyfrannu at gasgliad gwell o wybodaeth am y farchnad lafur a gwasanaethau lleoliadau swyddi?
- a ddylai Gyrfa Cymru anelu at ddod yn ddarparwr GCCh mwy amrywiol i gyd-fynd â'r gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ehangach (heb fod yn yrfaoedd) a gynigir ar gyfer yr aacs yn Lloegr neu wella mecanweithiau atgyfeirio at wasanaethau eraill er mwyn sicrhau bod cleientiaid sy'n oedolion yn cael gwasanaeth gwybodaeth a chyngor sy'n weddol gynhwysfawr?
- a oes unrhyw ddryswch rhwng y Gwasanaeth Hyfforddi Cyflogaeth a chefnogaeth yr Anogwr dysgu fel y'i dyrennir yn llwybrau 14–19?

### Strwythur cyfundrefnol a brand Gyrfa Cymru

**55.** Fel y nodwyd yn gynharach, cefnogai'r Athro Watts y ddadl dros newid strwythurol a nodwyd yn yr adolygiad o Gyrfa Cymru yn 2004 gan Moulson and Prail ac awgrymai y gallai hyn olygu trawsffurfio cwmni Cymdeithas Gyrfa Cymru yn brif gontractwr neu ad-drefnu Gyrfa Cymru yn ei gyfanrwydd yn nifer llai o gwmnïau neu yn gorff unedol. Nodai fod yna ddwy ddadl dros gadw strwythur 6-chwmni rhanbarthol presennol Gyrfa Cymru: y gyntaf yw ei fod yn gwella gweithio mewn partneriaeth ac atebolrwydd yn lleol ac yn rhanbarthol; a'r ail yw bod datganoli'n cefnogi arloesi ac yn gwneud meincnodi ar draws cwmnïau yn bosibl. Derbyniai fod gan wlad â nodweddion dinesig/gwledig ac ieithyddol gwahanol fel Cymru achos cryf dros fodel mor lleol. Fodd bynnag, roedd yn llai argyhoeddedig o'r ail ddadl, gan nodi, er bod arloesi'n elwa oddi wrth amrywiaeth, fod meincnodi yn tueddu'n anochel i annog cydymffurfio.

**56.** Roedd yn cydnabod bod cryn gysondeb yn y gwasanaeth a ddarperid gan Gyrfa Cymru ar draws y wlad i gyd, yn cael ei gynnal gan safonau cyffredin a gweithgorau cenedlaethol, ar weithgarwch cyfarwyddyd i'r grwpiau statudol. Nododd wahaniaethau o ran dull mewn meysydd megis agenda NEET, modelau darparu cysylltiadau Addysg-Busnes, perthynas gyda Gwasanaethau Gyrfaoedd AU a rhwydweithiau cyfarwyddyd i oedolion; a phriodolai'r gwahaniaethau hyn i ffynonellau cyllid gwahanol oedd ar gael mewn gwahanol ardaloedd – yn arbennig Cronfa Gymdeithasol Ewrop – ac i weddillion strwythurau awdurdodau lleol a Chynghorau Hyfforddiant a Menter blaenorol, yn hytrach nag i arferion arloesol amrywiol.

**57.** Fodd bynnag, nododd hefyd, o ran agenda 14–19 fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi pennu 'polisi cenedlaethol, yn cael ei ddarparu'n lleol', oedd yn cyfleu'r disgwyliad y byddai cwmnïau

Gyrfa Cymru yn gweithio'n agos gyda phartneriaid oedd yn darparu'n lleol. Yn hyn o beth, gwnaeth sylw ynghylch diffyg cyd-derfynu gydag asiantau a phartneriaid eraill – yn enwedig yr awdurdodau lleol (ALlau) – yn aliniad daearyddol presennol cwmnïau Gyrfa Cymru; ac awgrymodd y gellid lleihau'r strwythur cwmnïau presennol i dri neu bedwar cwmni er mwyn adlewyrchu ffiniau ALlau yn well.

**58.** Mae Cymdeithas Gyrfa Cymru (CGC) ar hyn o bryd yn is-gwmni sy'n gwbl ym mherchnogaeth y chwe chwmni rhanbarthol. Disgrifiai'r Athro Watts ei statws presennol fel:

> . . . adnodd cyffredin, yn hytrach na sefydliad cynllunio; fel gwas y cwmnïau yn hytrach na'u cydlynydd. Mae gan y strwythur hwn nifer o effeithiau negyddol: diffyg arweiniad yw un; mae gweithredu ar lefel genedlaethol yn dibynnu ar adeiladu consensws traws gwmni. Ni all yr un llefarydd siarad gydag awdurdod ar ran y corff cyfan.

Mae'r Athro Watts hefyd yn cwestiynu a oes cyfle'n cael ei golli o datblygu más critigol ar lefel CGC a allai gyllido'r gallu ymchwil sydd ar goll yng Nghymru.

**59.** Codwyd llawer o'r materion hyn yn adolygiad Moulson a Prail yn 2003–04. Ers hynny mae nifer y cwmnïau rhanbarthol wedi gostwng o saith i'r chwech presennol; ond ystyriai'r Athro Watts fod y diffyg cynnydd, mewn ail-greu rôl CGC yn gorff ymbarél strategol oedd yn darparu arweinyddiaeth, yn dangos mai annhebygol ydoedd y byddai'n newid yn y dyfodol, heb gyfeiriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fel y nodwyd yn gynharach, gwelai gyfle posibl i ymestyn brand Gyrfa Cymru i ddarparwyr gwasanaeth eraill cysylltiedig â gyrfaoedd (megis gwasanaethau gyrfaoedd addysg uwch) er mwyn hybu darpariaeth gwasanaeth mwy cyflawn, safonau ansawdd cyffredin a manteision eraill cydweithio agos. Gallai ehangu aelodaeth y brand yn y ffordd yma o bosibl wneud trawsffurfio CGC yn gorff ymbarél, oedd yn darparu arweinyddiaeth strategol ac eiriolaeth ar gyfer y sector, yn fwy perthnasol fyth; a gallai hyn hefyd, yn ei dro, ddarparu sylfaen ar gyfer datblygu Fforwm Cyfarwyddyd Gyrfaoedd Cymru i roi arweinyddiaeth broffesiynol ar draws y sector fel y cynigiodd yr Athro Watts.

**60.** Y prif faterion sy'n codi felly yw:

- yr ystyriaethau sy'n ymwneud â symud i gorff unedol, gan gofio'r angen am bartneriaethau ac ymatebolrwydd lleol?
- beth yw'r ffordd orau i ddarparu arweinyddiaeth strategol, y gallu i gynllunio gwasanaeth, swyddogaethau ymchwil a meincnodi ac eiriolaeth?

- a ddylai Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio hybu ymestyn y brand i ddarparwyr gwasanaeth eraill cysylltiedig â gyrfaoedd?
- a oes cytundeb rhwng darparwyr gwasanaeth cysylltiedig â gyrfaoedd ynglŷn â'r angen a'r potensial i greu Fforwm Cyfarwyddyd Gyrfaoedd Cymru – yn cynnwys cynrychiolwyr handdeiliaid o bosibl – fel yr argymhellwyd gan yr Athro Watts?
- a oes angen cael eglurder ynghylch cysylltiadau a strwythurau Gyrfa Cymru o ran Partneriaethau Addysg-Busnes
- a oes angen symleiddio, cyfuno neu integreiddio'r ystod eang o fentrau a rhaglenni cysylltiedig â gyrfaoedd, er mwyn lleihau'r dryswch ymhlith rhanddeiliaid megis cyflogwyr.
- pa adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd, a sut gellir gwella data gwybodaeth rheoli?
- sut gellir defnyddio'r buddsoddiad presennol yn fwy effeithlon?
- pa strategaethau casglu data sydd wedi eu sefydlu i dynnu sylw at anghenion am wasanaethau a grwpiau targed newydd, gwahanol neu estynedig?

### Y rhyngwyneb gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru

**61.** Yn olaf, nododd yr Athro Watts fod ystod eang o yrwyr polisi (a amlinellwyd yn adran 2 uchod) yn effeithio ar Gyrfa Cymru a bod prif berthynas y cwmnïau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'r Gangen Polisi Gyrfaoedd. Mae'r gangen wedi ei lleoli yn Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, sy'n ymwneud â'r oedran ôl-16 yn bennaf, o fewn APADGOS, er bod oddeutu 80% o wasanaethau Gyrfa Cymru ar hyn o bryd wedi eu neilltuo i gyflawni gofynion statudol o ran pobl ifanc o dan 18 oed. Prif swyddogaeth y gangen hon yw 'nawdd' (sef cyfrifoldeb am gyllid a chontractau) gyda golwg ar y gwasanaethau craidd o GCCh a chysylltiadau addysg-busnes a ddarperir gan y chwe chwmni rhanbarthol. Fodd bynnag, mae llawer o'r gyrwyr polisi'n dod o ganghennau ac isadrannau eraill. Er bod yr Athro Watts yn cydnabod bod y Gangen Polisi Gyrfaoedd wedi ymdrechu i gyfryngu galwadau oedd yn codi o'r ffynonellau eraill hyn, dywedodd fod y cwmnïau'n teimlo nad oedd gan y gangen, gyda'r adnoddau presennol, ddigon o broffil a dylanwad o fewn strwythurau Llywodraeth y Cynulliad i gyd-drefnu'n effeithiol yr holl bolisïau oedd yn cael effaith ar Gyrfa Cymru. Nododd hefyd fod diffyg un cynrychiolydd adnabyddus i fod yn llais i'r chwe chwmni yn arwain at ddulliau ad hoc rhwng Gyrfa Cymru a Gweinidogion a gweision sifil yn y Cynulliad.

**62.** O ganlyniad, mae'r gangen sy'n noddi a hefyd y cwmnïau'n cael anhawster i adnabod hierarchaeth o flaenoriaethau gwasanaeth ym mhortffolio Gyrfa Cymru; a gall blaenoriaethau a sefydlwyd gael eu peryglu yn ystod blwyddyn y contract gan ofynion ychwanegol. Efallai bod y sefyllfa hon hefyd yn dangos nad oes gwerthfawrogiad digon eang o faint y gwaith y mae Gyrfa Cymru eisoes yn ei gyflawni ac felly'r graddau y mae ei adnoddau cyfyngedig wedi eu rhwymo'n llawn.

**63.** Y prif faterion sy'n codi yw:

- A ddylid, er mwyn hybu system fwy integredig o addysg gyrfaoedd, PCW, GCCh gyrfaoedd a lleoliadau gwaith, sefydlu Cangen Bolisi Gyrfaoedd well gyda chylch gorchwyl o gyd-drefnu polisïau yn cwmpasu'r holl ystod o wasanaethau cysylltiedig â gyrfaoedd?
- Sut gallai Gyrfa Cymru sengl sefydlu sianelau cyfathrebu gwell gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru?
- Sut gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu dulliau a pholisïau i gasglu gwell gwybodaeth am y farchnad lafur, i gynnwys data cyrchfannau gwaith pob-oed cywir o safon uchel?
- Sut dylai'r llywodraeth ac asiantaethau gydweithredu wrth ddatblygu a chyflenwi gwybodaeth am addysg a galwedigaethau?
- Sut gellir hybu a gwella'r cydweithredu traws-sector rhwng gwahanol adrannau'r llywodraeth sy'n gyfrifol am addysg gyrfaoedd, GCCh gyrfaoedd, datblygu sgiliau a lleoliadau gwaith?
- Pa liferi polisi sydd ar gael i lywio darpariaeth cyfarwyddyd gyrfaoedd gydol oes? Sut gellir gwella'r rhain?

## Y camau nesaf

**64.** Bydd y Grŵp Craidd yn awr, yn ystod chwarter cyntaf 2010, yn derbyn, trafod ac ystyried tystiolaeth yn ymwneud â'r materion hyn gan ddarparwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid pwysig eraill. Bydd yn trafod y materion, y canfyddiadau fydd yn codi a'r cynigion gyda'r Grŵp Cyfeirio ac yn gorffen ei gasgliadau a'i argymhellion, Cyflwynir rhain wedyn i'r Gweinidog yn gynnar yn y gwanwyn. Os argymhellir newidiadau sylweddol, gallai ymgynghoriad cyhoeddus ar yr argymhellion hynny a dadl yn y Cynulliad Cenedlaethol ddilyn cyn yr haf, cyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru benderfynu ar gynllun gweithredu a'i gyhoeddi'n ddiweddarach yn y flwyddyn.

**Ionawr 2010**

# Atodiad 2: Aelodaeth y Grŵp Cyfeirio Allanol

Phil Westwood – Cymdeithas Gyrfa Cymru (CGC)

Joyce M'Caw – Gyrfa Cymru (GC)

Judith Evans – Colegau Addysg Bellach (AB) Cymru

David Schofield – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)

David Eynon – Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru (CCAC)

Emma Harrison – Gwasanaethau Gyrfaoedd Addysg Uwch Cymru (GGAUC)

Chris Llewellyn – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

Mark Heydon – Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol i Gymru (FfHCG)

June Price – Jobcentre Plus (JCP)

# Atodiad 3: Rhaglen Cyfarfodydd y Grŵp Craidd gyda Phartneriaid Allweddol, Rhanddeiliaid a'r Grŵp Cyfeirio Allanol

| Sefydliad | Cynrychiolydd | Dyddiad |
|---|---|---|
| Ymchwilydd academaidd annibynnol | Yr Athro A G Watts | 11/01/2010<br>19/04/2010 |
| Estyn | Alun Connick, Catherine Evans, Eleanor Davies | 11/01/2010 |
| Gyrfa Cymru (GC) | Joyce M'Caw, Ann Evans, Ray Collier | 12/01/2010 |
| Grŵp Cyfeirio Allanol | Gweler Atodiad 2 | 12/01/2010<br>15/02/2010<br>13/05/2010 |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) i drafod fframwaith GBG a Strategaeth IES | John Pugsley, Sue Morgan, Lindsay Harvey, Bethan Webb | 19/01/2010 |
| Gyrfa Cymru i drafod Partneriaethau Addysg-Busnes (PAB) | Trina Neilsen, Joyce M'Caw, Ffiona Williams | 19/01/2010 |
| ColegauCymru | David Brookes, Coleg Morgannwg | 19/01/2010 |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Leighton Andrews AC | 27/01/2010 |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru i drafod troseddwyr ifanc, ADY a phobl ifanc NEET | Nick Keating, Bethan Cowan, Heather Davidson | 27/01/2010 |
| Cyngres Undebau Llafur Cymru | Deri Bevan | 27/01/2010 |
| Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (CAG) | Annie Williams, Pennaeth, Coleg Harlech/CAG y Gogledd | 03/02/2010 |
| Gyrfa Cymru i drafod Gyrfa Cymru Ar-lein (GCA) | Mark Freeman, Sarah Finnegan-Dehn, Joyce M'Caw | 03/02/2010 |
| Cyd-drefnydd Rhwydwaith 14–19 Awdurdod Unedol Sir Ddinbych | John Gambles | 03/02/2010 |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) | LlCC – Ruth Hayton.<br>CCAUC – Roger Carter, Jackie Cresswell Griffiths | 11/02/2010 |
| Gwasanaeth Gyrfaoedd Addysg Uwch Cymru (GGAUC) | Karen Lennox, Alyson Twyman, Emma Harrison | 11/02/2010 |

| | | |
|---|---|---|
| Cymdeithas Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd (CAChG) | June Jenson, Mary Jeans | 11/02/2010 |
| Lifelong Learning UK (LLUK) | Mark Isherwood | 11/02/2010 |
| Cangen Bolisi Gyrfaoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru | Mike Moss, Mike Barry, Paul Watts, Jeremy Howells, Caroline Wong, Kirsteen Reed (ar secondiad o CGC) | 15/02/2010 |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru a Jobcentre Plus (JCP) | LlCC – Sam Huckle, Ella Davidoff<br>JCP – Huw Thomas | 01/03/2010 |
| Sefydliad Cenedlaethol Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE) Dysgu Cymru | Richard Spear, Cerys Furlong | 01/03/2010 |
| Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (PPPI) | Angela Davies, Pen-y-bont ar Ogwr; Mark Davies, Bro Morgannwg; Simon Morris, Caerdydd | 01/03/2010 |
| Cyflogwyr a Chynghorau Sgiliau Sector (CSS) | Jan Holdaway, Cynghrair Asset Skills a CSS; Owain Davies, CBI; Owen Evans, Busnes yn y Gymuned | 25/03/2010 |
| Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol i Gymru (FfHCG) | Mark Heydon, Andrew Cooksley, Arwyn Watkins | 25/03/2010 |
| Penaethiaid | Brian Lightman, Ysgol Uwchradd St Cyres; Huw Cripps, Ysgol Uwchradd Pontypridd | 26/03/2010 |
| Y Brifysgol Agored | Bea Brown, Ellen Cocking, Ruth Brooks | 26/03/2010 |
| Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (BCSC) | Syr Adrian Webb, Charles Middleton | 26/03/2010 |
| Gwasanaeth Gyrfaoedd Gogledd Iwerddon a Gwasanaeth Gyrfaoedd yr Alban | Judith Shaw (Gogledd Iwerddon) a Vivienne Brown (yr Alban) | 04/05/2010 |
| Gyrfa Cymru (Prif Weithredwyr a Chadeiryddion) | Hywel Jones, Ann Evans, Sarah Finnegan-Dehn, Trina Neilsen, Mark Freeman, Ray Collier, Joyce M'Caw | 13/05/2010 |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Leighton Andrews AC | 19/05/2010 |

# Atodiad 4: Papurau a ystyriwyd gan yr Adolygiad

## Papurau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

### Cangen Bolisi Gyrfaoedd APADGOS ac ysgrifenyddiaeth yr Adolygiad

1. Gyrfa Cymru: Llywodraeth Gorfforaethol – K Reed
2. Gyrfa Cymru, Cysylltiadau Addysg-Busnes ac Ymgysylltiad Cyflogwyr
3. Gyrfa Cymru, Trosolwg ar Ddaearyddiaeth, Demograffeg, Staffio, Alldroadau a Chyllid – K Reed
4. Data ar Wasanaethau Gyrfaoedd Addysg Uwch – K Reed
5. Siarad â phobl ifanc ac oedolion Mai 10 – K Reed
6. Rôl y Tîm Gyrfaoedd – ar gyfer trafodaeth gan y Grŵp Craidd
7. Papur crynodeb ar gyfer gweithgaredd Creu'r Cysylltiadau
8. *Materion i'w Hystyried yn ystod ail gam yr Adolygiad o Wasanaethau Gyrfaoedd yng Nghymru*, y Gangen Gyrfaoedd (wedi ei gynnwys fel Atodiad 1 i'r Adroddiad)
9. Nodyn Briffio ar gyfer cyfarfod y Grŵp Craidd gyda Syr Adrian Webb ar 26 Mawrth 2010
10. Ffiniau Ardaloedd Canolfannau Gwaith gyda Jobcentre Plus Sites
11. Canolfannau Gyrfa Cymru gan Ranbarth Gyrfa Cymru

### Papurau gan Is-adrannau Polisi eraill APADGOS

12. Adolygiad Gyrfa Cymru: Anghenion Dysgu Ychwanegol – Cangen ADY, APADGOS
13. Gwasanaethau Gyrfaoedd mewn Sefydliadau Addysg Uwch a chysylltiadau gyda Gyrfa Cymru – Polisi AU, APADGOS
14. Adroddiad Cynnydd ar Gyflogaeth a Sgiliau Integredig, Cangen Gyflogadwyedd, APADGOS
15. Adolygiad Gyrfa Cymru – Grisiau Gyrfa, Cangen Gyflogadwyedd, APADGOS

## Papurau gan Gyrfa Cymru

16. Papur 1 – *Tirlun Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd yng Nghymru*
17. Papur 2 – *Crynodeb o'r gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd a ddarperir gan Gyrfa Cymru*
18. Papur 3 – *Gwasanaethau Gyrfa Cymru ar gyfer pobl ifanc*
19. Papur 4 – *Gwasanaethau Gyrfa Cymru yng nghyd-destun y Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*
20. Papur 5 – *Gyrfa Cymru Ar-lein a Llinell Gymorth Dysgu a Gyrfaoedd: sianelau allweddol sy'n cynnal model cyfarwyddyd cost effeithiol Gyrfa Cymru*
21. Papur 5b – *Papur Gweledigaeth Gyrfa Cymru Ar-lein*
22. Papur 6 – *Rheoli Adnoddau*
23. Papur 7 – *Ffordd Ymlaen*
24. Papur 8 – *Y ddadl dros gyd-drefnu cefnogaeth i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)*
25. Papur 9 – *Arweinydd Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr, Llwybrau Dysgu 14–19*
26. Papur 10 – *Papur Gweledigaeth*
27. Papur 11 – *Negeseuon Allweddol am Gyfarwyddyd, pob oed, pob gallu a chysylltu pobl â'r farchnad lafur*
28. *Rhai meddyliau ynghylch Annog Dysgu*
29. *Papur Fforwm Cyfarwyddyd Strategol Cymru*
30. Papur Briffio – *Gwasanaeth gwahaniaethol*
31. *Gyrfa Cymru ac Ymgysylltu â Chyflogwyr*
32. *Y System Cyfiawnder Troseddol*
33. *Ymgysylltu â Chyflogwyr a Phartneriaeth Addysg-Busnes*
34. Gyrfa Cymru: cyflwyniad i'r Grŵp Craidd, Adolygiad GCCh 19 Ionawr 2010

35. Gyrfa Cymru: Cyflwyniad Dysgu Ar-lein a Llinell Gymorth Cyngor Gyrfaoedd

36. Gyrfa Cymru: Trosolwg ar y Defnydd Ar-lein

## Papurau gan Grwpiau Rhanddeiliaid

37. Atebion ysgrifenedig y Cynghorau Sgiliau Sector ac Asset Skills ar gyfer yr Adolygiad

38. Tystiolaeth ysgrifenedig LLUK i'r Adolygiad

39. Ateb ysgrifenedig ar gyfer yr Adolygiad gan gyd-drefnwyr PPPI

40. Ateb ysgrifenedig ar gyfer yr Adolygiad gan Gadeirydd Menter yr Ifanc

41. CASCAiD – Papur ar Ddarpariaeth Meddalwedd Cyfarwyddyd Gyrfaoedd yng Nghymru

42. *Tasglu Ymgysylltu â Chyflogwyr Adroddiad Mawrth 2007* – S Drury

43. Nodiadau Cyfarfod Profiad Gwaith i Fyfyrwyr dan 16 oed dan Oruchwyliaeth

44. Adolygiad o'r Ddarpariaeth Gyrfaoedd yng Nghymru – V Brown, GCCh

45. Gwasanaethau Gyrfaoedd yn yr Alban – cyflwyniad V Brown

46. Gwasanaethau yng Ngogledd Iwerddon – cyflwyniad J Shaw

47. *Archwiliad o'r Heriau Presennol sy'n wynebu Cysylltiadau rhwng Addysg a Busnes – Safbwynt Cyflogwr* Ebrill 2010 – Busnes yn y Gymuned

48. Gwasanaethau Gyrfaoedd AU – gwaith gyda Gyrfa Cymru – GGAUC

## Dogfennau cyfeirio allweddol

49. Adolygiad Estyn o Gyrfa Cymru

50. *Gyrfa Cymru: Adolygiad o Safbwynt Rhyngwladol* Mai 2009 – Yr Athro A G Watts. ISBN 978 0 7504 5176 5

51. OECD *Llawlyfr Llunwyr Polisi*

52. CAG – papur Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid

53. *Anogwyr Dysgu Cymru* Dogfen Grynodeb Awst 2008 – Yr Athro D M Saunders ISBN 978 0 7504 4754 6

54. *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* – Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14, APADGOS

## Dogfennau cyfeirio eraill

55. Canllawiau Statudol y DCFS Hydref 2009

56. DCFS – Papur ymchwil Cyd-drefnwyr Gyrfaoedd Hydref 2009 ISBN 978 1 84775 556 8

57. *Supporting learners through trade unions* – L Haughton, Cymrawd NICEC

58. Unionlearn Report on Research and Consultation Findings – L Haughton a S Hughes, NICEC

59. *Working together to support union learners* – L Haughton a S Hughes, NICEC

60. *The Careers Profession in the UK: a Preliminary Mapping Exercise* – Yr Athro A G Watts

61. Adroddiad Terfynol Grwpiau Ffocws IES Ebrill 09

62. *A Perfect Career Profession* – Dr D M Hughes

63. *Fuelling Potential – a Blueprint for Skills Accounts and the Adult Advancement and Careers Services* – BIS (Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, Llywodraeth y DU)

64. Careers England Policy Commentary on Fuelling Potential – Yr Athro A G Watts

65. *Adolygiad o Addewid a Chyflawniad* Rhagfyr 2007 – Webb, Drury a Griffiths. ISBN 9780750444828

66. Papur Briffio – Model Darparu Gwasanaeth Gwahaniaethol – Dr D M Hughes

67. Materion/themâu ychwanegol i'w trafod yn y Grŵp Craidd

68. Pumed Symposiwm Rhyngwladol ar Ddatblygu Gyrfa a Pholisi Cyhoeddus, Seland Newydd: Tachwedd 2009 – Dr D M Hughes ar ran Tîm Gwladol y DU

69. Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru – *Cymru: Gwlad sy'n Gweithio*. Ebrill 2009. ISBN 978 0 7504 5153 6

70. Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru – *Symud Ymlaen: Y Sylfeini ar gyfer Twf Cyfrol 1: Adfywiad Economaidd a'r Agenda Sgiliau*. Mai 2010. ISBN 978 0 7504 5595 4

71. *Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru – Symud Ymlaen: Y Sylfeini ar gyfer Twf Cyfrol 3: Sgiliau Cyflogadwyedd*. Mai 2010. ISBN 978 0 7504 5597 8

72. *Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru – Symud Ymlaen: Y Sylfeini ar gyfer Twf Cyfrol 4: Diweithdra Pobl Ifanc*. Mai 2010 ISBN 978 0 7504 5598 5

73. *CBI – Ready to Grow: Business priorities for education and skills*. Arolwg Addysg a Sgiliau 2010. ISBN: 978 0 8520 1724 1

# Atodiad 5: Cyfansoddiad 'teulu' y gwasanaethau gyrfaoedd

Mae dau wasanaeth sydd â'r swyddogaeth bennaf o ddarparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn derbyn cyllid cyhoeddus yng Nghymru, y:

- **Gyrfa Cymru –** roedd cyfanswm staff chwe Chwmni Gyrfa Cymru ar gyfer y flwyddyn fusnes 2009–10 tua 1,035. Roedd oddeutu 72 y cant yn gweithio yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol.
- **Gwasanaethau Cyngor Gyrfaoedd Addysg Uwch –** mae'r 12 prifysgol yng Nghymru yn cyflogi 154 aelod llawn a chysylltiol sydd wedi eu cofrestru gydag AGCAS (cymdeithas broffesiynol gweithwyr gyrfaoedd proffesiynol addysg uwch).

Yn ychwanegol at y ddau wasanaeth gyrfaoedd gwahanol yma, mae nifer o sefydliadau a mudiadau gwirfoddol yn cyflogi staff lle mae darparu addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd (amrywiol o ran cymysgedd a graddau o arbenigedd) yn rhan bendant o'u darpariaeth gwasanaeth cyffredinol.

**Mae'r rhain yn cynnwys:**

**Ysgolion uwchradd.** Mae oddeutu 220 o ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru. Bydd angen i bob ysgol gyflawni swyddogaethau: cyd-drefnu gyrfaoedd; cyd-drefnu profiad gwaith; darparu fframwaith cwricwlwm GBG. Ni chesglir data yn ganolog ar y swyddogaethau hyn; ond mae'n debygol byddai gan bob ysgol o leiaf ddau aelod o staff, ond efallai nifer yn fwy, sy'n treulio o leiaf rhywfaint o'u hamser yn cyflawni'r swyddogaethau hyn.

**Colegau addysg bellach.** Mae cyfanswm nifer y colegau addysg bellach yng Nghymru yn lleihau ar hyn o bryd oherwydd bod llawer yn uno â'i gilydd. Mae gwasanaethau cymorth gyrfaoedd fel arfer yn rhan o'r Tîm Cymorth Myfyrwyr, ac mae'n bosibl y cyflogir arbenigwyr gyrfaoedd cymwysedig. Eto, nid oes data'n cael ei gasglu'n ganolog; ond mae'n debygol fod oddeutu 100 o aelodau o staff yn cyflawni gwaith sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd.

**Anogwyr dysgu.** Gall unrhyw ddarparwr gyflogi anogwyr dysgu. Mae'r data diweddaraf sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cofnodi dros 1,200 o anogwyr dysgu cofrestredig, ac mae dros 785 o'r rhain wedi derbyn hyfforddiant llawn. Mae tua 500 o'r anogwyr cofrestredig yn nodi fod eu cefndir mewn addysgu neu ddarlithio.

**Jobcentre Plus.** Mae'n cyflogi oddeutu 719 o gynghorwyr personol sydd, o bosibl yn darparu gwybodaeth gysylltiedig â gyrfaoedd, fel rhan o'u cyngor ynghylch chwilio am waith a budd-daliadau.

**Gweithwyr y Gwasanaeth Prawf a'r Tîm Troseddau Ieuenctid.** Mae'r rhain yn cydnabod bod symud ymlaen i dderbyn hyfforddiant a chyflogaeth gynaliadwy yn rhan sylfaenol o'r broses adfer – mae ymwybyddiaeth o faterion cyfarwyddyd gyrfaoedd felly'n angenrheidiol i'r gwasanaeth. Ym mis Gorffennaf 2009, roedd bron i 1,500 o weithwyr yn y Tîm Troseddau Ieuenctid.

Mae NIACE wedi nodi bod dros 1,000 o Gynrychiolwyr Dysgu Cymunedol a all ddarparu peth gwybodaeth gyrfaoedd sylfaenol neu gynnig cyfeiriad i'r rheiny sy'n dymuno dod yn ôl i mewn i ddysgu. Yn yr un modd, mae TUC Cymru wedi cofnodi tua 1,200 o Gynrychiolwyr Dysgu'r Undeb.

Mae'n bosibl fod rhai rolau eraill sydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd yn cynnig elfennau o wybodaeth gyrfaoedd a chyfeirio o fewn eu model gwasanaeth cyflawn: gallai enghreifftiau gynnwys staff Canolfannau Cyngor ar Bopeth; llyfrgellwyr; ac ystod o rolau megis cynghorwyr dyledion neu weithwyr gwasanaethau cymdeithasol.

A derbyn natur gymysg eu swyddogaethau, byddai'n anodd hawlio nifer pendant ar gyfer y 'teulu' gyrfaoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n ddigon rhesymol i awgrymu bod y 'teulu' yn cynnwys cyfanswm o dros 5,000 o unigolion. Mae'r rhif hyn yn amcangyfrif bras o'r nifer cyffredinol o unigolion sydd wedi eu cynnwys yn hytrach nag yn gyfanswm o swyddi llawn amser.

# Atodiad 6: Gyrfa Cymru – Gweithgareddau addysg-busnes

Swyddogaeth strategol gweithgareddau o'r fath yw:

- hyrwyddo darparu'r cwricwlwm gan sefydliadau dysgu
- annog dysgwyr i ymgysylltu â'r cwricwlwm
- dod ag enghreifftiau o'r byd go iawn i mewn i brofiadau dysgu
- darparu profiad o'r byd gwaith.

Mae gwaith cwmnïau Gyrfa Cymru wrth baratoi a chadw cyflogwyr i ymgysylltu ag addysg yn cynnwys:

- recriwtio cyflogwyr sy'n fodlon cymryd rhan mewn cysylltiadau ag ysgolion
- cyngor cychwynnol ynglŷn ag yswiriant, amddiffyn plant a materion Iechyd a Diogelwch, hyfforddiant cychwynnol a chydweddu cyfleoedd posibl
- archwiliad Iechyd a Diogelwch ffurfiol ar y lleoliad gwaith
- ac i ddilyn hynny, y materion 'rheoli cysylltiadau cwsmeriaid' (RhCC) parhaus sydd angen wrth gynnal a datblygu'r berthynas ac efallai wrth ehangu cyfranogaeth. Ni ddylid tanamcannu effaith recriwtio cyflogwyr ychwanegol neu newydd a'r gwaith RhCC parhaus ar adnoddau Gyrfa Cymru.

Mae gweithgareddau addysg-busnes yn draddodiadol wedi canolbwyntio ar bum llinyn allweddol.

- Profiad gwaith i bobl ifanc sydd mewn ysgolion a cholegau.
- Ymwybyddiaeth o Fusnes a Menter.
- Mentora cyflogwr.
- Lleoliadau athrawon mewn diwydiant a busnes/masnach.
- Cefnogaeth cyflogwyr i Gyfoethogi a Datblygu'r Cwricwlwm.

Wrth newid o fframweithiau cwricwlwm addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd (AChG) ac addysg gysylltiedig â gwaith (AGG) i'r fframwaith GBG ym mis Medi 2008, ehangodd y diffiniad o brofiad o fyd gwaith drwy 'brofiad gwaith' yn eithaf dramatig. Erbyn hyn cyfeirir ato fel 'profiad sy'n canolbwyntio ar waith' ac mae'n cynnwys:

- blociau byr o brofiad gwaith
- ymweliadau â diwydiant

- dosbarthiadau meistr gyda chyflogwyr a hyfforddwyr
- efelu busnes
- cyfranogaeth gymunedol gysylltiedig â gwaith
- gweithgareddau menter
- diwrnodiau diwydiant
- profiad o le gwaith
- profiad o'r byd i'r rheiny sy'n annhebygol o fod mewn gwaith cyflogedig
- gweithgareddau datrys problemau cysylltiedig â gwaith
- profiad gwaith estynedig
- lleoliadau gwaith wedi eu hamserlennu'n wythnosol
- gwaith rhan-amser
- cysgodi gwaith.

Ar hyn o bryd, bydd cwmnïau Gyrfa Cymru a'r PABau cysylltiedig yn recriwtio cyflogwyr addas, yn eu fetio o safbwynt Iechyd a Diogelwch lle bo'n briodol (ar gyfer blociau byrion o brofiad gwaith er enghraifft) neu, lle bo'n briodol, yn argymell gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB).

Yn 2008–09 (y flwyddyn olaf mae gennym ffigurau llawn ar ei chyfer ar hyn o bryd) hwylusodd Gyrfa Cymru'r gweithgareddau addysg-busnes canlynol ar gyfer sefydliadau addysg neu gyda chyflogwyr:

| Gwaith gyda chyflogwyr | Cynlluniwyd | Cyflawnwyd |
|---|---|---|
| Nifer o gyflogwyr yn cefnogi gweithgareddau A-B | 21825 | 20072 |
| Nifer o gyflogwyr newydd sy'n cefnogi gweithgareddau A-B | 2700 | 5775 |
| Nifer o asesiadau iechyd a diogelwch | 10201 | 13484 |

| Gwaith gyda Sefydliadau Addysg | Cyfnod Allweddol 3 | Cyfnod Allweddol 4 | 16–19 | AB | Cyfanswm a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Profiad gwaith – nifer o gleientiaid a osodwyd | 0 | 33445 | 4219 | 1416 | **39080** |
| Nifer o gyflogwyr yn darparu lleoliadau | | | | | **16051** |
| Ymwybyddiaeth o Fenter/Busnes | | | | | |
| Nifer o sefydliadau gyda chymorth busnes/menter yn cynnwys Cyfnodau Allweddol 1 a 2) | 88 | 220 | 39 | 18 | **365** |
| Nifer yn cymryd rhan mewn ymwybyddiaeth busnes/menter | 13270 | 20980 | 5903 | 2162 | **42315** |
| Nifer yn cymryd rhan mewn sefydlu prosiectau busnesau bychain gyda chymorth | 4175 | 12734 | 4264 | 1262 | **22435** |
| Cymorth/Mentora cyflogwyr | | | | | |
| Nifer o ysgolion gyda chymorth cyflogwyr ar gyfer mentora/ gosod nodau unigol | 4 | 147 | 6 | 3 | **160** |
| Nifer o fyfyrwyr yn derbyn cymorth cyflogwyr ar gyfer mentora/gosod nodau unigol | 658 | 12347 | 481 | 149 | **13635** |
| Nifer o gyflogwyr yn darparu cymorth mentora | | | | | **435** |
| Nifer o fentoriaid gweithwyr busnes | | | | | **864** |
| Gweithgareddau cefnogi'r cwricwlwm | | | | | |
| Nifer o sefydliadau gyda chymorth cyflogwyr i ddarparu/datblygu'r cwricwlwm (yn cynnwys Cyfnodau Allweddol 1 a 2) | 1259 | 166 | 55 | 3 | **1483** |
| Nifer o fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgaredd darparu/datblygu yn cael ei gynnal gan gyflogwyr | 90059 | 19437 | 2663 | 337 | **112496** |

Dylid nodi hefyd fod rhai ysgolion yn annog disgyblion i ddod o hyd i'w lleoliadau profiad gwaith eu hunain. Er hynny, mae angen i'r lleoliadau gael archwiliad iechyd a diogelwch; ac mae Gyrfa Cymru yn gwneud pob ymdrech i recriwtio'r cyflogwyr dan sylw ar gyfer lleoliadau yn y dyfodol.

# Atodiad 7: Rhestr termau

**A**

| | |
|---|---|
| ABCh | Addysg bersonol a chymdeithasol |
| ADY | Anghenion dysgu ychwanegol |
| AETh | Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| APADGOS | Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| ASA | Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch |

**B**

| | |
|---|---|
| BCAS | Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru |
| BIS | Adran Busnes Arloesi a Sgiliau, Llywodraeth y DU |
| BYG | Busnes yn y Gymuned |

**C**

| | |
|---|---|
| CAChG | Cymdeithas Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd |
| CAG | Cymdeithas Addysg y Gweithwyr |
| CAU | Cynrychiolwr Addysg Undebau |
| CBI | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| CCAC | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru |
| CCAUC | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| CDC | Cynrychiolwyr Dysgu Cymunedol |
| CEARhLlDGO | Cymdeithas Ewropeaidd Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol ar gyfer Dysgu Gydol Oes |
| CEDHG | Canolfan Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Hyfforddiant Galwedigaethol |
| CGC | Cymdeithas Gyrfa Cymru |
| CGGC | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| CPPI | Cynllun Plant a Phobl Ifanc |

| | |
|---|---|
| CSI | Cyflogaeth a Sgiliau Integredig |
| CSS | Cynghorau Sgiliau Sector |
| **D** | |
| DAR | Datblygiad Addysg Ryngwladol |
| DCSF | Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, Llywodraeth y DU |
| DOG | Dysgu Oedolion a'r Gymuned |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| DSW | Dysgu seiliedig ar waith |
| DWP | Adran Gwaith a Phensiynau, Llywodraeth y DU |
| **Ff** | |
| FfHCC | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| **G** | |
| GBG | Gyrfaoedd a'r byd gwaith |
| GC | Gyrfa Cymru |
| GCA | Gyrfa Cymru Ar-lein |
| GCCh | Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd |
| GCGAU | Gwasanaethau Cyngor Gyrfaoedd Addysg Uwch |
| GGAUC | Gwasanaethau Gyrfaoedd Addysg Uwch Cymru |
| GO Cymru | Cyfleoedd i Raddedigion Cymru |
| **J** | |
| JCP | Jobcentre Plus |
| **K** | |
| KIT | Cadw mewn Cysylltiad |
| **L** | |
| LMI | Gwybodaeth/Dealltwriaeth o'r Farchnad Lafur |
| LLUK | Lifelong Learning UK |

**Ll**

| | |
|---|---|
| LlCC | Llywodraeth Cynulliad Cymru |

**M**

| | |
|---|---|
| MoU | Memorandwm Dealltwriaeth |

**N**

| | |
|---|---|
| NEET | Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
| NIACE | Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion |
| NICEC | Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd |

**O**

| | |
|---|---|
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |

**P**

| | |
|---|---|
| PAB | Partneriaeth Addysg-busnes |

**Rh**

| | |
|---|---|
| RhCC | Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid |
| RhPCGOE | Rhwydwaith Polisi Cyfarwyddyd Gydol Oes Ewrop |

**S**

| | |
|---|---|
| SAB | Sefydliad addysg bellach |
| SAU | Sefydliad addysg uwch |
| SDd | Sefydliad dros Ddysgu |
| STEM | Gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg |

**T**

| | |
|---|---|
| TGCh | Technolegau gwybodaeth a chyfathrebu |
| TUC | Cyngres Undebau Llafur |

**U**

| | |
|---|---|
| UKCES | Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau |

**Y**

| | |
|---|---|
| YADdDGO | Ymchwiliad Annibynnol i Ddyfodol Dysgu Gydol Oes |

# Atodiad 8: Bywargraffiadau byr o aelodau'r tîm Adolygu

### Dr Haydn E Edwards

Mae'r Dr Haydn E Edwards wedi rheoli colegau addysg bellach ers 1985, ymddeolodd yn ddiweddar o'i swydd fel Pennaeth a Phrif Weithredwr Coleg Menai. Mae wedi gwasanaethu ar fyrddau nifer o gyrff cyhoeddus ac ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol gydag Estyn, yn cadeirio Partneriaeth Ymgynghorol Bwyd a Diod Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n Ymddiriedolwr Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

### Yr Athro Danny Saunders OBE

Yr Athro Danny Saunders yw Pennaeth Dysgu Gydol Oes a Phartneriaethau Colegau Addysg Bellach Prifysgol Morgannwg. Mae'n aelod o Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn APADGOS, a hefyd yn aelod o Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru.

### Dr Deirdre Hughes

Mae'r Dr Deirdre Hughes yn arbenigo mewn asesu'r sylfaen o dystiolaeth yn y DU ac yn rhyngwladol ar gyfer gwaith gyrfaoedd. Mae'n Llywydd y Sefydliad Cyfarwyddyd Gyrfaoedd, yn Sefydlydd a Chyfarwyddwr y Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Astudiaethau Cyfarwyddyd ym Mhrifysgol Derby (1998–2008) ac yn Gymrawd Cysylltiol yn y Sefydliad ar gyfer Ymchwil i Gyflogaeth, Prifysgol Warwick. Mae'n cynghori amrywiol adrannau'r llywodraeth ar bolisïau addysg a chyflogaeth yn y DU a thu hwnt.

# Cydnabyddiaethau

Yr wyf yn ddiolchgar i'r Dr Deirdre Hughes a'r Athro Danny Saunders am eu gwaith gwerthfawr fel rhan o'r Adolygiad hwn. Bu eu dealltwriaeth unigol, eu persbectif, eu hymrwymiad i safonau a'u cyfraniad cyffredinol yn allweddol i lwyddiant yr Adolygiad yma, ei argymhellion a'r goblygiadau i'r dyfodol ar gyfer y gwasanaethau gyrfaoedd. Fel tîm, mae'r tri ohonom wedi gwerthfawrogi'n fawr, drwy gydol yr holl broses, yr arweiniad, y cyngor a'r gefnogaeth a roddwyd gan Neil Thomas o Lywodraeth Cynulliad Cymru, gwybodaeth a phrofiad Kirsteen Reed, sydd wedi bod ar secondiad o Yrfa Cymru, ein trafodaethau gydag aelodau'r Grŵp Cyfeirio, yn ogystal â'r cyfraniadau a wnaed mor barod gan dros hanner cant o unigolion o amrywiaeth eang o gyrff a sefydliadau yn ystod ein sesiynau casglu tystiolaeth. Yn olaf mae'r tîm Adolygu'n ddiolchgar i Mike Moss o Gangen Polisi Gyrfaoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ac i'w staff – Mike Barry, Jeremy Howells, Paul Watts, Andrew Bishop, Sylvia Bull a Caroline Wong – am eu holl fewnbwn a'u cymorth trefniadol.

**Dr Haydn E Edwards**
**Cadeirydd**